estyn.llyw.cymru
estyn.gov.wales

# Cyrsiau safon uwch mewn dosbarthiadau chweched a cholegau addysg bellach

Tachwedd 2018

PHOTO REDACTED DUE TO THIRD PARTY RIGHTS OR OTHER LEGAL ISSUES

**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- ysgolion a lleoliadau meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael eu hariannu gan, awdurdodau lleol
- ysgolion cynradd
- ysgolion uwchradd
- ysgolion arbennig
- unedau cyfeirio disgyblion
- ysgolion pob oed
- ysgolion annibynnol
- addysg bellach
- colegau annibynnol arbenigol
- dysgu oedolion yn y gymuned
- gwasanaethau addysg awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc
- addysg a hyfforddiant athrawon
- Cymraeg i oedolion
- dysgu yn y gwaith
- dysgu yn y sector cyfiawnder

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2018: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

| Cynnwys | Tudalen |
|---|---|


| | |
|---|---|
| **Cyflwyniad** | **1** |
| **Cefndir** | **1** |
| **Prif ganfyddiadau** | **6** |
| **Argymhellion** | **10** |
| **Safonau** | **11** |
| Safonau a chynnydd dysgwyr | 11 |
| Lles ac agweddau at ddysgu | 12 |
| Perfformiad mewn Safon Uwch | 13 |
| Deilliannau ar gyfer grwpiau o ddysgwyr | 17 |
| Deilliannau mewn ysgolion a cholegau | 18 |
| Cofrestriadau | 19 |
| Cadw a dilyniant | 21 |
| **Darpariaeth** | **23** |
| Cwricwlwm | 23 |
| Cyngor ac arweiniad | 25 |
| Polisïau mynediad | 28 |
| Addysgu ac asesu | 30 |
| Monitro cynnydd | 33 |
| Dysgwyr mwy abl | 35 |
| Darpariaeth cyfrwng Cymraeg | 35 |
| **Arweinyddiaeth** | **36** |
| Arweinyddiaeth | 36 |
| Hunanarfarnu a chynllunio gwelliant | 36 |
| Partneriaethau | 38 |
| Dysgu proffesiynol | 40 |
| Recriwtio a staffio | 42 |
| Adnoddau a chyllid | 43 |
| Adrodd a dadansoddi data Safon Uwch | 44 |
| Atebolrwydd | 44 |
| **Atodiad 1 – Casglu a dadansoddi data** | **46** |
| **Sail y dystiolaeth** | **50** |
| **Geirfa** | **52** |
| **Cyfeiriadau** | **54** |

## Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn ymateb i gais am gyngor yn llythyr cylch gwaith blynyddol Ysgrifennydd y Cabinet i Estyn ar gyfer 2017-2018. Mae'n adrodd ar safonau, darpariaeth ac arweinyddiaeth mewn cyrsiau Lefelau Uwch TAG (Safon Uwch) mewn dosbarthiadau chwech ysgolion a cholegau addysg bellach. Mae'n ystyried amrywiaeth o ffactorau, fel safonau mewn Safon Uwch a sut caiff y rhain eu mesur, ansawdd yr addysgu a'r asesu, natur y cwricwlwm Safon Uwch a gynigir ac arweinyddiaeth strategol, gan gynnwys gweithio mewn partneriaeth.

Y gynulleidfa a fwriedir ar gyfer yr adroddiad hwn yw Llywodraeth Cymru, penaethiaid, prifathrawon ac athrawon mewn ysgolion uwchradd a cholegau, swyddogion awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol. Mae'r adroddiad yn defnyddio tystiolaeth o arolygiadau ysgolion uwchradd a cholegau ac o ymweliadau â 23 o ysgolion uwchradd a cholegau.

## Cefndir

### Diwygio Safon Uwch

Cymwysterau yn seiliedig ar bynciau yw cyrsiau Safon Uwch, sy'n cael eu hastudio yn y sector ôl-16 yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, yn ogystal â rhannau eraill o'r byd. Mae dysgwyr fel arfer yn astudio rhwng tri a phum cwrs Safon Uwch dros gyfnod o ddwy flynedd a gallant astudio ar gyfer cyrsiau Safon Uwch mewn dosbarthiadau chwech ysgolion neu mewn colegau addysg bellach. Er mis Medi 2015, mae cyrsiau Safon Uwch yn wahanol i'r rheiny yn Lloegr, ac fe'u cynigir yn bennaf gan un corff dyfarnu, sef Cyd-bwyllgor Addysg Cymru (CBAC). Yng Nghymru, mae blwyddyn gyntaf cwrs Safon Uwch yn cyfrif am 40% o'r cymhwyster cyffredinol ac yn arwain at radd UG. Rhaid i ddysgwyr gwblhau gweddill y flwyddyn (sy'n cael ei hadnabod fel A2) er mwyn ennill y cymhwyster Safon Uwch llawn. Caiff cyrsiau Safon Uwch eu graddio A*-E tra bod cyrsiau UG yn cael eu graddio A-E.

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae cyrsiau Safon Uwch yng Nghymru wedi datblygu yn unol â chefndir o newid sylweddol o ran adolygiadau o ddarpariaeth cyn-16 ac ôl-16, diwygiadau gan y llywodraeth yn effeithio ar addysg, diwygio'r cwricwlwm Safon Uwch ac UG a chymwysterau yng Nghymru a Lloegr, a newidiadau i fesurau perfformiad ôl-16. Mae hyn wedi'i gofnodi yn y diagram isod:

**2012**

- Cyhoeddi'r adolygiad o gymwysterau 14-19
- Ychwanegu data Chweched Dosbarth at Set Data Craidd Cymru Gyfan

**2014**

- Cyhoeddi 'Cymwys am Oes'
- Cyhoeddi egwyddorion cymhwyster TAG Safon Uwch ac UG
- Llywodraeth Cymru (LlC) yn dechrau gweithio ar fesurau perfformiad cyson ar draws ysgolion a cholegau

**2015**

- Llywodraeth Cymru (LlC) yn dechrau gweithio ar fesurau perfformiad cyson ar draws ysgolion a cholegau
- Cyflwyno Bagloriaeth Cymru â graddau newydd
- Sefydlu Cymwysterau Cymru (CC)
- Cyhoeddi 'Dyfodol Llwyddiannus'

**2016**

- Dechrau addysgu ail gam cymwysterau UG/Safon Uwch newydd (achredwyd rhai gan LlC a chymeradwywyd rhai eraill gan CC)
- Cyhoeddi adolygiad Hazelkorn 'Tuag at 2030'
- Comisiynu FFT i ddatblygu model data gwerth ychwanegol ôl-16

**2017**

- Dechrau addysgu trydydd cam cymwysterau UG/Safon Uwch newydd (i gyd wedi eu cymeradwyo gan CC)
- Cyhoeddi 'Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl'
- Cyflwyno adroddiadau cychwynnol, heb eu cyhoeddi ar gyflawniad a gwerth ychwanegol fel rhan o'r mesurau newydd cyson

**2018**

- Ymgynghori ar argymhellion adolygiad Hazelkorn
- Rhyddhau adroddiadau heb eu cyhoeddi ar gyflawniad a gwerth ychwanegol i'r holl ysgolion a cholegau
- Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi Datganiad Ystadegol Cyntaf o ddata arbrofol ar gyfer yr holl fesurau newydd cyson

Yn 2012, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru '*Adolygiad o Gymwysterau ar gyfer pobl ifanc 14 i 19 oed yng Nghymru: Adroddiad terfynol ac argymhellion'* (Llywodraeth Cymru, 2012). Daeth yr adolygiad i'r casgliad fod angen diwygio'r system cymwysterau genedlaethol ar gyfer pobl ifanc 14-19 oed yng Nghymru. Gwnaeth yr adroddiad yr argymhellion canlynol o ran cyrsiau Safon Uwch:

> *Dylai Llywodraeth Cymru gadw Safon Uwch fel y prif gymwysterau cyffredinol Lefel 3 yn 16 i 19 oed. Dylai Llywodraeth Cymru:*
>
> - *gadw'r un Safon Uwch â Lloegr a Gogledd Iwerddon lle bo'n bosibl, ond caniatáu amrywiaeth pan fydd angen i fodloni anghenion dysgwyr yng Nghymru*
> - *sicrhau bod grwpiau cyflogwyr yng Nghymru yn cymryd rhan briodol yn y broses datblygu a/neu achredu Safonau Uwch sy'n berthnasol iddynt, a sicrhau bod sefydliadau addysg uwch yng Nghymru yn cymryd rhan briodol mewn datblygu a/neu achredu cyrsiau Safon Uwch.*
>
> *Bydd rhaid trafod manylion gyda chyd-reoleiddwyr, ond dengys y dystiolaeth o'r Adolygiad y dylai Llywodraeth Cymru weithio i:*
>
> - *gadw'r strwythur UG/U2*
> - *caniatáu un cyfle yn unig i ailsefyll, gyda'r marc uchaf yn cyfrif*
> - *cydnabod yr amrywiaeth o safbwyntiau a fynegwyd gan randdeiliaid am y defnydd parhaus o unedau o fewn UG ac U2 a chyfleoedd asesu ym mis Ionawr.* (Llywodraeth Cymru, 2012, tud.12).

Hefyd, argymhellodd yr adolygiad 14-19 y dylid sefydlu corff rheoleiddio newydd ar gyfer cymwysterau nad ydynt yn rhai gradd yng Nghymru. Yn dilyn Deddf Cymwysterau Cymru 2015 (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2015), daeth

Cymwysterau Cymru i fodolaeth. Maent bellach yn rheoleiddio ac yn monitro unrhyw gorff dyfarnu sy'n cynnig cymwysterau nad ydynt yn rhai gradd, gan gynnwys cyrsiau Safon Uwch, yng Nghymru ac yn 'cymeradwyo' cymwysterau fel rhai sy'n gymwys i'w defnyddio ar raglenni dysgu a ariennir yn gyhoeddus (Cymwysterau Cymru, 2016, tud.5).

Argymhellodd yr adolygiad 14-19 y dylai cyrsiau Safon Uwch gyfateb i'r rheiny a gynigir yn Lloegr. Wedyn, cyhoeddwyd diwygiadau helaeth i gyrsiau Safon Uwch yn Lloegr, y cawsant eu haddysgu gyntaf o fis Medi 2015. O ganlyniad, diwygiodd Cymru'r holl gyrsiau Safon Uwch hefyd ar yr un amserlen fel eu bod yn cyfateb i'r rhain yn Lloegr. Ym mis Hydref 2014, i ymateb i'r adolygiad 14-19, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru '*Cymwys am Oes: Cynllun gwella addysg ar gyfer dysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru'* (Llywodraeth Cymru, 2014a*)*. Amlinellodd hyn raglen ddiwygio'r llywodraeth ar gyfer addysg 14-19. Roedd yn cynnwys cynllun i gyflwyno cymwysterau Safon Uwch newydd o fis Medi 2015 a gadwodd y strwythur UG/U2.

Ym mis Awst 2014, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru bapur yn amlinellu newidiadau ar gyfer cyrsiau Safon Uwch yng Nghymru: '*Egwyddorion cymhwyster TAG UG a Safon Uwch'* (Llywodraeth Cymru, 2014b). Mae'r papur hwn yn nodi'r egwyddorion trosfwaol ar gyfer yr holl gyrsiau TAG UG a Safon Uwch a ddatblygwyd ar gyfer addysgu yng Nghymru o fis Medi 2015 ymlaen. Mae'r papur yn nodi gwahaniaethau allweddol rhwng cyrsiau Safon Uwch yn Lloegr a'r rheiny yng Nghymru, sef cadw cyrsiau Safon UG, a fyddai bellach yn cyfrif am 40% (50% gynt) o'r cymhwyster blaenorol, ac yn caniatáu cyfleoedd i ailsefyll.

Cyn mis Medi 2015, gallai ysgolion a cholegau ddewis manylebau Safon Uwch o blith amrywiaeth o gyrff dyfarnu gan fod yr un manylebau'n cael eu hastudio yng Nghymru a Lloegr. Fodd bynnag, roedd y gwahaniaethau a amlinellir yn yr egwyddorion cymhwyster UG a Safon Uwch yn golygu y byddai'n rhaid i gyrff dyfarnu ddatblygu manylebau ar gyfer cyrsiau Safon Uwch yng Nghymru a oedd yn wahanol i'r rheiny yn Lloegr. Gwahoddwyd pob corff dyfarnu ledled Cymru a Lloegr i gyflwyno manylebau. Gwrthododd y rhan fwyaf o'r cyrff dyfarnu ddatblygu manylebau Cymru yn unig, ac o ganlyniad, CBAC oedd yr unig gorff dyfarnu ar gyfer cyrsiau Safon Uwch ac UG yng Nghymru. Diwygiwyd cynnwys cyrsiau Safon Uwch ac UG hefyd.

Cyflwynwyd newidiadau i gyrsiau Safon Uwch ac UG mewn tri cham (cânt eu hadnabod hefyd fel 'tonnau') bob mis Medi o 2015 i 2017. Gan nad oedd Cymwysterau Cymru yn bodoli pan oedd cam cyntaf y cymwysterau'n cael ei ddatblygu, achredwyd y rhain gan Lywodraeth Cymru. Lluniodd Llywodraeth Cymru egwyddorion cymhwyster ar gyfer pob pwnc, a bu'n rhaid i'r bwrdd arholi gyflwyno crynodeb asesu, manyleb a detholiad o ddeunyddiau asesu mewn tri cham cyn y gellid achredu. Ar yr un pryd, diwygiwyd cyrsiau Safon Uwch yn Lloegr yn helaeth. Roedd Cymwysterau Cymru a Llywodraeth Cymru ynghlwm wrth gymeradwyo neu achredu cyrsiau a gyflwynwyd yn yr ail gam ym mis Medi 2016. Er mis Medi 2017, mae'r holl gymwysterau wedi cael eu cymeradwyo gan Cymwysterau Cymru. Mae'r prosesau achredu a chymeradwyo yn ymestyn dros gyfnod sylweddol. Fodd bynnag, mae manylebau drafft ar gael ar-lein yn ystod y broses.

## Diwygio'r cwricwlwm

Ym mis Mawrth 2014, gofynnodd Llywodraeth Cymru i'r Athro Graham Donaldson

gynnal Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a Threfniadau Asesu yng Nghymru.  Ym mis Chwefror 2015, cyhoeddwyd '*Dyfodol Llwyddiannus'* (Donaldson, 2015) ac, ym mis Mehefin 2015, derbyniodd Llywodraeth Cymru bob un o'r argymhellion yn yr adroddiad.  Mae'r adroddiad yn amlinellu pedwar diben ar gyfer y cwricwlwm yng Nghymru, sef y dylai plant a phobl ifanc ddatblygu yn:

- ddysgwyr uchelgeisiol a galluog, sy'n barod i ddysgu trwy gydol eu bywydau
- cyfranwyr mentrus a chreadigol, sy'n barod i gymryd rhan lawn mewn bywyd a gwaith
- dinasyddion moesegol a gwybodus Cymru a'r byd
- unigolion iach a hyderus, sy'n barod i fyw bywydau boddhaus fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas. (Donaldson, 2015, tud.29)

Mae'r pedwar diben trosfwaol hyn yn cwmpasu'r hyn y dylai plant a phobl ifanc fod a'r hyn y dylent ei gyflawni yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, a nhw yw egwyddorion arweiniol yr adroddiad.  Er bod y pedwar diben wedi'u bwriadu i baratoi dysgwyr ar gyfer addysg ôl-16 a bywyd oedolyn, mae'r adroddiad ei hun a'r diwygio dilynol yn cwmpasu addysg yng Nghymru hyd at 16 oed, ond nid yw'n cwmpasu darpariaeth ôl-orfodol na chyrsiau Safon Uwch.

### Seren

Yn 2014, sefydlwyd Rhwydwaith Seren o hybiau rhanbarthol gan Lywodraeth Cymru i gynorthwyo disgyblion disgleiriaf Cymru i allu mynychu prifysgolion blaenllaw yn y DU, a mynd i'r afael â'r gostyngiad yn nifer y ceisiadau o Gymru a derbyniadau i Brifysgolion Rhydychen a Chaergrawnt.  Yn 2018, cyhoeddwyd arfarniad ffurfiannol a phroses o flwyddyn gyflwyno lawn gyntaf Rhwydwaith Seren (Bryer, Davies ac Ynus, 2018).  Canfu'r arfarniad:

> *'Mae Seren yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at godi dyheadau, magu hyder ac annog myfyrwyr i feddwl yn fwy uchelgeisiol am eu dewisiadau prifysgol'.* (tud.4).

Canfu'r arfarniad y bu Seren yn werthfawr o ran helpu cyfranogwyr i wneud penderfyniadau gwell am y cwrs prifysgol y maent yn ei ffafrio a gwneud iddynt sylweddoli pwysigrwydd darllen yn eang am eu maes pwnc.  Mae cyfranogwyr yn nodi mai'r agwedd fwyaf defnyddiol ar ddarpariaeth Rhwydwaith Seren yw cyflwyniadau gan siaradwyr gwadd (tud.4).  Fodd bynnag, canfu'r adroddiad hefyd mai:

> '*ychydig iawn o ddata oedd ar gael i ddangos y gwahaniaeth a wnaed gan Rwydwaith Seren ar nifer y myfyrwyr sy'n gwneud cais i brifysgolion tariff uwch yn sgil y ffaith mai 2017/18 yw'r flwyddyn gyflwyno gyntaf lawn ac nid oes unrhyw ddata gwrthffeithiol trylwyr.*' (tud.4).

Er gwaethaf hyn, mae'r adroddiad yn datgan:

> '*mae data a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan UCAS yn amlygu cynnydd diweddar yn nifer y myfyrwyr sy'n byw yng Nghymru sy'n gwneud cais i'r sefydliadau a'r cyrsiau hyn yn ystod 2017/18.*' (tud.6).

Mae'r adroddiad yn gwneud nifer o argymhellion a chanfu fod amrywiad sylweddol ar draws hybiau Seren o ran meini prawf mynediad ar gyfer cyfranogwyr ac eglurder ynglŷn â diben y rhaglen.

## Diwygiadau i addysg a hyfforddiant ôl-orfodol

Mae Is-adran Cwricwlwm ac Asesu ac Is-adran Addysgeg, Arweinyddiaeth a Dysgu Proffesiynol yr Adran Addysg yn goruchwylio dosbarthiadau chwech a chanlyniadau Safon Uwch yn Llywodraeth Cymru. Trefnodd y Gangen Gwella Ysgolion ddau gyfarfod Uwchgynhadledd Gwella Safon Uwch ym mis Gorffennaf a mis Tachwedd 2017. Cyfarwyddiaeth Sgiliau, Addysg Uwch a Dysgu Gydol Oes Llywodraeth Cymru sy'n ariannu darpariaeth chweched dosbarth, trwy ddyraniadau i awdurdodau lleol, a datblygu mesurau perfformiad cyson ôl-16 newydd.

Ym mis Hydref 2015, gofynnodd Llywodraeth Cymru i'r Athro Ellen Hazelkorn gynnal adolygiad o addysg ôl-orfodol yng Nghymru, gyda chyfeiriad arbennig at rôl a swyddogaeth Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) yn y dyfodol. Cyhoeddwyd yr adroddiad, sef '*Tuag at 2030: Fframwaith ar gyfer datblygu system addysg ôl-orfodol o'r radd flaenaf i Gymru'* (Hazelkorn, 2016), ym mis Mawrth 2016. Mae'r adroddiad yn awgrymu y dylid ystyried p'un a ddylai goruchwylio addysg chweched dosbarth barhau o fewn cylch gwaith addysg ôl-uwchradd neu a ddylid cynnwys hyn yng nghylch gwaith awdurdod addysg drydyddol newydd arfaethedig. Derbyniodd Llywodraeth Cymru argymhellion yr adroddiad a chyhoeddodd ymgynghoriad papur gwyn ar y cynigion ar gyfer diwygio ym mis Mehefin 2017 (Llywodraeth Cymru, 2017a), wedi'i ddilyn gan ymgynghoriad technegol ym mis Ebrill 2018 (Llywodraeth Cymru, 2018a). Cyhoeddwyd yr adroddiad yn crynhoi'r atebion o'r ymgynghoriad hwn ym mis Hydref 2018 (Llywodraeth Cymru, 2018f).

Ym mis Medi 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru '*Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein cenedl, Cynllun Gweithredu 2017-21*', ac ynddo mae'r llywodraeth yn ymrwymo i'r *'cyrsiau TGAU a Safon Uwch newydd diwygiedig a thrylwyr'* (Llywodraeth Cymru 2017b, tud.14). Mae hyn yn adeiladu ar gyhoeddi *'Cymwys am oes: Cynllun gwella addysg ar gyfer dysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru'* (Llywodraeth Cymru, 2014a) a *'Dyfodol Llwyddiannus'* (Donaldson, 2015).

## Data Safon Uwch

Mae'r adroddiad thematig hwn yn ystyried canlyniadau Safon Uwch dros gyfnod o bum mlynedd. O ganlyniad i'r newidiadau a gyflwynwyd yn y blynyddoedd diwethaf, mae cymariaethau flwyddyn ar ôl blwyddyn o ganlyniadau yng Nghymru yn ogystal â chymariaethau â'r rheiny yn Lloegr yn anodd a 'dylid eu gwneud yn ofalus' (y Cyd-gyngor Cymwysterau (CGC), 2018a, tud.2). Caiff dadansoddi perfformiad mewn Safon Uwch ei gymhlethu gan y ffaith fod ysgolion a cholegau'n cyflwyno'r un cyrsiau Safon Uwch, ond ar hyn o bryd, ni chaiff eu llwyddiant o ran deilliannau ei fesur yn yr un ffordd. Caiff tua 70% o gyrsiau Safon Uwch a ariennir yn gyhoeddus yng Nghymru eu cyflwyno gan ddosbarthiadau chwech ysgolion, a'r 30% sy'n weddill gan golegau. Mae manylion am y gwahaniaethau mewn casglu a dadansoddi data rhwng ysgolion a cholegau, a gwaith Llywodraeth Cymru ar ddatblygu dull cyffredin, trwy fesurau perfformiad cyson ôl-16, wedi eu cynnwys yn atodiad 1.

# Prif ganfyddiadau

## Safonau

1 Mae llawer o ddysgwyr Safon Uwch yn gwneud cynnydd cryf yn eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth. Mae'r dysgwyr hyn yn galw dysgu blaenorol i gof yn gadarn ac yn cymhwyso eu gwybodaeth a'u medrau blaenorol yn hyderus i sefyllfaoedd newydd. Mae ychydig o ddysgwyr yn gwneud cynnydd annigonol. Mewn rhai achosion, ac yn enwedig i ddysgwyr y mae lefelau eu cyflawniad academaidd mewn TGAU yn gymedrol, mae hyn am nad oes ganddynt y wybodaeth gefndirol, y ddealltwriaeth fanwl na lefel y medr sy'n angenrheidiol i astudio ar lefel uwch. Mewn achosion eraill, nid oes gan ddysgwyr y dyfalbarhad a'r cymhelliant i wneud yn dda ac nid oes ganddynt ddigon o ddiddordeb yn eu hastudiaethau.

2 Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn mwynhau eu hastudiaethau Safon Uwch, er eu bod yn eu gweld yn llawer anos na chyrsiau TGAU. Maent yn gwerthfawrogi lefel yr her ddeallusol a'r cyfle i astudio ystod gyfyngedig o bynciau o'u dewis nhw. Hefyd, mae llawer ohonynt yn cael ymdeimlad o gyflawniad a balchder gan fod rhaid iddynt wneud mwy drostynt eu hunain, a dangosant synnwyr clir o uchelgais ynglŷn â'r graddau y maent yn gobeithio eu cyflawni.

3 Mae medrau dysgu annibynnol datblygedig yn hanfodol i lwyddo mewn Safon Uwch. Mae llawer o ddysgwyr yn datblygu'r medrau hyn yn dda yn ystod eu hastudiaethau Safon Uwch, ond nid oes gan fwyafrif ohonynt fedrau dysgu annibynnol digon cryf pan fyddant yn dechrau eu cyrsiau Safon Uwch, ac mae lleiafrif ohonynt yn parhau i fod yn rhy ddibynnol ar bobl eraill am gymorth. Ar y cyfan, nid yw cyrsiau TGAU presennol yn paratoi dysgwyr yn ddigon da ar gyfer y lefel astudio annibynnol sydd ei hangen i astudio cyrsiau Safon Uwch. Mae llawer o ddysgwyr yn trefnu eu gwaith a'u hamser yn effeithlon, er bod gan ychydig ohonynt, yn enwedig bechgyn, fedrau trefnu gwan ac maent yn ei chael yn anodd dal i fyny â gofynion eu hastudiaethau.

4 Mae astudio cyrsiau Safon Uwch yn achosi straen i'r rhan fwyaf o ddysgwyr gan eu bod yn teimlo bod cyrsiau Safon Uwch yn gymwysterau 'tariff uchel' sydd â goblygiadau difrifol i weddill eu bywydau. Mae gofynion astudio tri neu bedwar pwnc yn ogystal â chymhwyster ychwanegol fel Bagloriaeth Cymru yn ychwanegu at y straen hwn, yn enwedig am fod gan ryw hanner y dysgwyr gyfrifoldebau ychwanegol fel swyddi rhan-amser neu gyfrifoldebau gofalu.

5 Nid astudio cyrsiau Safon Uwch yw'r opsiwn mwyaf addas i'r holl ddysgwyr sy'n astudio'r cymwysterau hyn. Nid yw tua 20% o ddysgwyr Blwyddyn 12 yn symud ymlaen o ddilyn cyrsiau UG i gyrsiau Safon Uwch. Mae dysgwyr â chyrhaeddiad isel mewn TGAU yn fwy tebygol o beidio â chwblhau Blwyddyn 12 neu fynd ymlaen i Flwyddyn 13 na dysgwyr eraill. Yn y rhan fwyaf o achosion, nid cyrsiau Safon Uwch oedd yr opsiwn gorau ar gyfer y dysgwyr hyn.

6 Rhwng 2014 a 2016, ni fu cynnydd mewn perfformiad mewn Safon Uwch yng Nghymru. Yn ystod y cyfnod hwn, Cymru oedd yr ardal â'r perfformiad gwaethaf yn y DU o ran cyrsiau Safon Uwch. Yn 2017, dangosodd canlyniadau Safon Uwch yng Nghymru welliannau cryf, a chynhaliwyd y rhain ar y cyfan yn 2018. Fodd bynnag,

mae'n gynyddol anodd cymharu â Lloegr a Gogledd Iwerddon oherwydd gwahaniaethau cynyddol yn y rheoliadau a'r protocolau asesu rhwng y gwledydd hyn. Bu gostyngiad dros bum mlynedd yn nifer y cofrestriadau ar gyfer cyrsiau UG a chyrsiau Safon Uwch, fel ei gilydd. Mae hyn yn bennaf o ganlyniad i'r gostyngiad ym maint y grwpiau poblogaeth 18 ac 17 oed. Hefyd, gellir ei briodoli'n rhannol i ostyngiad yn nifer gyfartalog y cymwysterau Safon Uwch ac UG y mae dysgwyr yn eu dilyn, ac mae llawer ohonynt yn dilyn llai o gyrsiau Safon Uwch ac UG, yn rhannol gan eu bod yn astudio Bagloriaeth Cymru (Cymwysterau Cymru, 2018).

7 Mae gwahaniaeth sylweddol rhwng deilliannau mewn Safon Uwch ac UG, ac mae perfformiad mewn Safon Uwch gryn dipyn yn gryfach. Yn benodol, dyfernir nifer uchel o raddau U ar lefel UG. Mae llawer mwy o gofrestriadau ar gyfer UG na Safon Uwch.

8 Yn gyffredinol, mae merched yng Nghymru yn perfformio'n well na bechgyn mewn Safon Uwch ac UG. Mae perfformiad gwael bechgyn ar lefel UG yn destun pryder. Ar lefel UG, llwyddodd bron i 92% o'r holl gofrestriadau pwnc gan ferched yn 2018 i gyflawni graddau A-E, tra bod y ffigur cyfatebol ar gyfer bechgyn tua 88%. Ym mhob un o'r pum mlynedd ddiwethaf, mae yna tua 4000 yn fwy o gofrestriadau ar gyfer cyrsiau Safon Uwch gan ferched na bechgyn.

9 Mae gwahaniaethau o ran dull o gasglu, dadansoddi a chyhoeddi data ôl-16 mewn ysgolion a cholegau wedi golygu na fu'n bosibl gwneud cymariaethau syml ar draws y sectorau hyn neu rhwng darparwyr, er eu bod yn cyflwyno'r un cymwysterau Safon Uwch. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw ddata 'gwerth ychwanegol' cenedlaethol cyhoeddedig sy'n dangos pa mor dda y mae dysgwyr yn gwneud cynnydd o'u mannau cychwyn. Mae cyfres newydd o 'fesurau cyson' ôl-16 mewn datblygu yn bwriadu mynd i'r afael â'r anawsterau hyn. Fodd bynnag, nid yw ysgolion a cholegau yn ddigon ymwybodol o'r mesurau newydd eto, ac nid ydynt yn eu defnyddio i arfarnu eu darpariaeth ddigon.

10 Mae llawer o ddysgwyr Safon Uwch yn llwyddo i fynd ymlaen i brifysgol. Mae ychydig ohonynt yn sicrhau lleoedd mewn prifysgolion hynod gystadleuol fel Rhydychen neu Gaergrawnt, ac mae lleiafrif ohonynt yn cael lleoedd ym mhrifysgolion Grŵp Russell. Fodd bynnag, mae'r arfer o gasglu data am gyrchfannau dysgwyr Safon Uwch yn anghyson ac nid yw'n rhoi darlun clir.

## Darpariaeth

11 Mae brwdfrydedd dros y pwnc, gwybodaeth bynciol gadarn, a dealltwriaeth drylwyr o ofynion arholi yn nodweddion addysgu Safon Uwch effeithiol. Mae athrawon Safon Uwch llwyddiannus yn hwyluso dysgu annibynnol yn arbennig o dda hefyd.

12 Mae llawer o athrawon yn annog darllen ehangach am bynciau neu destunau penodol ond nid cymaint am y pwnc yn gyffredinol. Mewn llawer o achosion, ac yn aml o ganlyniad i gyfyngiadau o ran amser, mae'r holl ddysgu yn gysylltiedig ag arholiadau. I'r gwrthwyneb, mae ychydig o athrawon yn mynd yn rhy bell y tu hwnt i'r maes llafur ac nid ydynt yn canolbwyntio'n ddigonol ar ofynion yr arholiadau. Mae diffyg ystyriaeth gyffredinol ac amrywiol o'r pwnc sy'n aml yn ofynnol gan brifysgolion.

13 Dros y blynyddoedd diwethaf, diwygiwyd cyrsiau Safon Uwch yng Nghymru yn sylweddol. Bu hwn yn gyfnod o newid mawr yng nghyfnodau allweddol 3 a 4 hefyd,

gan gynnwys newidiadau i gyrsiau TGAU. Mae cyflymdra a graddau'r newid yn golygu bod pryder na chaiff diwygio'r cwricwlwm a chynllunio ar gyfer dilyniant o gyfnod allweddol 3 ac ar draws cyrsiau TGAU a Safon Uwch ei gynllunio mewn modd cydlynol bob amser i roi gwybodaeth eang a manwl i ddysgwyr, sy'n ofynnol ar gyfer astudio Safon Uwch.

14 Mae gwahaniaethau sylweddol ledled y wlad o ran y dewis o bynciau Safon Uwch sydd ar gael i ddysgwyr. Mae ystod y pynciau a gynigir mewn Safon Uwch yn amrywio yn ôl lleoliad daearyddol, arbenigedd staff, cyfrwng iaith, maint y darparwr, p'un a oes partneriaethau â chanolfannau eraill ai peidio, a rhwng ysgolion a cholegau. Mae'r rhan fwyaf o ganolfannau yn cynnig cymwysterau galwedigaethol yn ogystal â chyrsiau Safon Uwch, er bod y dewis o gymwysterau galwedigaethol yn fwy cyfyngedig na'r dewis o gyrsiau Safon Uwch yn y rhan fwyaf o ysgolion.

15 Er ei bod yn ymddangos bod y rhan fwyaf o ddysgwyr yn cael cynnig 'dewis rhydd' o ran pynciau Safon Uwch, caiff eu dewisiadau eu cyfyngu gan nifer o ffactorau. Yn aml, mae'r rhain yn cynnwys canolfannau yn gosod isafswm graddau yn briodol ar gyfer astudio neu ofyn i ddysgwyr astudio mwy o bynciau nag y maent yn ei ddymuno.

16 Er bod llawer o ddysgwyr a'u rhieni yn hapus ag ansawdd y cyngor a'r arweiniad y maent wedi'i dderbyn, nid oes gwybodaeth glir ar gael iddynt mewn gwirionedd ynglŷn â pha rai yw'r darparwyr Safon Uwch gorau yn eu hardal.

17 Mae cyngor ac arweiniad i ychydig o ddysgwyr, yn bennaf y rheiny â chyrhaeddiad isel mewn TGAU, yn anaddas. Mae'r dysgwyr hyn yn fwy tebygol o beidio â chwblhau Blwyddyn 12 neu beidio â mynd ymlaen i Flwyddyn 13 na dysgwyr eraill. Yn gyffredinol, mae cyngor ac arweiniad yn canolbwyntio gormod ar lwybrau academaidd fel cyrsiau Safon Uwch a phrifysgol, ar draul llwybrau gyrfa eraill. Mewn ysgolion sydd â dosbarthiadau chwech, mae cyngor ac arweiniad yn aml yn canolbwyntio ar gadw dysgwyr yn eu chweched dosbarth.

18 Mae llawer o arweinwyr ac athrawon wedi mynegi pryderon ynglŷn â'r ffaith fod cyrsiau a deunyddiau ar gael yn hwyr i gefnogi eu haddysgu, fel manylebau arholiadau a phapurau enghreifftiol.

## Arweinyddiaeth

19 Mae cyfyngiadau data presennol Safon Uwch (fel yr amlinellir yn Atodiad 1) wedi golygu y bu'n anodd i ysgolion a cholegau wybod pa mor dda y maent yn perfformio, i ddysgwyr a'u rhieni gymharu darparwyr, ac i ddwyn canolfannau i gyfrif am eu deilliannau Safon Uwch. O ganlyniad, bu prif ffocws y system atebolrwydd ar gyfer ysgolion uwchradd ar ddeilliannau cyfnod allweddol 4, a than yn ddiweddar, ffocws cymharol fach fu ar ddeilliannau ôl-16. Mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod nad yw'r dangosyddion perfformiad presennol yn y sector ôl-16, mewn ysgolion a cholegau, yn addas at eu diben, ac nid ydynt yn rhoi darlun clir o berfformiad. Mae'r set newydd o 'fesurau cyson', a gynlluniwyd i fynd i'r afael â diffygion, yn eu camau datblygu terfynol.

20 Mewn mwyafrif o ysgolion, nid yw prosesau hunanarfarnu a chynllunio gwelliant yn canolbwyntio'n ddigonol ar ddarpariaeth ac arweinyddiaeth nac ar yr effaith ar ganlyniadau. Mewn llawer o golegau, mae prosesau hunanasesu a chynllunio

gwelliant yn canolbwyntio’n ormodol ar gyfraddau llwyddiant ac nid ar y graddau a gyflawnir gan ddysgwyr.

21 Nid yw ysgolion a cholegau’n cydweithio ddigon o ran rhannu arfer dda a gwella arbenigedd pwnc athrawon. Mae diffyg cyfleoedd dysgu proffesiynol ar gyfer addysgu Safon Uwch ac arbenigeddau pwnc.

22 Mae cyllid Safon Uwch yn gyrru rhai ymddygiadau mewn ysgolion a cholegau sydd â chanlyniadau anfwriadol negyddol. Er enghraifft, pan neilltuir cyllid fesul cwrs Safon Uwch, gallai canolfannau annog dysgwyr i astudio mwy o gyrsiau Safon Uwch neu lacio gofynion mynediad ar gyfer dysgwyr â chyrhaeddiad isel mewn TGAU, er efallai nad dyma’r opsiwn mwyaf addas ar gyfer y dysgwyr hyn. Mae hyn yn cyfrannu at gyrhaeddiad gwannach a chyfradd uwch o ran rhoi’r gorau i gyrsiau.

## Argymhellion

**Dylai ysgolion a cholegau:**

A1 Wella deilliannau Safon Uwch, yn enwedig ar lefel UG, ac yn enwedig deilliannau bechgyn

A2 Gwella'r cyngor a'r arweiniad a roddir i ddysgwyr trwy:
- a. ystyried lefelau cyrhaeddiad addysgol dysgwyr mewn TGAU yn ofalus wrth roi cyngor ac arweiniad
- b. rhoi gwybodaeth gywir a chyfoes i ddysgwyr am ystod lawn y cyfleoedd chweched dosbarth, addysg bellach a phrentisiaeth sy'n agored iddynt
- c. rhoi cyngor ar y cyfuniadau gorau o bynciau iddynt
- ch. datblygu polisi clir ar ddilyniant o UG i Safon Uwch
- d. ystyried yn ofalus nifer y cymwysterau a ddilynir gan bob dysgwr, gan ystyried llwybr dilyniant tebygol pob dysgwr

A3 Gwella medrau dysgu annibynnol dysgwyr cyn-16 er mwyn eu paratoi ar gyfer astudiaethau Safon Uwch

A4 Gweithio gyda'i gilydd i wella cyfleoedd dysgu proffesiynol sy'n gysylltiedig ag addysgu Safon Uwch

A5 Rhoi sylw priodol i ddeilliannau a darpariaeth mewn Safon Uwch ac UG mewn prosesau hunanarfarnu a chynllunio gwelliant

**Dylai awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol:**

A6 Hwyluso rhwydweithiau dysgu proffesiynol sy'n gysylltiedig â Safon Uwch ar draws ysgolion a cholegau

A7 Helpu ysgolion i arfarnu effeithiolrwydd eu darpariaeth Safon Uwch

**Dylai Llywodraeth Cymru:**

A8 Fonitro llwyddiant y setiau data mesurau cyson newydd ar draws ysgolion a cholegau

A9 Sicrhau bod newidiadau i'r cwricwlwm a chymwysterau yn rhoi parhad a dilyniant

A10 Adolygu'r fformiwla cyllid ar gyfer cyrsiau Safon Uwch mewn ysgolion a cholegau, a'i gymhwyso ar draws awdurdodau, gyda'r nod i ddileu canlyniadau anfwriadol, fel annog dysgwyr nad ydynt yn addas ar gyfer astudio cyrsiau Safon Uwch i wneud hynny

A11 Datblygu ffordd o gyfleu i ddysgwyr a'u rhieni wybodaeth glir am gyrhaeddiad a darpariaeth Safon Uwch mewn canolfannau unigol

# Safonau

## Safonau a chynnydd dysgwyr

23 Mae llawer o ddysgwyr Safon Uwch yn gwneud cynnydd cryf o ran eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth. Mae'r dysgwyr hyn yn galw dysgu blaenorol i gof yn gadarn ac yn cymhwyso eu gwybodaeth a'u medrau blaenorol i sefyllfaoedd newydd. Mae llawer ohonynt yn cymhwyso eu dysgu'n eang ar draws holl feysydd y pynciau y maent yn eu hastudio ac nid ydynt yn dysgu 'mewn unedau'. Maent yn adeiladu ar eu dysgu yn gyson trwy gydol y flwyddyn. Mae ychydig o ddysgwyr yn gwneud cynnydd annigonol. Mewn rhai achosion, ac yn enwedig ar gyfer dysgwyr y mae lefelau eu cyflawniad academaidd mewn TGAU yn gymedrol, mae hyn am nad oes ganddynt y ddealltwriaeth fanwl na lefel y medr sy'n angenrheidiol i astudio ar lefel uwch. Mewn achosion eraill, nid oes gan ddysgwyr y dyfalbarhad a'r cymhelliant i wneud yn dda ac nid oes ganddynt ddigon o ddiddordeb yn eu hastudiaethau.

24 Mae mwyafrif o ddysgwyr Safon Uwch yn teimlo nad oedd ganddynt fedrau cryf o ran dysgu'n annibynnol pan ddechreuon nhw ar eu hastudiaethau Safon Uwch. Er gwaethaf hyn, mae llawer o ddysgwyr yn gwneud cynnydd cyflym o ran datblygu'r medrau hyn yn ystod eu cyfnod yn astudio cyrsiau Safon Uwch. Mae'r dysgwyr hyn yn rheoli eu hamser yn effeithlon ac yn dyfalbarhau pan fyddant yn wynebu problemau anodd. Maent yn creu nodiadau trefnus a chynhwysfawr sy'n cefnogi eu hastudiaethau yn effeithiol. Mae lleiafrif ohonynt yn dibynnu'n ormodol ar gopïo nodiadau o werslyfrau ac maent yn rhy ddibynnol ar eu hathrawon am gymorth. Nid yw'r dysgwyr hyn yn meddu ar y gwydnwch na'r blaengaredd sydd eu hangen i ddatrys problemau yn annibynnol.

25 Mae gan lawer o ddysgwyr fedrau datrys problemau cadarn y maent yn eu cymhwyso'n hyderus i dasgau fel dadansoddi barddoniaeth neu arbrofion cemeg, ac mae ymagwedd ychydig ohonynt at dasgau yn greadigol a gwreiddiol. Mae mwyafrif ohonynt yn gwneud cysylltiadau craff rhwng gwahanol destunau, a gwnânt ddefnydd effeithiol o'u gwybodaeth gyffredinol i ddyfnhau eu dealltwriaeth o gynnwys pwnc. Yn aml, mae'r dysgwyr hyn yn gwneud cysylltiadau craff rhwng y gwahanol bynciau y maent yn eu hastudio, fel y cysylltiadau rhwng mudiadau celfyddydol, digwyddiadau hanesyddol a llenyddiaeth. Nid yw ychydig o ddysgwyr yn ddigon rhagweithiol, ac maent yn dibynnu'n ormodol ar gymorth gan bobl eraill.

26 Mae gan lawer o ddysgwyr fedrau llythrennedd a rhifedd cadarn. Fodd bynnag, mae eu defnydd o dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh), sy'n bwysig y tu hwnt i'r ysgol neu'r coleg, yn aml wedi'i gyfyngu i brosesu geiriau sylfaenol neu baratoi cyflwyniadau syml.

27 Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gwrando'n ofalus ar eu hathrawon a'u cyfoedion, ac mae llawer ohonynt yn ystyriol yn eu hatebion i safbwyntiau pobl eraill. Mae mwyafrif o ddysgwyr yn gofyn cwestiynau deallus sy'n adlewyrchu eu synnwyr o chwilfrydedd a'u diddordeb yn y pynciau y maent yn eu hastudio. Mae'r dysgwyr hyn yn herio'r wybodaeth y maent yn ei derbyn yn hyderus ac yn cynnig dehongliadau amgen sy'n dangos eu gallu i ymdrin â dysgu o onglau gwahanol. Mae ychydig o ddysgwyr yn

rhy oddefgar ac yn tueddu i dderbyn gwybodaeth heb ystyriaeth briodol neu'n dibynnu'n ormodol ar ddehongliadau pobl eraill.

28 Mae llawer o ddysgwyr yn siarad yn hyderus ac yn gwneud pwyntiau craff, ystyriol mewn trafodaethau dosbarth. Maent yn cymryd rhan yn aeddfed mewn dadleuon a thrafodaethau ac yn dod i gasgliadau rhesymedig. Mae lleiafrif ohonynt yn huawdl iawn ac yn mynegi safbwyntiau soffistigedig yn seiliedig ar ystyriaeth gytbwys o dystiolaeth. Mae'r dysgwyr hyn yn datblygu medrau dadlau a thrafod gwerthfawr a fydd yn fuddiol iddynt yn y dyfodol.

29 Mae gan lawer ohonynt ystod o fedrau darllen a defnyddiant y rhain yn fedrus i fodloni gofynion gwahanol dasgau. Er enghraifft, maent yn brasddarllen a bwrw golwg yn effeithlon pan roddir deunydd darllen rhagarweiniol iddynt, ac wedyn yn dadansoddi ffynonellau hanesyddol neu wybodaeth ystadegol yn fedrus. Mae llawer ohonynt yn ysgrifennu'n rhugl ac yn gywir ac yn meddu ar eirfa eang, gyffredinol, ac sy'n benodol i bwnc, y maent yn ei defnyddio'n hyderus. Fodd bynnag, mae llawer o ddysgwyr yn teimlo na wnaeth eu cyrsiau TGAU eu paratoi'n ddigon da ar gyfer gofynion ysgrifennu traethawd mewn Safon Uwch ar y cyfan, gan mai ychydig iawn o'u pynciau TGAU oedd yn gofyn iddynt ysgrifennu'n estynedig ac yn y fformat hwn.

### Lles ac agweddau at ddysgu

30 Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn mwynhau eu hastudiaethau ac yn gwerthfawrogi gallu canolbwyntio'n fanwl ar ychydig o bynciau sydd o ddiddordeb iddynt. Mae llawer ohonynt yn ymholgar ac yn llawn cymhelliant, a dangosant ddiddordeb brwd yn eu dysgu. Mae llawer ohonynt yn uchelgeisiol ynglŷn â chyflawniad mewn Safon Uwch a'u dyfodol, ac mae eu presenoldeb yn dda. Mae llawer o ddysgwyr yn mwynhau'r her a'r symbyliad deallusol a ddarperir gan astudiaethau Safon Uwch. Maent yn teimlo synnwyr nodedig o falchder a chyflawniad o orfod gweithio'n fwy annibynnol nag y gwnaethant wrth astudio TGAU a bod yn gyfrifol am eu cynnydd eu hunain.

31 Mae llawer o ddysgwyr yn teimlo bod y dysgu mewn Safon Uwch yn fwy dwys a heriol nag ydoedd mewn TGAU a bod rhaid iddynt wneud mwy drostynt eu hunain. Er enghraifft, mae'n ofynnol iddynt wneud mwy o ymchwil gefndirol neu ddarllen nodiadau cyn gwersi. Mae'r dysgwyr hyn yn wydn ac mae ganddynt foeseg waith ddatblygedig. Mae llawer ohonynt yn trefnu eu gwaith a'u hamser yn effeithlon, er bod rhai ohonynt, yn enwedig bechgyn, yn meddu ar fedrau trefnu gwan ac maent yn ei chael yn anodd dal i fyny â gofynion eu hastudiaethau.

32 Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr Safon Uwch yn teimlo eu bod dan straen sylweddol. Caiff y straen hwn ei ysgogi gan nifer o ffactorau, sef:

- Yr ymdeimlad fod cyrsiau Safon Uwch yn gymwysterau 'tariff uchel' sydd â goblygiadau difrifol i weddill eu bywydau, ac mewn llawer o ffyrdd, yn pennu eu dyfodol
- Gofynion astudio tri neu bedwar pwnc yn ogystal â chymhwyster ychwanegol fel Bagloriaeth Cymru, a'r her i fodloni llawer o derfynau amser a pheidio â chael llawer o gyfnodau astudio
- Cyfrifoldebau ychwanegol y tu allan i'r ysgol neu'r coleg, fel swydd ran-amser neu gyfrifoldebau gofalu am frodyr neu chwiorydd neu aelodau eraill o'r teulu

33 Mae llawer o ddysgwyr Safon Uwch presennol yn teimlo'n rhwystredig eu bod wedi wynebu sawl newid sylweddol i'r system addysg trwy gydol eu gyrfa ysgol. Maent yn teimlo mai nhw fu'r cyntaf i brofi datblygiadau fel y profion darllen a rhifedd, manylebau newydd mewn TGAU ac erbyn hyn, y cyrsiau UG a Safon Uwch diwygiedig.


34 Mae ychydig o ddysgwyr yn colli cymhelliant yn ystod eu hastudiaethau Safon Uwch. Mewn llawer o achosion, mae hyn am nad oeddent yn addas ar gyfer astudio cyrsiau Safon Uwch yn y lle cyntaf. Gallai hyn fod o ganlyniad i gyflawni graddau cymharol gymedrol mewn TGAU, gan fod eu dewis o bynciau yn anaddas neu oherwydd bod diffyg darpariaeth amgen. Fodd bynnag, dywed llawer o ysgolion a cholegau nad yw mynychter cynyddol cynigion isel iawn neu ddiamod gan brifysgolion yn helpu cymell dysgwyr ac nid yw'n eu hannog i gynnal eu hymrwymiad i ennill y graddau gorau posibl ar ddiwedd eu cwrs.

## Perfformiad mewn Safon Uwch

35 Rhwng 2014 a 2016, ni fu cynnydd yng nghyfran y cyrsiau Safon Uwch y dyfarnwyd graddau A*-A, A*-C ac A*-E iddynt yng Nghymru. Canran y cofrestriadau a gyflawnodd raddau A*-E oedd 97.5% yn 2014, ac roedd yn 97.3% am y ddwy flynedd ganlynol. Yn 2017, canlyniadau Safon Uwch yng Nghymru oedd y cryfaf am sawl blwyddyn ond bu gostyngiad yn nifer y cofrestriadau (CGC, 2015 a 2017b). Mae hyn yn bennaf o ganlyniad i'r gostyngiad ym maint y grwpiau poblogaeth 18 neu 17 oed. Gellir ei briodoli hefyd i ostyngiad yn nifer gyfartalog y cymwysterau Safon Uwch ac UG a ddilynir gan ddysgwyr, gyda llawer ohonynt yn dilyn llai o gyrsiau Safon Uwch ac UG, yn rhannol oherwydd eu bod yn astudio Bagloriaeth Cymru (Cymwysterau Cymru, 2018).

36 Yn 2017, cynyddodd canran y graddau A* a ddyfernir mewn Safon Uwch o 6.6% yn 2016 i 8.3%, a chynyddodd canran y graddau A*-A hefyd o 22.7% i 25.0%. Cynyddodd y ffigur A*-E o 97.3% yn 2016 i 97.7%. Yn 2018, cynyddodd canran y graddau A* ac A*-A i 26.3% a gostyngodd canran y graddau A*-E ychydig, ond mae'n parhau'n sefydlog. Fodd bynnag, mae nifer y cofrestriadau ar gyfer cyrsiau UG a Safon Uwch wedi parhau i ostwng. (CGC, 2018b).

**Ffigur 1: Deilliannau Safon Uwch ac UG, 2014-2018**




Ffynhonnell: CGC, 2015, 2017, 2018

37 Blwyddyn gyntaf y cyrsiau Safon Uwch diwygiedig yng Nghymru oedd 2017, gydag UG yn cyfrannu 40% at y Safon Uwch yng Nghymru a Gogledd Iwerddon ond ddim yn cyfrannu o gwbl yn Lloegr. Yng Nghymru, gall dysgwyr ailsefyll modiwlau unwaith hefyd, ond nid felly yn Lloegr. Roedd canlyniadau Safon Uwch yng Nghymru yn 2017 yn agosach at ffigurau cenedlaethol y DU na'r rheiny mewn blynyddoedd blaenorol. Mae canlyniadau 2018 yn cyd-fynd â ffigurau'r DU hefyd, ac mae Cymru'n cyflawni'r canlyniadau gorau ar gyfer A*, 0.7 pwynt canran yn uwch na chyfartaledd y DU (CGC, 2018). Tan 2017, Cymru oedd yr ardal â'r perfformiad gwaethaf yn y DU o ran deilliannau Safon Uwch ond, o ganlyniad i'r gwahaniaethau rhwng yr ardaloedd, mae'n anos cymharu.

38 Fel y dangosir yn ffigur 1, mae gwahaniaethau rhwng cyrhaeddiad ar lefel UG a chyrhaeddiad mewn Safon Uwch, ac mae cyrhaeddiad mewn Safon Uwch gryn dipyn yn gryfach. Dros y pum mlynedd ddiwethaf, mae canran y graddau A* ac A a ddyfarnwyd mewn Safon Uwch yn amrywio rhwng 22.7% a 26.3% ond mae'r ganran sy'n cyflawni graddau A ar lefel UG yn amrywio rhwng 15.9% a 20.4%, er bod y ffigur hwn wedi gwella flwyddyn ar ôl blwyddyn (ffigur 1). Yn 2018, mae 5.9% pwynt o wahaniaeth rhwng y ganran sy'n cyflawni graddau A mewn UG a'r rheiny sy'n cyflawni graddau A*/A mewn Safon Uwch. Mae'r ffigur hwn wedi aros yn debyg dros y pum mlynedd ddiwethaf ar y cyfan.

39 Mae patrwm tebyg wrth gymharu A*-E mewn Safon Uwch ac A-E ar lefel UG. Dros y pum mlynedd ddiwethaf, mae llai na 3% o gofrestriadau Safon Uwch wedi cyflawni gradd ddi-ddosbarth (U), tra bod y ffigur cyfatebol ar gyfer lefel UG tua 12%. Yn 2018, cyflawnodd 97.4% o ddysgwyr raddau A*-E mewn Safon Uwch, ond 90.0% o ddysgwyr yn unig a gyflawnodd raddau A-E ar lefel UG. Mae'r gwahaniaeth hwn wedi amrywio rhwng 7.4 pwynt canran ac 8.8 pwynt canran dros y pum mlynedd ddiwethaf.

40 Mae llawer mwy o amrywiad mewn cyflawniad ym Mlwyddyn 12, sef y flwyddyn UG, nag ym Mlwyddyn 13. Mae mwy o gofrestriadau ar gyfer cyrsiau UG na Safon Uwch. Mae llawer o ddysgwyr yn rhoi'r gorau i ddilyn o leiaf un pwnc UG, ac mae tua 20% o ddysgwyr yn parhau i roi'r gorau i'w cwrs ym Mlwyddyn 12 bob blwyddyn neu nid ydynt yn symud ymlaen o Flwyddyn 12 i Flwyddyn 13 (Llywodraeth Cymru, 2017c). Ym Mlwyddyn 12, mae lleiafrif o ddysgwyr yn astudio cyrsiau amhriodol neu'n ymestyn eu hunain yn rhy bell â'u hamrywiaeth o bynciau, ac felly, nid ydynt yn cyflawni'n uchel ar lefel UG. Mae dysgwyr sy'n parhau i Flwyddyn 13 ar gyfer y flwyddyn Safon Uwch yn fwy llwyddiannus ar y cyfan gan eu bod yn astudio llai o bynciau ac maent yn fwy addas yn academaidd ac ymroi i'w hastudiaethau. Yn ychwanegol, mae gan ysgolion, colegau ac awdurdodau lleol bolisïau gwahanol ar elwa ar ganlyniadau UG. Mae'r broses o elwa ar UG yn cynnwys derbyn canlyniad arholiad, sydd wedyn yn cynhyrchu gradd. Os na fyddant yn elwa ar y canlyniad UG, bydd y canlyniadau'n aros a gellir elwa arnynt yn ddiweddarach. Hefyd, gellir gwrthod canlyniadau os bydd ymgeisydd yn cyflawni canlyniad gwell wrth ailsefyll neu'n penderfynu nad yw eisiau parhau â'r pwnc neu gael gradd wedi'i dyfarnu yn y pwnc hwnnw. Hefyd, ni fyddant yn elwa ar y canlyniadau UG os nad yw ymgeiswyr yn dymuno datgan y canlyniadau hyn ar eu ffurflenni cais i brifysgolion. Mae'r ffaith nad yw rhai canolfannau'n elwa ar ganlyniadau UG yn golygu nad yw'r set ddata ar gyfer canlyniadau UG yn gynhwysfawr ac nid yw'n adlewyrchu cyrhaeddiad pob un o'r rheiny a safodd arholiadau UG.

41 Mae gwahaniaeth nodedig rhwng nifer y graddau di-ddosbarth (U) a ddyfernir ar lefel UG a Safon Uwch. Mewn ysgolion, canran gyffredinol graddau U mewn Safon Uwch dros y pedair blynedd ddiwethaf yw 1%, tra bod hyn yn 17% mewn UG (Cronfa Ddata Arholiadau Cymru, 2017[1]). Mae patrwm tebyg mewn colegau, gyda chanran gyffredinol o 2% o raddau U mewn Safon Uwch ac 13% mewn UG. (Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru, 2017[2]).

42 Yn ystod y pedair blynedd hyd at 2017, mae canran y graddau U a ddyfarnwyd ar gyfer lefelau cyrsiau UG sy'n cael eu dilyn mewn ysgolion (mewn pynciau gyda thros 1,000 o gofrestriadau), wedi bod yn uwch na 20% yn y pynciau canlynol:

- Technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh)
- Astudiaethau cymdeithasol (gan gynnwys seicoleg, cymdeithaseg a'r gyfraith)
- Ffiseg
- Mathemateg
- Gwyddorau biolegol
- Crefft, dylunio a thechnoleg
- Cemeg
- Economeg
- Astudiaethau busnes

43 Fodd bynnag, ar gyfer cyrsiau Safon Uwch sy'n cael eu dilyn mewn ysgolion, nid oes gan yr un pwnc fwy na 4% o raddau U, ac mae gan bron bob un ohonynt rhwng 0 a 2%. Mewn ysgolion, yn y rhan fwyaf o'r pynciau a restrir uchod, mae nifer y cofrestriadau bron yn haneru rhwng UG a Safon Uwch. (Cronfa Ddata Arholiadau Cymru, 2017[3]).

44 Ar gyfer cyrsiau UG yn cael eu dilyn mewn colegau (mewn pynciau gyda thros 300 o gofrestriadau), bu canran uchaf y graddau U dros y pedair blynedd hyd at 2017 mewn:

- Addysg gorfforol
- Mathemateg
- Cyfrifiadura
- Cyfrifeg
- TGCh
- Y Gyfraith
- Seicoleg
- Ffiseg
- Daeareg

45 Ar gyfer cyrsiau Safon Uwch yn cael eu dilyn mewn colegau (mewn pynciau sydd â thros 300 o gofrestriadau dros bedair blynedd), mae canran uchaf y graddau U mewn TGCh (7%) ac addysg gorfforol (5%) ac mae tua dau o bob tri o bynciau wedi bod rhwng 0% a 2% o raddau U. (Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru, 2017[4]).

[1] Data heb ei gyhoeddi a gasglwyd gan Lywodraeth Cymru, cyfrifiadau a gwblhawyd gan Estyn
[2] ibid
[3] ibid
[4] ibid

46 Gellir esbonio'r anghysondeb rhwng nifer y graddau U ar lefel UG ac mewn Safon Uwch yn rhannol gan y ffaith fod llawer o ddysgwyr yn astudio pedwar pwnc UG, gyda'r bwriad o leihau i dri chwrs Safon Uwch. Felly, ychydig iawn o sylw y maent yn ei roi i un o'u pynciau neu gallent weld un o'u pynciau'n anos. Yn ychwanegol, nid yw astudio ar lefel uwch yn gweddu'n addas i nifer nodedig o ddysgwyr, yn enwedig mewn pynciau sy'n seiliedig ar wyddoniaeth neu fathemateg. O ganlyniad i'r ffactorau hyn, bu gostyngiad nodedig yn nifer y cofrestriadau rhwng UG a Safon Uwch, yn enwedig mewn pynciau sydd â chanran uchel o raddau U ar lefel UG. Mae'r gostyngiadau mwyaf yn nifer y cofrestriadau rhwng UG a Safon Uwch mewn astudiaethau busnes, cemeg, ffiseg, economeg, gwyddorau biolegol, Ffrangeg a TGCh (Cronfa Ddata Arholiadau Cymru, 2017[5]).

47 Yn y pedair blynedd hyd at 2017 mewn ysgolion a cholegau, dyfarnwyd y ganran uchaf o raddau 'uchel' (A*/A-C) yn y pynciau canlynol:

**Ffigur 2: Pynciau â'r canrannau uchaf o raddau A*/A-C mewn Safon Uwch ac UG mewn ysgolion a cholegau (2014-2017)**

| **Cyrsiau Safon Uwch a ddilynwyd mewn ysgolion (pynciau gyda mwy na 1,000 o gofrestriadau dros bedair blynedd)** | | **Cyrsiau lefel UG a ddilynwyd mewn ysgolion (pynciau gyda mwy na 1,000 o gofrestriadau dros bedair blynedd)** | |
|---|---|---|---|
| **Canran uchaf o raddau A*-A:** | **Canran uchaf o raddau A*-C:** | **Canran uchaf o raddau A:** | **Canran uchaf o raddau A-C:** |
| • Mathemateg<br>• Cemeg<br>• Ffrangeg<br>• Celf<br>• Ffiseg | • Hanes<br>• Mathemateg<br>• Drama<br>• Astudiaethau crefyddol<br>• Celf<br>• Astudiaethau ffilm | • Cymraeg<br>• Mathemateg<br>• Celf<br>• Ffrangeg<br>• Daearyddiaeth | • Cymraeg<br>• Drama<br>• Hanes<br>• Celf<br>• Cymraeg ail iaith |
| **Cyrsiau Safon Uwch mewn colegau (pynciau gyda mwy na 300 o gofrestriadau dros bedair blynedd)** | | **Cyrsiau UG mewn colegau (pynciau gyda mwy na 300 o gofrestriadau dros bedair blynedd)** | |
| **Canran uchaf o raddau A*-A:** | **Canran uchaf o raddau A*-C:** | **Canran uchaf o raddau A:** | **Canran uchaf o raddau A-C:** |
| • Mathemateg bellach<br>• Mathemateg<br>• Cemeg<br>• Economeg<br>• Y Gyfraith | • Drama<br>• Astudiaethau crefyddol<br>• Hanes<br>• Y Gyfraith | • Mathemateg bellach<br>• Electroneg<br>• Mathemateg<br>• Datblygiad y Byd<br>• Ffrangeg | • Drama<br>• Astudiaethau ffilm<br>• Celf a dylunio<br>• Cymraeg ail iaith<br>• Mathemateg bellach |

[5] ibid

Ffynhonnell: Cronfa Ddata Arholiadau Cymru, 2017[6] a Chofnod Dysgu Gydol Oes Cymru, 2017[7]

48 Mae llawer o'r pynciau sydd â chanran uchel o raddau A-C ar lefel UG yn adlewyrchu'r rheiny mewn Safon Uwch. Fodd bynnag, mae yna eithriadau nodedig. Dyfernir canran uchel o raddau A*-C ac A*-A mewn mathemateg mewn Safon Uwch, ond mae tua 13% o'r graddau a ddyfernir ar lefel UG yn raddau U. Gwelir polareiddiad tebyg mewn cemeg a ffiseg, gyda chanran uwch o raddau A*/A yn cael eu dyfarnu mewn Safon Uwch ond dros 10% o'r graddau UG yn raddau U. Mae nifer y cofrestriadau rhwng Safon Uwch ac UG yn gostwng tua thraean mewn cemeg a thua phumed rhan mewn mathemateg. (CGC, 2018b). Mae hyn yn awgrymu nad yw nifer o ymgeiswyr UG yn addas i astudio'r pynciau hyn o ganlyniad i ddiffyg gallu academaidd, diffyg ymroddiad neu astudio gormod o bynciau, ond bod llawer o'r rheiny sy'n parhau i astudio Safon Uwch yn ymroddgar ac abl iawn, ac yn cyflawni'n dda o ganlyniad.

### Deilliannau ar gyfer grwpiau o ddysgwyr

49 Yng Nghymru, mae merched yn perfformio'n well na bechgyn mewn Safon Uwch ac UG. Perfformiodd bechgyn yng Nghymru yn well na merched ar raddau A*- A mewn Safon Uwch yn 2018 a 2017, ond nid felly yr oedd ar radd A ar lefel UG. Fodd bynnag, mae merched yn perfformio'n well na bechgyn ar raddau eraill ac ar y mesur A*-E cyffredinol. Mae perfformiad bechgyn ar lefel UG yn destun pryder penodol. Ar lefel UG, llwyddodd bron i 92% o'r holl gofrestriadau pwnc gan ferched i gyflawni graddau A-E, ond y ffigur cyfatebol ar gyfer bechgyn yw tua 88%. Mewn Safon Uwch, llwyddodd 98% o gofrestriadau gan ferched i gyflawni graddau A*-E o gymharu â bron i 97% o gofrestriadau gan fechgyn. Roedd y bwlch ehangaf rhwng perfformiad merched a bechgyn ar radd B, gyda merched 4.2 pwynt canran o flaen bechgyn mewn Safon Uwch a bron bedwar pwynt canran o flaen ar lefel UG. (CGC, 2018b).

50 Mae patrwm amlwg o bynciau sy'n cael eu hastudio'n bennaf gan ferched a bechgyn mewn Safon Uwch, fel y gwelir yn ffigur 3. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd cymharu perfformiad bechgyn a merched ar draws ac o fewn pynciau. Er enghraifft, yn 2018, roedd 78% o'r cofrestriadau ar gyfer ffiseg gan fechgyn. Perfformiodd merched yn well na bechgyn ar raddau A*-C ac A*-A, ond cafwyd llai o gofrestriadau o lawer gan ferched. Mewn pynciau sy'n denu bechgyn a merched mewn niferoedd eithaf cyfartal, fel daearyddiaeth a hanes, mae merched yn perfformio'n well na bechgyn ar y cyfan. Caiff dadansoddiad ystyrlon ei gymhlethu ymhellach gan y ffaith fod mwy o gofrestriadau Safon Uwch gan ferched na bechgyn bob blwyddyn. Yn 2018, roedd 14,284 o gofrestriadau gan fechgyn o gymharu ag 18,161 gan ferched, sy'n adlewyrchu'r patrwm yn 2017 (14,677 o fechgyn o gymharu ag 18, 617 o ferched) (CGC, 2018b) ac mewn blynyddoedd blaenorol.

[6] ibid
[7] ibid

**Ffigur 3: Pynciau Safon Uwch mwyaf poblogaidd yn ôl rhywedd**

| Mae pynciau sy'n cael eu hastudio'n bennaf gan fechgyn yn cynnwys: | Mae pynciau sy'n cael eu hastudio'n bennaf gan ferched yn cynnwys: | Mae pynciau sy'n denu bechgyn a merched mewn niferoedd eithaf cyfartal yn cynnwys: |
|---|---|---|
| • Ffiseg<br>• Economeg<br>• TGCh a Chyfrifiadura<br>• Mathemateg (gan gynnwys mathemateg bellach)<br>• Addysg gorfforol<br>• Dylunio a thechnoleg | • Cymraeg (mamiaith ac ail iaith)<br>• Astudiaethau crefyddol<br>• Saesneg (iaith a llenyddiaeth a'r naill a'r llall wedi'u cyfuno)<br>• Celf a dylunio<br>• Ieithoedd tramor modern<br>• Y Gyfraith<br>• Cymdeithaseg<br>• Seicoleg<br>• Drama | • Daearyddiaeth<br>• Cemeg<br>• Cerddoriaeth<br>• Astudiaethau busnes |

Ffynhonnell: CGC, 2018b

51 Mae anawsterau wrth ddadansoddi perfformiad dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig mewn Safon Uwch gan nad yw statws prydau ysgol am ddim yn berthnasol i ddysgwyr ar ôl addysg orfodol. Cesglir rhywfaint o ddata ar gyfer ysgolion sy'n cynnwys gwybodaeth am gymhwyster dysgwyr am brydau ysgol am ddim pan oeddent ym Mlwyddyn 11, nid eu hamgylchiadau presennol. Nid yw'r wybodaeth hon ar gael i golegau. Ar sail cymhwyster i brydau ysgol am ddim pan oeddent ym Mlwyddyn 11, mae llawer llai o ddysgwyr yn gymwys am brydau ysgol am ddim yn y system ysgol ôl-16 na mewn addysg cyn-16 orfodol. Yn 2017, roedd tua 6% o'r holl ddysgwyr Safon Uwch yn gymwys am brydau ysgol am ddim pan oeddent ym Mlwyddyn 11 yn 2015. Caiff hyn ei gymharu â chyfartaledd prydau ysgol am ddim o ryw 16% pan fyddant mewn addysg 11-16. (Cronfa Ddata Arholiadau Cymru, 2017[8], Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion, 2015[9]). Mae niferoedd bach y dysgwyr dan sylw yn ei gwneud yn anodd llunio datganiadau cyffredinol sy'n ystadegol ddilys. Fodd bynnag, mae ymweliadau ag ysgolion a cholegau, ynghyd ag ymchwil, yn awgrymu nad yw dysgwyr o amgylchiadau sydd dan anfantais yn economaidd yn perfformio cystal mewn Safon Uwch â'u cyfoedion o gefndiroedd mwy breintiedig, (Llywodraeth Cymru, 2017c, tud.41) ac felly y mae hi yng nghyfnod allweddol pedwar hefyd.

## Deilliannau mewn ysgolion a cholegau

52 Mae perthynas glir yn bodoli rhwng cyfraddau llwyddiant mewn Safon Uwch o fewn colegau a ph'un a yw coleg yn cynnig darpariaeth drydyddol ar gyfer nifer o ysgolion bwydo 11-16 mewn rhanbarth, neu a yw'n cystadlu'n uniongyrchol ag un chweched

[8] ibid
[9] ibid

dosbarth ysgol neu fwy. Mae deilliannau, wedi'u mesur yn ôl cyfraddau cwblhau'n llwyddiannus, ar eu cryfaf i golegau sy'n cynnig darpariaeth ôl-16 mewn ardaloedd lle mae'r dosbarthiadau chwech mewn ysgolion yn brin. Pan fydd colegau'n cystadlu'n uniongyrchol am ddysgwyr Safon Uwch gydag ysgolion 11-18, mae cyfraddau cwblhau'n llwyddiannus dysgwyr yn is. Mae hyn yn rhannol am fod y colegau hyn yn aml yn derbyn cyfran uchel o ddysgwyr nad ydynt wedi bodloni'r meini prawf mynediad ar gyfer lleoedd Safon Uwch yn eu hysgolion. Mewn ychydig iawn o golegau, mae'r ddwy sefyllfa'n bodoli, lle mae un campws yn gweithredu fel y darparwr trydyddol ar gyfer yr ardal, a champws arall yn cystadlu am ddysgwyr gyda dosbarthiadau chwech ysgolion.

## Cofrestriadau

53 Dros y blynyddoedd diwethaf, bu gostyngiad cyson yn nifer y cofrestriadau ar gyfer UG a Safon Uwch fel ei gilydd, gyda'r gwahaniaeth yn nifer y cofrestriadau rhwng Safon Uwch ac UG yn lleihau hefyd. Yn 2018, gostyngodd cyfanswm nifer y cofrestriadau ar gyfer arholiadau Safon Uwch 2.6% o gymharu â ffigurau 2017, yn dilyn gostyngiad o 6% y flwyddyn flaenorol (CGC, 2018b).

**Ffigur 4: Nifer y dysgwyr sy'n dilyn 1 cwrs Safon Uwch/UG neu fwy mewn ysgolion neu golegau, 2014-2017**

| | Ysgolion | | Colegau | |
|---|---|---|---|---|
| | Safon Uwch | UG | Safon Uwch | UG |
| **2014** | 10,933 | 16,623 | 3,850 | 6,907 |
| **2015** | 10,997 | 16,039 | 3,733 | 6,003 |
| **2016** | 10,792 | 15,257 | 3,640 | 5702 |
| **2017** | 10,052 | 13,886 | 3,525 | 6064 |

Ffynhonnell: Cronfa Ddata Arholiadau Cymru, 2017[10] a Chofnod Dysgu Gydol Oes Cymru, 2017[11]

54 Mae ffigurau diweddaraf Llywodraeth Cymru ar gyfer cyrchfannau ymadawyr cyfnod allweddol 4 (ymadawyr 2014/15) yn dangos bod tua 50% o ymadawyr wedi symud ymlaen i ddilyn cyrsiau UG/Safon Uwch mewn chweched dosbarth ysgol neu goleg (Llywodraeth Cymru, 2018b).

55 Mae mwy o gofrestriadau ar gyfer cyrsiau UG na Safon Uwch. Yn 2018, roedd dros 10,000 yn fwy o gofrestriadau ar gyfer cyrsiau UG na chyrsiau Safon Uwch a bron i 15,000 yn fwy o gofrestriadau yn 2017. Mae'r gwahaniaeth yn nifer y cofrestriadau wedi lleihau dros gyfnod. (Cymwysterau Cymru, 2018). Esbonnir y gwahaniaeth o ran cofrestriadau yn rhannol gan y ffaith fod llawer o ddysgwyr yn dilyn pedwar cwrs UG ym Mlwyddyn 12 ac yn gostwng i dri chwrs Safon Uwch ym Mlwyddyn 13. Mewn dosbarthiadau chwech, nid yw oddeutu 20% o ddysgwyr yn parhau o Flwyddyn 12 i Flwyddyn 13 (Llywodraeth Cymru, 2017c).

[10] ibid
[11] ibid

56 Mae angen rhai pynciau Safon Uwch yn amlach ar gyfer derbyn i gyrsiau gradd mewn prifysgol na phynciau eraill. Caiff y rhain eu hadnabod yn aml fel ‘pynciau hwyluso’ gan eu bod yn agor ystod eang o opsiynau ar gyfer astudio mewn prifysgol. Y pynciau hyn yw: bioleg; cemeg; llenyddiaeth Saesneg; daearyddiaeth; hanes; mathemateg a mathemateg bellach; ieithoedd modern ac ieithoedd clasurol; ffiseg.

57 Y pynciau hwyluso yw llawer o’r pynciau mwyaf poblogaidd mewn ysgolion a cholegau fel ei gilydd. Mewn ysgolion, dangosir y pynciau Safon Uwch mwyaf poblogaidd dros y pedair blynedd ddiwethaf yn ffigur 5 isod. Mewn colegau, mae’r pynciau mwyaf poblogaidd yn debyg i’r rheiny mewn ysgolion. (Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru, 2017[12]).

**Ffigur 5: Y pynciau Safon Uwch mwyaf poblogaidd mewn ysgolion 2014-2017 (yn nhrefn eu poblogrwydd)**

| Safon Uwch | Lefel UG |
|---|---|
| • Mathemateg<br>• Hanes<br>• Astudiaethau cymdeithasol (gan gynnwys seicoleg, cymdeithaseg a’r gyfraith)<br>• Bioleg<br>• Llenyddiaeth Saesneg<br>• Cemeg<br>• Astudiaethau crefyddol<br>• Celf a dylunio<br>• Daearyddiaeth<br>• Ffiseg | • Astudiaethau cymdeithasol (gan gynnwys seicoleg, cymdeithaseg a’r gyfraith)<br>• Mathemateg<br>• Gwyddorau biolegol<br>• Cemeg<br>• Hanes<br>• Llenyddiaeth Saesneg<br>• Ffiseg<br>• Astudiaethau crefyddol<br>• Celf a dylunio |

Ffynhonnell: Cronfa Ddata Arholiadau Cymru, 2017[13]

58 Yn 2018 a 2017, bu gostyngiad yn nifer y cofrestriadau mewn llawer o bynciau Safon Uwch ac UG. Yn 2018, bu cynnydd mewn nifer fach o bynciau, a bu’r cynnydd mwyaf o ran canran mewn mathemateg bellach ar lefel UG ac ieithoedd modern eraill mewn Safon Uwch (Cymwysterau Cymru, 2018). Dros y pedair blynedd ddiwethaf mewn ysgolion, bu’r gostyngiad mwyaf mewn cofrestriadau Safon Uwch mewn Saesneg iaith, Ffrangeg, gwyddorau biolegol, cerddoriaeth a chemeg, a bu cynnydd mewn astudiaethau busnes. Ar lefel UG, mae’r darlun yn gymharol debyg gyda chynnydd mewn astudiaethau busnes, a bu gostyngiad mewn gwyddorau eraill, Ffrangeg, Saesneg iaith, llenyddiaeth Saesneg ac Almaeneg. Mae’n anodd cwblhau dadansoddiad tebyg ar gyfer colegau gan fod y niferoedd yn llawer llai, sy’n golygu y bydd amrywiadau mwy (Cronfa Ddata Arholiadau Cymru, 2017[14]).

59 Caiff polisïau mynediad ar gyfer astudio cyrsiau Safon Uwch effaith nodedig ar y dangosyddion perfformiad allweddol. Yn gyffredinol, mae canolfannau sy’n gofyn i ddysgwyr gael chwech neu saith gradd A*-C mewn TGAU i astudio cyrsiau Safon Uwch yn perfformio’n well yn y dangosyddion hyn na’r rheiny sy’n gofyn am lai o

[12] ibid
[13] ibid
[14] ibid

raddau A*-C. Fodd bynnag, nid yw'r dangosyddion hyn yn ystyried faint o gynnydd y mae dysgwyr wedi'i wneud o'u mannau cychwyn, dim ond os ydynt yn cyflawni graddau penodol ai peidio.

## Cadw a dilyniant

60 Mewn colegau, yn gyffredinol, mae tua 80% o gofrestriadau lefel UG yn arwain at gwblhau'n llwyddiannus, ond mewn Safon Uwch, mae tua 95% o gofrestriadau'n arwain at gwblhau'n llwyddiannus. (Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru, 2017[15]). Nid oes gwybodaeth gyfatebol ar gael ar gyfer ysgolion yn unig. Fodd bynnag, mae ymweliadau ag ysgolion yn dangos nad yw ychydig o ddysgwyr, tua 20%, yn cwblhau Blwyddyn 12 bob blwyddyn neu nid ydynt yn symud ymlaen o Flwyddyn 12 i Flwyddyn 13. Dywed ysgolion a cholegau mai'r prif reswm am y methiant hwn yw'r ffaith fod gan y dysgwyr lefelau isel o gyrhaeddiad addysgol mewn TGAU, ac felly nid oeddent o reidrwydd yn addas i astudio cyrsiau Safon Uwch. Yn aml, mae'r dysgwyr hyn yn trosglwyddo i gwrs galwedigaethol neu'n mynd i gyflogaeth neu hyfforddiant. Yn 2017, ni chyflawnodd 7% o ddysgwyr Safon Uwch mewn ysgolion yng Nghymru drothwy lefel 2, gan gynnwys Saesneg/Cymraeg a mathemateg. Nid yw'r wybodaeth gyfatebol ar gyfer colegau ar gael. Mae ystadegau arbrofol gan Lywodraeth Cymru ym mis Medi 2018 yn dangos bod 83% o ddysgwyr a gofrestrodd i astudio cyrsiau UG ar draws pob darparwr yn 2015-16 wedi cwblhau'r flwyddyn UG. O'r rhain, aeth tua 75% yn ôl i'r ail flwyddyn (Safon Uwch) yn 2016-17. Llwyddodd bron pob un o'r rheiny a ddychwelodd i gwblhau'r flwyddyn Safon Uwch, ond o'r rheiny a gofrestrodd yn gyntaf ar ddechrau 2015-16, cwblhaodd 60% y cwrs dwy flynedd lawn. (Llywodraeth Cymru, 2018c).

61 Mae dysgwyr sydd â lefelau isel o gyrhaeddiad addysgol mewn TGAU yn llawer mwy tebygol o roi'r gorau i'r cyrsiau UG/Safon Uwch neu fethu'r cyrsiau yn ddiweddarach. Mae nifer o resymau pam mae'r dysgwyr hyn yn astudio ar gyfer cymwysterau Safon Uwch yn y pen draw. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Diffyg dewis o opsiynau heblaw cyrsiau Safon Uwch, gallai hyn fod o ganlyniad i leoliad daearyddol neu ddiffyg opsiynau eraill trwy gyfrwng y Gymraeg
- Amharodrwydd ymhlith dysgwyr i adael eu hysgol gan eu bod yn adnabod yr athrawon i gyd a bod yr athrawon yn eu hadnabod nhw, ynghyd ag ethos cynhwysol yn yr ysgol ac ymrwymiad i gyfle cyfartal i'r holl ddysgwyr, beth bynnag fo'u gallu academaidd
- Ffafriaeth gref gan rieni a dysgwyr am 'draddodiad' astudio cyrsiau Safon Uwch yn hytrach nag unrhyw gyrsiau lefel 3 eraill a gynigir neu gyrsiau ar lefel is
- Ymrwymiadau teuluol neu waith rhan-amser sy'n gofyn bod dysgwyr yn agos at eu cartref

62 Yn ychwanegol, mae fformiwlâu cyllid ôl-16 sy'n seiliedig ar nifer y dysgwyr sy'n astudio ym mhob sefydliad yn annog ysgolion, yn arbennig, i gynyddu eu niferoedd. Canlyniad anfwriadol i'r sefyllfa hon yw bod dysgwyr nad ydynt yn addas ar gyfer astudio cyrsiau Safon Uwch yn cael caniatâd i wneud hynny er mwyn cynyddu niferoedd. Mae dysgwyr o gefndiroedd sy'n ddifreintiedig yn economaidd, ynghyd â bechgyn a'r rheiny ag anghenion addysgol arbennig, ymhlith grwpiau eraill, hefyd yn

[15] ibid

fwy tebygol o beidio â symud ymlaen o Flwyddyn 12 i Flwyddyn 13 (Llywodraeth Cymru, 2017c, tud.11).

63 Mae llawer o ddysgwyr Safon Uwch yn llwyddo i fynd ymlaen i brifysgol, ac mae ychydig ohonynt yn sicrhau lleoedd mewn prifysgolion hynod gystadleuol fel Rhydychen neu Gaergrawnt, ac mae lleiafrif ohonynt yn cael lleoedd ym mhrifysgolion Grŵp Russell. Mae tua 80% o'r rhai sy'n gadael yr ysgol ym Mlwyddyn 13 yn parhau mewn addysg amser llawn. Mae ychydig iawn o'r rhain yn cymryd blwyddyn i ffwrdd, mae tua 20% ohonynt yn parhau â'u haddysg yn yr ysgol neu'r coleg ac mae tua 80% ohonynt yn mynd ymlaen i addysg uwch. (Gyrfa Cymru, 2018). Mae'r sefyllfa mewn colegau'n wahanol, gyda thua 40% o ymadawyr Safon Uwch (Blwyddyn 13) yn mynd ymlaen i addysg uwch, gyda 27% arall yn parhau mewn addysg. Mae cyrchfannau gweddill y dysgwyr yn anhysbys. (Llywodraeth Cymru, 2018b, tt.2-4). Mae data arbrofol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Medi 2018 yn dangos bod cyrchfan gadarnhaol gynaledig gan 90% o ddysgwyr ysgol a choleg a gwblhaodd eu hastudiaethau Safon Uwch yn 2015-16. Mae hyn yn golygu eu bod wedi parhau â'u dysgu ar yr un lefel neu lefel uwch neu'u bod wedi symud ymlaen i gyflogaeth. O'r holl ddysgwyr ysgol a choleg a adawodd yn 2015-16, roedd 83% wedi cynnal cyrchfan gadarnhaol ac arhosodd 57% o'r dysgwyr hyn mewn addysg. Roedd gan ddysgwyr sy'n ferched gyrchfan dysgu cadarnhaol gynaledig uwch na dysgwyr sy'n fechgyn (84% o gymharu ag 81%) (Llywodraeth Cymru, 2018d).

64 Mae'r arfer o gasglu data ynglŷn â chyrchfannau dysgwyr Safon Uwch yn anghyson iawn ar hyn o bryd, ac nid yw'n rhoi darlun clir. Mae pob ysgol a choleg yn olrhain cyrchfannau eu dysgwyr sy'n gwneud cais i brifysgol trwy broses ymgeisio'r Gwasanaeth Mynediad i Brifysgolion a Cholegau (UCAS). Fodd bynnag, mae arferion ar gyfer cofnodi cyrchfannau gwirioneddol dysgwyr nad ydynt yn gwneud cais trwy UCAS yn amrywiol. Mae llawer o ysgolion a cholegau yn cynnal arolwg o ddysgwyr cyn iddynt adael i gofnodi eu cyrchfannau bwriadedig, ond ychydig iawn ohonynt yn unig sy'n cysylltu ag ymadawyr fisoedd lawer ar ôl iddynt adael yr ysgol neu'r coleg i gofnodi cyrchfannau dilyniant gwirioneddol. O ganlyniad i'r diffyg gwirio hwn, mae'n anodd cael darlun cywir o gyrchfannau a gellir tanamcangyfrif yn hawdd nifer y dysgwyr nad ydynt yn symud ymlaen yn llwyddiannus.

# Darpariaeth

## Cwricwlwm

65 Mae'r rhan fwyaf o ddarparwyr Safon Uwch yn cynnig amrywiaeth o gyrsiau Safon Uwch, sy'n cynnwys pynciau a adnabyddir yn aml fel pynciau 'hwyluso', fel mathemateg, Saesneg a hanes. Mae angen y pynciau hyn yn amlach ar gyfer derbyn i gyrsiau gradd yn y brifysgol na phynciau eraill. Mae pynciau sy'n llai cyffredin a gynigir yn cynnwys y gyfraith, electroneg, seicoleg a pheirianneg. Mae gwahaniaethau sylweddol ledled y wlad yn y dewisiadau sydd ar gael i ddysgwyr mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg a Saesneg fel ei gilydd.

66 Mae ystod y pynciau a gynigir mewn Safon Uwch yn amrywio yn unol â lleoliad daearyddol, arbenigedd staff, cyfrwng iaith, maint y darparwr, p'un a oes partneriaethau gyda chanolfannau eraill a rhwng ysgolion a cholegau ai peidio. Yn gyffredinol, mae colegau ac ysgolion mawr yn cynnig ystod ehangach o bynciau na darparwyr llai, ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn dibynnu ar drefniadau partneriaeth i gynnig ystod ehangach o bynciau. Mae'r rhan fwyaf o ganolfannau yn cynnig cymwysterau galwedigaethol yn ogystal â chyrsiau Safon Uwch, ond yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae'r dewis o gymwysterau galwedigaethol yn llawer mwy cyfyngedig na'r dewis o gyrsiau Safon Uwch.

67 Mae'r rhan fwyaf o ganolfannau'n cynnig dewis rhydd cychwynnol o bynciau Safon Uwch i ddysgwyr, ac wedyn caiff blociau opsiwn eu ffurfio ar sail canfyddiadau'r ymarfer dewis rhydd. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr Safon Uwch yn hapus ag ystod y pynciau a gynigir iddynt ac yn teimlo eu bod yn gallu astudio'r pynciau y maent yn dymuno'u hastudio, er y gallai hyn olygu astudio un pwnc mewn canolfan arall.

68 Er bod y rhan fwyaf o ddysgwyr sy'n dewis astudio cyrsiau Safon Uwch yn ôl pob golwg yn cael cynnig 'dewis rhydd' o ran pynciau Safon Uwch, mewn gwirionedd, caiff eu dewisiadau eu cyfyngu gan nifer o ffactorau. Mae hyn yn arbennig o wir mewn ardaloedd neu ganolfannau lle mae opsiynau ôl-16 heblaw cyrsiau Safon Uwch yn gyfyngedig. Mae'r ffactorau hyn yn cynnwys canolfannau'n gofyn i ddysgwyr astudio mwy o bynciau na'r hyn y maent yn ei ddymuno, a chanolfannau ddim yn cynnig pynciau penodol o ganlyniad i ddiffyg arbenigedd pwnc neu ganlyniadau gwael mewn pwnc dros gyfnod. Mewn ychydig o achosion, mae dysgwyr yn amharod i deithio i ganolfannau eraill. Mae llawer o ganolfannau'n mynnu graddau gofynnol ar gyfer astudio rhai pynciau, sy'n aml yn briodol. Mae hyn yn effeithio'n benodol ar ddysgwyr y mae eu cyflawniad mewn TGAU yn gymharol gymedrol, gan fod eu dewisiadau'n cael eu cyfyngu i raddau helaeth gan ofynion mynediad ar gyfer pynciau unigol ac yn eu gadael ag ystod gyfyngedig o ddewisiadau nad ydynt efallai'n gweddu i'w hanghenion neu'u diddordebau. Yn aml, yn sgil y ffactorau hyn, mae ychydig o ddysgwyr yn dewis cwrs nad ydynt wedi'i astudio o'r blaen, fel seicoleg, heb ddeall gofynion y pwnc yn llawn neu ddewis pynciau nad oes ganddynt ryw lawer o ddiddordeb ynddynt. Yn yr amgylchiadau hyn, nid yw'r cynnig cwricwlwm yn gweddu i anghenion na diddordebau'r dysgwyr yn ddigon da.

69 Mae meintiau dosbarthiadau yn amrywio'n sylweddol ar draws canolfannau, o un i ryw 30 dysgwr. Mewn dosbarthiadau bach iawn, mae'n anodd cynnal trafodaethau cynhyrchiol ac i ddysgwyr ddysgu oddi wrth ei gilydd. Fodd bynnag, mae dosbarthiadau mawr iawn yn creu heriau o ran baich gwaith athrawon, ac mae'n anodd i athrawon roi digon o sylw i ddysgwyr unigol.

70 Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, bu diwygiadau sylweddol sy'n effeithio ar gyrsiau Safon Uwch. Ar yr un pryd, bu newid mawr yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4. Mae hyn wedi cael effaith sylweddol ar faich gwaith athrawon ysgolion uwchradd y mae'n rhaid iddynt fodloni gofynion cwricwlwm sy'n newid ym mhob cyfnod allweddol ar yr un pryd. Hefyd, rhaid iddynt addysgu hen fanylebau Safon Uwch a manylebau newydd Safon Uwch ar yr un pryd.

71 Bu cyflymdra'r diwygio a maint y newid yn effeithio ar gyrsiau Safon Uwch yn heriol i ysgolion, colegau a'r sefydliadau sydd ynghlwm â'r diwygiadau hyn, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, Cymwysterau Cymru a CBAC. Roedd yr amserlen dynn o ganlyniad i benderfyniad Lloegr i ddiwygio eu harholiadau a'r argymhelliad yn yr adolygiad o gymwysterau y dylid cadw'n gyson â chyrsiau Safon Uwch yn Lloegr. Roedd hyn yn cydredeg â diwygiadau i gyrsiau TGAU. Diwygiwyd llawer o gyrsiau Safon Uwch naill ai cyn y cyrsiau TGAU yn yr un pwnc, neu ar yr un pryd. Yn ogystal â'r diwygiadau i gyrsiau Safon Uwch a TGAU, mae'r cwricwlwm cyfnod allweddol 3 yn cael ei ddiwygio hefyd yn sgil adroddiad Dyfodol Llwyddiannus. Mae'r diwygiadau hyn yn cwmpasu dilyniant o 3 i 16 oed, ond nid ydynt yn ymestyn i addysg ôl-16. O ganlyniad, mewn llawer o bynciau, bu diffyg dull cydlynus a chynllunio clir a manwl ar gyfer dilyniant mewn medrau a gwybodaeth o gyfnod allweddol 3 i TGAU ac wedyn i Safon Uwch. O ganlyniad i ddiffyg continwwm yn arwain at gyrsiau Safon Uwch, ni chaiff disgyblion Blwyddyn 11 bob amser eu paratoi'n ddigonol ar gyfer gofynion astudio Safon Uwch, er bod hyn yn amrywio o un pwnc i'r llall. Er enghraifft, mewn Saesneg iaith a llenyddiaeth, mae'n ofynnol i ddysgwyr feddu ar wybodaeth am theori iaith lafar ond nid yw hyn yn ymddangos o gwbl mewn TGAU. Yn yr un modd, caiff medrau llafaredd dysgwyr eu hasesu mewn TGAU, ond nid yw hyn yn rhan o'r cwrs Safon Uwch. Mewn rhai pynciau, fel dylunio a thechnoleg, cwblhawyd y diwygiadau i gyrsiau Safon Uwch a chyrsiau TGAU ochr yn ochr, gan alluogi ar gyfer parhad ar draws y cymwysterau, ond nid oedd hyn yn wir am bynciau eraill, ac felly roedd llawer llai o gynllunio ar gyfer dilyniant o TGAU i Safon Uwch.

72 Mae cyflymdra a graddau'r newid yn golygu bod pryder nad yw diwygio'r cwricwlwm a chynllunio ar gyfer dilyniant o gyfnod allweddol 3 ac ar draws cyrsiau TGAU a chyrsiau Safon Uwch bob amser yn cael ei gynllunio'n gydlynol fel bod dysgwyr yn meddu ar y wybodaeth eang a manwl sy'n ofynnol ar gyfer astudio cyrsiau Safon Uwch.

73 Mae cyflymdra'r diwygio, a'r amserlen hir sydd ynghlwm ag achredu neu gymeradwyo cymwysterau wedi effeithio ar argaeledd amserol adnoddau. Nid oedd CBAC a chyhoeddwyr masnachol yn gallu bwrw ymlaen â chyhoeddi adnoddau hyd nes bod cymwysterau wedi cael eu cymeradwyo neu'u hachredu. Yn benodol, mae wedi arwain at broblemau ag adnoddau cyfrwng Cymraeg gan eu bod yn cael eu cyfieithu ac yn mynd trwy broses wirio ar ôl cwblhau adnoddau cyfrwng Saesneg. Gwaethygwyd hyn gan y ffaith fod cyhoeddwyr erbyn hyn yn llai parod i gyhoeddi adnoddau ar gyfer cymwysterau Cymru yn unig gan fod y farchnad fasnachol yn

llawer llai nag ydoedd pan oedd ymgeiswyr yng Nghymru a Lloegr yn astudio'r un cymwysterau.

74 Yn gyffredinol, er bod cyrsiau TGAU yn darparu sylfaen sylfaenol addas ar gyfer cyrsiau Safon Uwch, nid ydynt yn paratoi dysgwyr yn ddigon da ar gyfer lefel yr astudio annibynnol sy'n ofynnol mewn Safon Uwch. Mewn TGAU, mae llawer o nodiadau'n tueddu i gael eu rhoi i ddysgwyr ac fe gânt eu tywys trwy'r rhain gan eu hathrawon. Hefyd, byddant yn cael ffug arholiadau a phrofion yn aml. Rhoddir cymorth ychwanegol a gwersi ychwanegol i ddysgwyr targedig. Mewn Safon Uwch, disgwylir i ddysgwyr gwblhau eu hymchwil eu hunain a gwneud eu nodiadau eu hunain neu fynd dros y rhai a roddir iddynt yn eu hamser eu hunain. Disgwylir iddynt brofi eu hunain ac adolygu ar eu pen eu hunain. Nid oes gan y rhan fwyaf o ysgolion a cholegau'r adnoddau ariannol i ddarparu cymorth neu sesiynau i ddysgwyr Safon Uwch sy'n cael trafferth. Mae cyflymdra'r dysgu a maint y gwaith sydd ei angen mewn Safon Uwch yn llawer mwy nag ydyw mewn TGAU hefyd.

## Cyngor ac arweiniad

75 Yn gyffredinol, mae llawer o ddysgwyr a'u rhieni yn teimlo y cawsant gyngor ac arweiniad o ansawdd uchel cyn dechrau dilyn cyrsiau Safon Uwch. Fodd bynnag, nid yw cyngor ac arweiniad i rai dysgwyr UG, yn enwedig y rheiny sy'n cyflawni'r isafswm gofynion mynediad yn unig ar gyfer astudio cyrsiau Safon Uwch, bob amser yn ddefnyddiol gan nad cyrsiau Safon Uwch yw'r opsiwn gorau ar eu cyfer ar y cyfan. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion a cholegau yn darparu nosweithiau agored ar gyfer dysgwyr a'u rhieni i esbonio dewisiadau Safon Uwch ac mae llawer ohonynt yn cynnig cyfweliadau un i un. Yn yr enghreifftiau gorau, caiff y broses i ddewis cyrsiau Safon Uwch ei rheoli'n ofalus iawn gan y ganolfan. Caiff disgyblion gyfweliadau unigol ym Mlwyddyn 11 ac, ar ddiwrnodau canlyniadau, mae rhieni'n ymwneud yn agos â'r broses, mae staff yn ystyried graddau disgwyliedig a dyheadau gyrfa ac yn rhoi cyngor ar gyfuniadau o bynciau. Fodd bynnag, mae ansawdd y cyngor a'r arweiniad yn well ar gyfer y rheiny sy'n aros i astudio cyrsiau Safon Uwch nag ar gyfer y rheiny sy'n dewis cyrsiau neu lwybrau eraill.

**Astudiaeth achos 1: Coleg Chweched Dosbarth Catholig Dewi Sant, Caerdydd – cyngor ac arweiniad**

Mae Coleg Chweched Dosbarth Catholig Dewi Sant yng Nghaerdydd yn cynnig darpariaeth Safon Uwch yn bennaf, ochr yn ochr ag ystod o gymwysterau galwedigaethol lefel 2 a 3. Mae ganddo tua 1,500 o ddysgwyr ac mae'n cynnig dros 30 o gyrsiau Safon Uwch.

Mae'r coleg yn gweithio'n agos gyda rhieni ac ysgolion i helpu tywys dysgwyr i wneud dewisiadau gwybodus am eu cyrsiau yn y dyfodol. Cyn cofrestru, gwahoddir holl ymgeiswyr y coleg i 'sesiwn arweiniad', a gynhelir yn aml ar ddydd Sadwrn. Yn y sesiynau hyn, mae staff y coleg yn trafod gyda darpar ddysgwyr eu dewisiadau o gyrsiau, eu hadroddiad ysgol presennol a'u huchelgeisiau. Wrth roi cyngor, maent yn ystyried cyrhaeddiad presennol pob dysgwr a'u cynnydd yn yr ysgol, yn ogystal â'u dyheadau o ran addysg a gyrfa yn y dyfodol. Hefyd, maent yn ystyried gwybodaeth yn ymwneud â phrifysgolion a gofynion ar gyfer cyrsiau penodol

a dyheadau gyrfa yn y dyfodol. Yn ychwanegol, maent yn darparu arweiniad defnyddiol ynglŷn â chyfuniadau pwnc cefnogol, fel mathemateg gyda ffiseg neu fioleg gydag addysg gorfforol. Mae'r coleg yn defnyddio arbenigwyr pwnc i ddarparu'r cyngor hwn a chaiff pob cais ei wirio am addasrwydd dewisiadau gan uwch aelod o staff.

Mae prosbectws chweched dosbarth yn darparu gwybodaeth gynhwysfawr am ddarpariaeth yn y coleg a phob cwrs Safon Uwch unigol, yn ogystal â'r opsiynau galwedigaethol a gynigir gan y coleg.

Cynhelir sawl noson agored trwy gydol y flwyddyn. Mae'r rhain yn galluogi darpar ddysgwyr a'u rhieni i drafod disgwyliadau a gofynion cyrsiau gyda staff addysgu arbenigol pynciau a chael gwybod am y gwasanaethau a gynigir gan y coleg, fel cyngor ar yrfaoedd neu gymorth i fyfyrwyr. Hefyd, mae'r nosweithiau hyn yn galluogi darpar ddysgwyr i gyfarfod â myfyrwyr presennol a mynd ar daith o gwmpas y coleg. Cânt eu hategu gan gyfres o brynhawniau agored lle bydd y Pennaeth Cynorthwyol yn rhoi cyflwyniad i ymgeiswyr ar gyfer derbyniadau, a thaith o gwmpas y coleg.

Bob mis Gorffennaf, gwahoddir yr holl ymgeiswyr i sesiynau rhagflas lle cânt eu haddysgu yn y pynciau lefel UG o'u dewis nhw. Yn 2018, cynigiwyd y rhain trwy 'glystyrau pwnc'. Er enghraifft, roedd y clwstwr pwnc llenyddiaeth a diwylliant yn cynnwys llenyddiaeth Saesneg, iaith a llenyddiaeth Saesneg, astudiaethau ffilm a'r cyfryngau. Mae'r sesiynau hyn yn rhoi mewnwelediad gwerthfawr i ddysgwyr ar wersi pwnc UG, yn enwedig y rheiny sy'n newydd iddynt.

Wedi i ddysgwyr ddechrau eu cyrsiau, caiff eu cynnydd ei fonitro'n ofalus trwy gynllun dysgu unigol electronig y coleg, sydd hefyd yn agored i rieni. Mae Anogwyr Dysgwyr yn defnyddio'r wybodaeth hon i nodi dysgwyr sy'n wynebu'r perygl mwyaf o roi'r gorau i'w cyrsiau. Mewn achos o'r fath, maent yn targedu cymorth ac ymyrraeth neu'n awgrymu llwybrau eraill, lle bo'n ymarferol.

Mae gan y coleg gysylltiadau agos gyda phedair ysgol uwchradd Gatholig bartner ac mae cynrychiolwyr y coleg yn darparu cyngor ac arweiniad a sesiynau rhagflas i ddysgwyr Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 yn yr ysgolion hyn, ac mewn ysgolion eraill.

Bu canlyniadau UG a Safon Uwch y coleg yn gyson gryf dros y pedair blynedd ddiwethaf, ac maent yn cymharu'n ffafriol iawn â chanlyniadau mewn colegau addysg bellach eraill. Mae'r coleg yn cynnal arolwg o'i broses gofrestru, ac yn yr arolwg diweddaraf, dywedodd 100% o ymatebwyr eu bod wedi cael cyngor ac arweiniad priodol a bod ystyriaeth briodol wedi cael ei rhoi i'r gofynion a'u meddyliau eu hunain.

76 Er bod llawer o ddysgwyr a'u rhieni yn hapus ag ansawdd y cyngor a'r arweiniad y maent wedi'i dderbyn, mewn gwirionedd, nid yw'r drefn bresennol o adrodd yn y sector ôl-16 yn galluogi iddynt gael darlun clir o ba rai yw'r darparwyr Safon Uwch gorau yn eu hardal. Gwefan Llywodraeth Cymru yw 'Fy Ysgol Leol' sy'n darparu

gwybodaeth am bob ysgol yng Nghymru. Mae'n darparu gwybodaeth am bob cyfnod allweddol ond nid yw'n darparu unrhyw wybodaeth am ddeilliannau chweched dosbarth, fel cyrsiau Safon Uwch. Yn yr un modd, nid oes unrhyw wefan cyfatebol, 'Fy Ngholeg Lleol'. Mae hyn yn golygu nad oes unrhyw ffynhonnell wybodaeth ddibynadwy am berfformiad mewn Safon Uwch. Caiff hyn ei gymhlethu gan y ffaith fod deilliannau'n cael eu mesur yn wahanol mewn ysgolion a cholegau ac mai prin iawn yw'r adrodd am ddata 'pur' Safon Uwch neu UG.

77 Wrth gyhoeddi eu cyflawniadau, mae llawer o ganolfannau yn dewis a dethol y data y maent yn ei gynnwys mewn datganiadau i'r cyfryngau, a gall y negeseuon fod yn gamarweiniol. Er enghraifft, gallai baner yn cyhoeddi 'cyfradd lwyddo o 99% mewn Safon Uwch' ddangos yn unig bod bron pob un o'r dysgwyr a arhosodd tan ddiwedd eu cwrs wedi cyflawni gradd E o leiaf. Nid yw'n rhoi syniad o gyrhaeddiad ar y graddau uwch, yn rhoi cyfraddau rhoi'r gorau i gyrsiau na manylion am berfformiad ar gyrsiau UG, sy'n aml yn llawer gwannach na pherfformiad mewn Safon Uwch. Mae hyn yn ddryslyd i ddysgwyr a rhieni, oherwydd er y gallai'r wybodaeth fod yn dechnegol gywir, mae'n rhoi argraff gamarweiniol o realiti astudio cyrsiau Safon Uwch, gan awgrymu y bydd bron pawb sy'n mynychu'r ganolfan yn llwyddo yn eu cyrsiau.

78 Canfu adroddiad thematig diweddar gan Estyn ar Yrfaoedd:

> *Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn darparu ystod o wybodaeth gyffredinol am ddewisiadau ôl-16 i ddisgyblion. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o ysgolion yn defnyddio gwybodaeth nac adnoddau digon cyfoes i arwain penderfyniadau disgyblion. Yn gyffredinol, mae ysgolion 11-18 yn rhoi gormod o bwyslais ar hyrwyddo eu chweched dosbarth eu hunain yn hytrach nag archwilio ystod y dewisiadau eraill sydd ar gael i ddisgyblion ar draws ystod y darparwyr yn llawn. (*Estyn, 2017, tud.4*).*

79 Ar y cyfan, mae cyngor ac arweiniad mewn ysgolion ynghylch llwybrau galwedigaethol yn y chweched dosbarth ac ar ôl Safon Uwch yn gyfyngedig. Mewn llawer o ysgolion, mae'r rhan fwyaf o gyngor ac arweiniad yn ymwneud ag astudio cyrsiau Safon Uwch, ac, ar y cyfan mae hynny o fewn yr ysgol os oes ganddynt chweched dosbarth. Mae ysgolion heb ddosbarthiadau chwech yn tueddu i roi cyngor mwy diduedd ac mae ganddynt gysylltiadau cryf â cholegau lleol. Mae mwyafrif o ysgolion yn siarad â dysgwyr am brentisiaethau, ond heb lawer o fanylder. Mae colegau'n annog dysgwyr i astudio gyda nhw ond, yn aml, maent yn cynnig ystod ehangach o ddewisiadau sy'n cynnwys cyrsiau Safon Uwch a dewisiadau galwedigaethol.

80 Mae cyngor ac arweiniad ar lwybrau sy'n dilyn astudiaethau Safon Uwch yn canolbwyntio'n helaeth ar fynd i brifysgol. Mae hyn yn arbennig o wir mewn ysgolion. Mae llawer o ganolfannau'n gweithio'n dda gyda phrifysgolion lleol, yn gwneud defnydd da o siaradwyr sy'n ymweld ac yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr ar gyfer ffug gyfweliadau. Mae'r rhan fwyaf o ganolfannau'n cynorthwyo dysgwyr yn dda trwy broses ymgeisio i brifysgolion UCAS. Mae llawer o ganolfannau'n dechrau gwneud dysgwyr yn fwy ymwybodol o gyfleoedd fel prentisiaethau uwch. Mae dysgwyr colegau yn elwa ar wasanaethau gyrfaoedd arbenigol sy'n helpu dysgwyr i archwilio ystod lawn y dewisiadau dilyniant, gan gynnwys prifysgol, prentisiaeth, gwaith a

menter entrepreneuraidd. Fodd bynnag, ar y cyfan, mae cyngor ac arweiniad ar lwybrau heblaw mynd i brifysgol yn gyfyngedig ar y cyfan.

81 Mae systemau addas ar y cyfan yn y rhan fwyaf o ysgolion ar gyfer rhoi cyngor cyn ac ar ôl astudio cyrsiau Safon Uwch. Fodd bynnag, mae ansawdd y cyngor a'r arweiniad yn ystod astudiaethau Safon Uwch yn fwy amrywiol, yn enwedig yn ystod ac ar ddiwedd Blwyddyn 12. Mae colegau a lleiafrif o ysgolion yn caniatáu cyfnod cychwynnol penodedig i ddysgwyr pan fyddant yn gallu newid cyrsiau. Mae ychydig o ysgolion yn ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr astudio pedwar pwnc UG i ddechrau, ond yn galluogi dysgwyr i roi'r gorau i un pwnc yn eithaf cynnar fel bod eu cyrsiau'n gweddu'n well i'w diddordebau a'u pynciau. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o ganolfannau, mae diffyg cyngor amserol ac arweiniad buddiol.

82 Mae llawer o ganolfannau yn dod yn gynyddol ymwybodol o'r lefelau cynyddol o orbryder a phroblemau iechyd meddwl ymhlith dysgwyr Safon Uwch. Maent yn ymwybodol fod dysgwyr yn teimlo dan bwysau i wneud yn dda, y gorbryder cyffredinol a deimlir gan bobl ifanc mewn byd lle mae'r cyfryngau cymdeithasol yn gynyddol amlwg, a'r anawsterau wrth geisio sicrhau cydbwysedd rhwng baich gwaith trwm a chyfrifoldebau ychwanegol. Mae mwyafrif y canolfannau'n dechrau rhoi cymorth ar waith. Mae hyn yn cynnwys cymorth gan gwnselwyr, arweiniad ar reoli baich gwaith a gwersi a gwasanaethau ynglŷn â sut i ddelio â phroblemau iechyd meddwl.

### Polisïau mynediad

83 Mae gofynion mynediad i astudio cyrsiau Safon Uwch yn amrywio o un ganolfan i'r llall ac yn tueddu i fod yn llawer mwy hyblyg mewn lleoliadau bach, sydd wedi'u lleoli ymhell oddi wrth ganolfannau eraill neu mewn canolfannau lle mai nhw yw'r unig ddarparwyr cyfrwng Cymraeg mewn ardal. Mae llawer o ganolfannau'n gofyn am bum gradd A*-C mewn TGAU neu gyfwerth, mae ychydig o ganolfannau'n derbyn pedair gradd A*-C ac mae ychydig ohonynt yn gofyn am chwech neu saith gradd. Mae gan y rhan fwyaf o ganolfannau ofynion penodol ar gyfer pynciau unigol hefyd, er enghraifft graddau B mewn mathemateg a gwyddoniaeth i astudio'r pynciau hynny mewn Safon Uwch. Fodd bynnag, nid yw llawer o ganolfannau'n cymhwyso'r gofynion hyn yn gyson, yn enwedig pan fydd y dysgwr yn hysbys iddynt neu pan gaiff cyllid ei ddyrannu ar sail niferoedd nid deilliannau. Mewn llawer o ganolfannau, ac mewn ysgolion yn benodol, nid yw'r broses i sicrhau bod dysgwyr ar gyrsiau addas yn ddigon trylwyr, ac mae gormod o hyblygrwydd ar y cyfan wrth gymhwyso gofynion mynediad. Yn ychwanegol, mae canfyddiad cyffredinol ymhlith rhieni a dysgwyr mai cyrsiau Safon Uwch yw'r dewis gorau ar ôl TGAU.

84 Nid yw hyblygrwydd o'r fath wrth gymhwyso gofynion mynediad a ffocws cyfyng ar gyrsiau Safon Uwch fel yr unig ddewis ôl-16 o reidrwydd yn fuddiol, yn enwedig ar gyfer dysgwyr sydd wedi cyflawni'r isafswm gofynion mynediad ar gyfer astudio cyrsiau Safon Uwch o drwch blewyn neu heb eu cyflawni, gan nad astudio ar lefel uwch yw'r dewis gorau ar eu cyfer bob amser. Bob blwyddyn, mae tua 20% o ddysgwyr yn parhau i roi'r gorau i'w cyrsiau ym Mlwyddyn 12 neu'n methu mynd ymlaen o Flwyddyn 12 i Flwyddyn 13 ac mae anghysondebau sylweddol o ran cyrhaeddiad mewn Safon Uwch ac UG, gyda deilliannau Safon Uwch yn llawer cryfach (Llywodraeth Cymru, 2017c). Mewn lleiafrif o ganolfannau, mae'r dewisiadau

o opsiynau sydd ar gael, y cyfyngiadau sy'n effeithio ar y dewisiadau hynny ac ystyriaeth gyfyngedig i allu academaidd pob dysgwr yn golygu na chaiff anghenion a diddordebau dysgwyr eu bodloni'n briodol trwy astudio cyrsiau Safon Uwch.

85 Dros y blynyddoedd diwethaf, mae ysgolion a cholegau wedi dod yn gynyddol ymwybodol o bwysigrwydd sicrhau bod yr holl ddysgwyr sy'n astudio cyrsiau Safon Uwch yn meddu ar gymwysterau addas i wneud hynny ac yn gwneud dewisiadau sy'n gweddu i'w hanghenion a'u diddordebau. Mewn colegau, nid yw unrhyw drosglwyddiadau neu dynnu'n ôl o gyrsiau yn ystod wyth wythnos gyntaf yr addysgu yn effeithio ar y data ar gwblhau neu lwyddiant a pherfformiad. Mae colegau wedi dod yn gynyddol ragweithiol o ran canolbwyntio cyngor ac arweiniad ychwanegol ac adolygiadau o raglenni dysgu yn ystod y cyfnod hwn. Ar y cyfan, mae cyfraddau llwyddiant ar eu huchaf mewn colegau sy'n cynnal adolygiadau o'r fath yn drylwyr.

86 Mae nifer y cyrsiau lefel UG y mae canolfannau'n gofyn i ddysgwyr eu hastudio yn amrywio. Mae'r rhan fwyaf o ganolfannau yn gofyn i ddysgwyr Blwyddyn 12 ddilyn o leiaf dri chwrs lefel UG, ond mae llawer o ganolfannau'n gofyn iddynt ddilyn pedwar neu dri chwrs lefel UG, yn ogystal â chymhwyster arall fel Bagloriaeth Cymru. Mae'r fformiwla cyllido ar gyfer astudiaethau Safon Uwch yn aml yn dylanwadu ar nifer y cyrsiau Safon Uwch y mae canolfan yn ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr eu hastudio. Mae lleiafrif o ddysgwyr yn astudio dau gwrs Safon Uwch, weithiau gyda chymhwyster arall, er bod hyn fel arfer ar ôl i'r dysgwr roi'r gorau i ddilyn un neu ddau gwrs Safon Uwch. Mae Bagloriaeth Cymru yn ychwanegu at brofiad dysgwyr trwy gynnig ystod ehangach o brofiadau na'r rheiny a gynigir trwy astudio cyrsiau Safon Uwch yn unig, ond mae'n gofyn i ddysgwyr astudio cymhwyster ychwanegol ac felly'n gofyn am amser cwricwlwm ac astudio. Mae hyn wedi arwain at bwysau cynyddol ar y dyraniad amser ar gyfer yr holl bynciau Safon Uwch, a disgwyliadau uwch o ddysgwyr Safon Uwch o ran nifer y pynciau sy'n cael eu hastudio.

87 Mae'r gofyniad i astudio pedwar neu bump o bynciau (yn cynnwys Bagloriaeth Cymru) a'r baich gwaith cynyddol dilynol a diffyg cyfnodau astudio yn ffactor sylweddol sy'n achosi straen ymhlith dysgwyr Safon Uwch. Hefyd, mae'n codi pryderon ymhlith dysgwyr a'u rhieni ynglŷn â'r ffaith fod dysgwyr yng Nghymru yn cystadlu am leoedd prifysgol yn erbyn eu cyfoedion yn Lloegr sydd, ar y cyfan, yn astudio tri chwrs Safon Uwch yn unig ac yn gallu neilltuo mwy o amser ar gyfer llai o bynciau. Mae prifysgolion yn gofyn am uchafswm o dri chymhwyster Safon Uwch neu gyfwerth ar gyfer derbyn dysgwyr.

88 Mae gofynion mynediad ar gyfer mynd ymlaen o Flwyddyn 12 i Flwyddyn 13 yn fwy amwys na'r rheiny ar gyfer derbyn ym Mlwyddyn 12 ac maent yn amrywio'n eang ar draws canolfannau. Ar y cyfan, os bydd dysgwr wedi cyflawni graddau U ym mhob pwnc, nid yw'r rhan fwyaf o ganolfannau'n caniatáu iddynt symud ymlaen i astudio cyrsiau Safon Uwch. Fodd bynnag, heblaw am hyn, mae polisïau ar gyfer mynd ymlaen o Flwyddyn 12 i Flwyddyn 13 yn aneglur. Mewn llawer o ganolfannau, mae ychydig o ddysgwyr yn astudio cyrsiau Safon Uwch dros dair blynedd. Gallai'r dysgwyr hyn ailsefyll Blwyddyn 12 a dechrau eu hastudiaethau eto, weithiau gyda'r un cyrsiau Safon Uwch, ac weithiau gyda phynciau newydd. Mae dysgwyr eraill yn parhau i Flwyddyn 13 gydag un neu ddau o bynciau ond yn dechrau un neu ddau gwrs lefel UG o'r newydd. Mae ychydig o'r dysgwyr hyn yn cwblhau'r cyrsiau UG ac A2 ar yr un pryd mewn blwyddyn.

## Addysgu ac asesu

89 Mae perthnasoedd gweithio cadarnhaol a pharchus rhwng athrawon a dysgwyr yn nodweddu'r rhan fwyaf o wersi Safon Uwch. Yn aml, mae dysgwyr yn gwneud sylw am awyrgylch o barch ar y ddwy ochr mewn gwersi, ac maent yn teimlo eu bod yn cael eu trin yn wahanol o gymharu â phan oeddent ym Mlwyddyn 11, ac yn fwy fel oedolion.

90 Mae brwdfrydedd dros y pwnc, gwybodaeth bynciol gadarn a dealltwriaeth sicr o ofynion yr arholiadau yn nodweddion allweddol addysgu Safon Uwch yn effeithiol ac fe'u gwelir yn y mwyafrif o wersi. Mae'r athrawon Safon Uwch mwyaf effeithiol yn defnyddio dulliau diddorol ac sy'n aml yn greadigol i ennyn diddordeb dysgwyr a'u helpu i gyflawni'r safonau uchaf. Er bod yr athrawon hyn yn paratoi dysgwyr yn eithriadol o dda ar gyfer gofynion arholiadau, maent hefyd yn gosod y dysgu mewn cyd-destun ehangach, o ran y pwnc ei hun a chyd-destun cyffredinol ehangach. Maent yn llwyddiannus o ran sicrhau cydbwysedd rhwng gofynion yr arholiadau a'r angen i ddarparu cwmpas ehangach i'r dysgu.

91 Mae llawer o athrawon yn annog darllen ehangach am bynciau neu destunau penodol ond nid cymaint am y pwnc yn gyffredinol. Mewn llawer o achosion, ac yn aml o ganlyniad i gyfyngiadau o ran amser, mae'r holl ddysgu yn gysylltiedig ag arholiadau. I'r gwrthwyneb, mae ychydig o athrawon yn mynd yn rhy bell y tu hwnt i'r maes llafur ac nid ydynt yn canolbwyntio'n ddigonol ar ofynion yr arholiadau. Mae diffyg ystyriaeth gyffredinol ac amrywiol o'r pwnc sy'n aml yn ofynnol gan brifysgolion. Fodd bynnag, mae cwmpasu cynnwys pwnc meysydd llafur Safon Uwch ac addysgu'r medrau gofynnol o fewn amserlen dynn yn heriol a gall arwain at ffocws cyfyng ar gynnwys arholiadau a medrau.

**Astudiaeth achos 2: Ysgol Y Strade, Llanelli – Defnyddio dulliau creadigol i ddadansoddi barddoniaeth mewn gwers Gymraeg Safon Uwch ym Mlwyddyn 12**

Mewn gwers Gymraeg Safon Uwch ym Mlwyddyn 12, bu dysgwyr yn gweithio'n annibynnol ac ar y cyd i ddadansoddi cerdd am y llenor a'r ymgyrchydd dros y Gymraeg, Saunders Lewis. Roedd yr athrawes wedi cynllunio'r wers yn ofalus a defnyddiodd amrywiaeth o ddulliau creadigol i ennyn diddordeb y dysgwyr a'u helpu i ddadansoddi'r gerdd yn ddigon manwl. Defnyddiodd yr athrawes arteffactau a oedd ar un adeg yn eiddo i Saunders Lewis, a phytiau o'i araith enwog, 'Tynged yr Iaith', i greu'n llwyddiannus ymdeimlad o'i gymeriad a'i bwysigrwydd i Gymru. Pan ofynnwyd iddynt sut byddent yn disgrifio llais Saunders Lewis i rywun byddar, disgrifiodd dysgwyr yn sensitif natur ei lais ac roeddent yn sylwgar yn eu dadansoddiad o'i dôn a'i ddewis o eiriau. Yn ddiweddarach, fe wnaethant gymhwyso'r dysgu hwn i'w dadansoddiad eu hunain o'r gerdd.

Hwylusodd yr athrawes fedrau dysgu'n annibynnol y dysgwyr yn arbennig o dda. Er enghraifft, bu'n rhaid i ddysgwyr drefnu fersiwn fwy cryno o bennill cyntaf y gerdd fel ei fod yn gwneud synnwyr iddynt. Esboniodd dysgwyr eu rhesymu yn aeddfed a defnyddio eu gwybodaeth am fydr yn effeithiol i greu fersiwn gywir o'r pennill.

Nodwedd nodedig o'r wers oedd y ffordd yr oedd yr athrawes yn manteisio i'r eithaf ar bob cyfle dysgu ac yn gosod y dysgu mewn cyd-destun

ehangach. Er enghraifft, wrth ystyried disgrifiad o fydr y gerdd, roedd gofyn i ddysgwyr drafod cynnwys y paragraff ac unrhyw hepgoriadau ond gofynnwyd iddynt gywiro'r camgymeriadau sillafu a gramadeg bwriadol hefyd ac esbonio pam roeddent yn anghywir. Cymhwysodd dysgwyr eu gwybodaeth flaenorol yn fedrus i'r dasg hon a thasgau eraill, ac roeddent yn hyderus yn eu defnydd o derminoleg oedd yn benodol i'r pwnc. Yn yr un modd, wrth ganolbwyntio ar linellau penodol o'r gerdd, holwyd dysgwyr am eu gwybodaeth am y ffurf benodol o gyflythrennu sy'n cael ei hadnabod fel 'cynghanedd', yn ogystal â'u hamgyffrediad o ystyr ac arddull y llinellau. Roedd dysgwyr yn wybodus am fesurau barddoniaeth Gymraeg a'r ffurfiau amrywiol o'r 'gynghanedd' ac fe wnaethant gyfuno eu gwybodaeth flaenorol a dealltwriaeth newydd yn hynod effeithiol.

Roedd pob un o'r dysgwyr yn cymryd rhan yn llawn yn y wers ac yn cyfleu diddordeb diffuant yn y gerdd a'i phwnc. Roeddent yn ymholgar a meddylgar wrth ystyried y gerdd ac yn gofyn cwestiynau tra ystyriol. Ysgrifennodd y rhan fwyaf ohonynt ymatebion i'r gerdd wedi'u saernïo'n dda, gan ddefnyddio geirfa soffistigedig ac a ddewiswyd yn ofalus. Roedd yr athrawes wedi sefydlu amgylchedd dysgu cefnogol a oedd wedi'i nodweddu gan gyffyrddiadau o hiwmor, wedi'i gyfuno â chwestiynau a thasgau heriol a oedd yn ysgogi syniadau. Roedd gwybodaeth bynciol yr athrawes yn gynhwysfawr a llwyddodd i gyfleu ei brwdfrydedd dros y pwnc ac roedd hyn yn amlwg yn ennyn ymgysylltiad a diddordeb y dysgwyr.

92 Mae gan lawer o athrawon Safon Uwch ddisgwyliadau uchel o ddysgwyr, maent yn cynllunio'n ofalus i fodloni anghenion dysgwyr unigol, yn enwedig y rheiny sy'n uwch o ran eu gallu ac maent yn defnyddio adnoddau buddiol sy'n ennyn diddordeb dysgwyr yn effeithiol. Maent yn darparu nodiadau manwl ac yn tywys dysgwyr yn fedrus trwy eu cyrsiau. Maent yn ymatebol i anghenion a diddordebau dysgwyr ac yn addasu eu gwersi'n gelfydd. Mae'r athrawon hyn yn cynllunio gwersi sy'n herio dysgwyr ac yn datblygu amrywiaeth o fedrau gwerthfawr yn effeithiol. Mae'r rhain yn cynnwys dysgu annibynnol ac ar y cyd, datrys problemau a medrau creadigol.

93 Mae hwyluso dysgu annibynnol yn llwyddiannus yn gryfder arbennig gan lawer o athrawon Safon Uwch. Er enghraifft, mae athrawon yn cynllunio gweithgareddau sy'n gofyn i ddysgwyr wneud cysylltiadau yn annibynnol a throsglwyddo eu medrau rhwng gwahanol agweddau ar eu cwrs. Mewn enghreifftiau eraill, mae athrawon yn gwneud dysgwyr yn gyfrifol am 'addysgu' adrannau penodol o wers i'w cyfoedion neu'n rhoi rolau penodol iddynt er mwyn iddynt allu cynnal eu dadl eu hunain. Yn y gwersi hyn, mae dysgwyr yn gwneud cynnydd cryf.

**Astudiaeth achos 3: Ysgol Uwchradd Eirias, Conwy – dadl ysgogol mewn gwers economeg Safon Uwch ym Mlwyddyn 13**

Mewn gwers economeg Safon Uwch ym Mlwyddyn 13, cymerodd dysgwyr ran mewn dadl ffurfiol fywiog a gynhaliwyd yn eithriadol o dda am y syniad 'ei bod yn hanfodol i lywodraeth y DU leihau'r diffyg yn y sector cyhoeddus'. Hwylusodd yr athro'r sesiwn yn broffesiynol trwy weithredu fel 'y llefarydd' i wneud yn siŵr bod dysgwyr yn dilyn protocolau tebyg i'r rheiny a ddefnyddir mewn dadleuon seneddol.

> Gwnaeth pob un o'r dysgwyr gyfraniadau defnyddiol at y ddadl ac roedd y rhan fwyaf ohonynt yn hyderus a huawdl.  Gwnaeth llawer o ddysgwyr ddefnydd effeithiol o derminoleg arbenigol i amlygu cysylltiadau rhwng trethiant, gwariant cyhoeddus, galw cyfanredol, benthyca yn y sector cyhoeddus, chwyddiant, diweithdra a thwf economaidd.  Bu un disgybl yn cymharu hyn ag anawsterau economaidd a brofir yng Ngwlad Groeg tra ymyrrodd disgybl arall i bwysleisio bod statws credyd y DU wedi gostwng o ganlyniad i dwf isel ac ansicrwydd economaidd.  Roedd materion cyfoes eraill yng nghyfraniadau dysgwyr yn cynnwys effaith bosibl Brexit, y gwymp yng ngwerth y bunt, colledion swyddi yn y sector cyhoeddus a chostau a manteision economaidd posibl y cyswllt trên cyflymder uchel HS2.
>
> Roedd yn amlwg fod dysgwyr yn mwynhau'r cyfle i ddefnyddio gwybodaeth a dealltwriaeth y gwnaethant ei chaffael yn y gorffennol i gynnig dadleuon tra rhesymedig, a defnyddiodd llawer ohonynt iaith yn rymus i fanteisio i'r eithaf ar effaith berswadiol eu cyfraniadau.
>
> Ar ddiwedd y ddadl, pleidleisiodd yr holl gyfranogwyr yn annibynnol naill ai o blaid neu yn erbyn y syniad, ac wedyn bu dysgwyr yn myfyrio ar effaith y ddadl ar eu safbwyntiau rhagdybiedig cyn y ddadl.  Fel tasg ddilynol, roedd gofyn i ddysgwyr ateb cwestiwn arholiad blaenorol a oedd yn gofyn i ymgeiswyr drafod p'un a yw'n hanfodol i'r llywodraeth dorri gwariant cyhoeddus a chodi trethi i leihau'r diffyg yn y sector cyhoeddus.

94 Mae ychydig o athrawon Safon Uwch yn gwneud gormod dros ddysgwyr, ac nid ydynt yn eu galluogi i ddysgu drostynt eu hunain.  Hefyd, mae'r athrawon hyn yn gadael i ychydig o ddisgyblion, y rhai mwy abl gan amlaf, dra-arglwyddiaethu yn y wers o ran ateb cwestiynau ac arwain trafodaethau.  Gan fod medrau dysgu'n annibynnol yn hanfodol i lwyddo mewn cyrsiau Safon Uwch, mae hyn yn rhwystro cynnydd dysgwyr.  Mae ychydig iawn o athrawon yn meddu ar wybodaeth bynciol wan a dealltwriaeth annigonol o ofynion arholiadau.

95 Mae llawer o athrawon yn gofyn cwestiynau sy'n ysgogi syniadau i'r dosbarth cyfan ac yn mynd i'r afael â hyn â chwestiynau treiddgar wedi'u targedu at unigolion.  Maent yn cynnig adborth llafar o ansawdd uchel yn ystod sesiynau holi ac wrth fynd o gwmpas y dosbarth.  Mewn ychydig o achosion, nid yw'r holi gan athrawon yn herio dysgwyr yn ddigonol nac yn eu hannog i ymhelaethu ar eu hatebion.  Yn ychwanegol, mae'r athrawon hyn yn tueddu i ateb eu cwestiynau eu hunain neu esbonio atebion yn hytrach na thywys dysgwyr hyd at ddod i gasgliad.  O ganlyniad, aiff ychydig o ddysgwyr yn rhy oddefgar ac nid ydynt yn datblygu eu medrau meddwl yn ddigon da.

96 Mewn llawer o achosion, mae athrawon yn profi ac archwilio gwybodaeth a dealltwriaeth dysgwyr yn aml ac yn drylwyr trwy fonitro yn y dosbarth ac asesu gwaith dysgwyr yn ofalus, yn ogystal â thrwy holi effeithiol.  Mae'r strategaethau asesu a ddefnyddir gan yr athrawon hyn yn eu galluogi i gael darlun clir o gynnydd dysgwyr.  Mae adborth ysgrifenedig yr athrawon hyn yn fanwl gywir a'i ansawdd yn dda.  Mae'r adborth hwn wedi'i gysylltu'n glir â chynlluniau marcio arholiadau ac mae'n amlygu agweddau penodol y mae angen eu gwella, yn aml trwy anodi

ffocysedig o ran gwaith dysgwyr. Mewn ychydig o enghreifftiau effeithiol mewn pynciau perthnasol, caiff agweddau y mae angen eu gwella eu bwydo i mewn i'r darn asesu nesaf ac mae athrawon yn cyfleu disgwyliad clir y dylai'r dysgwr fynd i'r afael â'r gwendidau hyn yn ei ddarn gwaith nesaf. Fodd bynnag, nid yw'r arfer hon bob amser yn addas mewn pynciau lle mae'r asesu'n canolbwyntio'n helaeth ar wybodaeth bynciol, fel bioleg.

**Strategaethau addysgu a dysgu sydd o gymorth i ddysgwyr**

- Trafod a dadlau, gan fod y rhain yn dwyn llawer o fedrau ynghyd
- Mae'r athro'n gofyn i ddysgwyr ysgrifennu popeth y maent yn ei wybod ar ddechrau testun ac yn cynllunio dysgu o amgylch hyn
- Ailddrafftio atebion neu rannau o atebion neu ateb cwestiynau eto ac ailfarcio'r rhain
- Deunyddiau enghreifftiol fel traethodau ac atebion enghreifftiol
- Tablau neu eirfaoedd terminoleg
- Cwestiynau ychwanegol ar destunau penodol y maent yn eu cael yn anodd
- Cael cynlluniau marcio neu restrau gwirio meini prawf llwyddiant a mynd trwyddynt gyda'r athro cyn rhoi cynnig ar ateb cwestiynau
- Defnydd strwythuredig a chynlluniedig o bapurau, yn hytrach na dim ond rhoi gormod o hen bapurau i ddysgwyr
- Pecynnau neu nodiadau testun sy'n dod â nodiadau, cwestiynau arholiad a chynlluniau marcio ar destunau penodol at ei gilydd, a chael y rhain ar ddechrau testun
- Defnyddio ffug arholiadau a phrofion, gan gynnwys profion ar ddiwedd testun, ond dim ond pan fydd dysgwyr wedi ymdrin â digon mewn gwersi i allu rhoi cynnig ar eu hateb
- Amlygu pa amcanion asesu y maent wedi'u bodloni'n dda ac i'r gwrthwyneb, er enghraifft trwy rannu'r marciau yn ôl gwahanol amcanion asesu

97 Nid yw ychydig o athrawon yn cwestiynu nac yn profi dealltwriaeth dysgwyr yn ddigon effeithiol ac mae'r adborth a gynigir ganddynt yn rhy arwynebol ac amwys. Yn yr achosion hyn, mae disgwyliadau athrawon o faint o waith y dylai dysgwyr ei gynhyrchu yn rhy isel.

98 Mae mwyafrif o athrawon yn galluogi dysgwyr i ddeall sut i asesu eu gwaith eu hunain yn gywir a'i wella. Maent yn paratoi tasgau hunanasesu strwythuredig sydd wedi'u cysylltu'n glir â meini prawf asesu ac yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddysgwyr ailedrych ar gwestiynau neu ddarnau o waith.

### Monitro cynnydd

99 Mewn llawer o ganolfannau, mae dysgwyr yn deall yn glir pa mor dda y maent yn gwneud cynnydd yn eu hastudiaethau Safon Uwch a beth yw eu graddau targed. Mae dysgwyr a'u rhieni'n derbyn adroddiadau cynnydd rheolaidd am eu cynnydd cyffredinol, ac mewn lleiafrif o achosion, gallant gael gwybodaeth fyw a rhyngweithiol

trwy apiau neu wefannau. Mewn llawer o ganolfannau, mae gan ddysgwyr daflenni olrhain mewn pynciau unigol ac maent yn gweld y rhain yn ddefnyddiol wrth ddarparu gwybodaeth fanwl am agweddau penodol ar eu cynnydd yn y pynciau hyn. Yn y canolfannau mwyaf llwyddiannus, mae dysgwyr yn gosod graddau targed dyheadol ar gyfer dysgwyr yn rheolaidd ar sail eu cyrhaeddiad blaenorol mewn TGAU a'r galluoedd y maent yn eu dangos. Mae arweinwyr yn diwygio'r targedau hyn tuag i fyny pan fydd dysgwr yn gwneud cynnydd cryf iawn. Mae'r canolfannau hyn yn monitro cynnydd dysgwyr yn ofalus ac mae dysgwyr a'u hathrawon yn gweithio gyda'i gilydd yn dda i nodi unrhyw feysydd i'w datblygu, a mynd i'r afael â nhw. Mewn mwyafrif o ganolfannau, dim ond yn ddiweddar y cryfhawyd systemau olrhain a monitro, ac mae'n rhy gynnar i asesu eu heffaith.

100 Mae mwyafrif o arweinwyr yn gwneud defnydd priodol o'r wybodaeth a gafwyd o systemau olrhain a monitro i nodi tangyflawni a dysgwyr sy'n gwneud cynnydd da. Ni chaiff graddau'r ymyrraeth, y cymorth a'r adnoddau a ddefnyddir i gynorthwyo disgyblion yng nghyfnod allweddol 4 ei ailadrodd mewn cyrsiau Safon Uwch. Y rheswm am hyn yw bod ysgolion a cholegau yn disgwyl i ddysgwyr fod yn fwy cyfrifol am eu dysgu eu hunain. Er bod hyn yn briodol, gall fod yn heriol i ddysgwyr a gafodd lawer o gymorth yng nghyfnod allweddol 4.

**Astudiaeth achos 4: Ysgol Stanwell – olrhain a monitro cynnydd dysgwyr**

Ysgol gyfun gymysg cyfrwng Saesneg 11 i 18 oed ym Mhenarth, Bro Morgannwg yw Ysgol Stanwell. Mae 2,000 o ddisgyblion ar y gofrestr, gan gynnwys tua 500 yn y chweched dosbarth. Mae tua 5% o ddisgyblion yn gymwys am brydau ysgol am ddim.

Mae gan yr ysgol system drylwyr ar gyfer olrhain a monitro cynnydd dysgwyr ac mae'n defnyddio ystod o ddata mewnol ac allanol i osod targedau a monitro cynnydd. Mae arweinwyr canol ac uwch arweinwyr yn meddu ar ddealltwriaeth gref o ddata, gan gynnwys data gwerth ychwanegol. Adrannau sydd â chyfrifoldeb am osod targedau, gan ddefnyddio'r data a ddarperir iddynt gan yr ysgol i osod targedau ar gyfer pob dysgwr.

Caff cynnydd dysgwyr ei olrhain yn drylwyr trwy'r strwythurau bugeiliol ac adrannol. Mae'r olrhain gofalus hwn wedi creu diwylliant o ddysgwyr sy'n llawn cymhelliant sy'n dyheu am gyflawni eu graddau targed a thu hwnt. Mae penaethiaid adran yn llunio adroddiadau bob hanner tymor ar gynnydd dysgwyr Safon Uwch yn unol â'u targedau. Defnyddir y rhain gan unigolion cyswllt sy'n uwch arweinwyr i fonitro cynnydd adrannol ar gyrsiau Safon Uwch a chan benaethiaid blwyddyn i fonitro cynnydd dysgwyr unigol. Yn dilyn y cyfarfodydd cyswllt hyn, caiff arweinwyr pwnc drafodaethau gyda dysgwyr targedig. Mae athrawon pwnc yn adrodd yn ffurfiol i rieni ar gynnydd ddwywaith y flwyddyn. Maent yn nodi pa mor debygol yw pob dysgwr o gyflawni'r radd cyrhaeddiad y maent yn ei rhoi iddynt. Mae hyn yn rhoi manylion gwerthfawr i arweinwyr am gynnydd dysgwyr.

Mae'r tîm bugeiliol yn adolygu data cynnydd ar ôl pob casgliad data ffurfiol. Wedyn, caiff ymyrraeth briodol gan y tîm bugeiliol, fel mentora, ei rhoi ar waith ar gyfer dysgwyr a allai fod yn perfformio'n is na disgwyliadau ar

draws ystod o bynciau. Hefyd, mae adrannau'n adolygu'r data ar ôl pob casgliad data ffurfiol ac yn rhoi ymyriadau adrannol penodol dysgwyr ar waith ar gyfer dysgwyr sy'n tanberfformio.

Mae'r ysgol yn cynnal cyfarfodydd adolygu adrannol blynyddol lle caiff perfformiad dysgwyr y flwyddyn flaenorol ei arfarnu a thrafodir targedau ar gyfer y flwyddyn i ddod. Mae hyn yn hwyluso lefel briodol o her a chymorth ar gyfer staff a dysgwyr.

Dros gyfnod, mae'r ysgol wedi cynnal deilliannau cryf dysgwyr ar gyrsiau UG a Safon Uwch.

### Dysgwyr mwy abl

101 Bu gwelliant mewn deilliannau ar raddau A*-A yng Nghymru yn 2017 a 2018, ond mae hyn yn dilyn sawl blwyddyn o ostyngiad yng nghanran y dysgwyr yng Nghymru sy'n cyflawni'r graddau uchaf (CGC, 2018b).

102 Yn y rhan fwyaf o ganolfannau, mae darpariaeth ar gyfer dysgwyr mwy abl yn canolbwyntio ar raglen Seren erbyn hyn. Mae dysgwyr yn gadarnhaol iawn ynglŷn â'u profiad o'r rhaglen ar y cyfan. Maent yn mwynhau cyfarfod â phobl ifanc o'r un anian a chael cyfle i fynychu sesiynau ychwanegol ar faes penodol sydd o ddiddordeb iddynt. Mae'r rheiny sy'n dyheu am astudio pwnc gwyddonol yn y brifysgol, fel meddygaeth neu ddeintyddiaeth, wedi gweld y rhaglen yn fuddiol iawn. Hefyd, mae dysgwyr yn gweld bod y cymorth a roddir iddynt wneud cais i brifysgol yn werthfawr. Mae'r rhaglen yn canolbwyntio'n bennaf ar godi dyheadau a pharatoi dysgwyr ar gyfer prifysgol. Nid yw'n rhaglen sydd wedi'i chynllunio i hybu cyrhaeddiad ar gyrsiau Safon Uwch.

103 Mae gan ychydig o ganolfannau ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr mwy abl sy'n ymestyn y tu hwnt i raglen Seren. Mae'r canolfannau hyn yn olrhain cynnydd dysgwyr mwy abl yn ofalus ac yn darparu gwaith a phrofiadau heriol sy'n sicrhau bod y dysgwyr hyn yn cyflawni eu potensial. Mae'r rhain yn cynnwys gweithgareddau dosbarth meistr fel darlithoedd arbenigol gan siaradwyr gwadd a chlybiau diddordeb arbennig ar gyfer dysgwyr sy'n cyflawni'n dda. Mae ychydig o ganolfannau nad oes ganddynt y staff sy'n gymwys i gyflwyno mathemateg bellach mewn Safon Uwch yn gweithio mewn partneriaeth â phrifysgolion Cymru i gyflwyno'r cwrs.

### Darpariaeth cyfrwng Cymraeg

104 Mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg, gall dysgwyr astudio llawer, ond nid pob un, o'u pynciau trwy gyfrwng y Gymraeg o reidrwydd. Mae mathemateg a phynciau gwyddonol yn llawer mwy tebygol o gael eu haddysgu trwy gyfrwng y Saesneg na phynciau eraill. Mewn ychydig o leoliadau, caiff dysgwyr eu haddysgu'n ddwyieithog trwy gydol eu cwrs a gallant ddewis ym mha iaith i sefyll eu harholiadau. Mae'r dull hwn yn galluogi pob un o'r dysgwyr yn y dosbarth i ymgyfarwyddo â therminoleg sy'n benodol i bwnc yn y ddwy iaith ac yn eu paratoi ar gyfer astudio ar lefel uwch yn y naill iaith neu'r llall.

# Arweinyddiaeth

## Arweinyddiaeth

105 Nid oes patrwm cyffredin ledled Cymru o ran arweinyddiaeth mewn cyrsiau Safon Uwch mewn ysgolion a cholegau. Mae rôl ‘Pennaeth y Chweched Dosbarth’ yn wahanol iawn o un ysgol i’r llall. Mewn rhai achosion, mae Pennaeth y Chweched Dosbarth yn aelod llawn o’r uwch dîm arweinyddiaeth ac mae’n gyfrifol am bob agwedd yn y chweched dosbarth, gan gynnwys safonau mewn Safon Uwch. Mewn achosion eraill, mae’r rôl yn un fugeiliol yn bennaf, neu mae’n gysylltiedig â chyflwyno Bagloriaeth Cymru. Mae gan bron bob ysgol adrannau neu gyfadrannau sy’n cael eu harwain gan arweinwyr canol sy’n arbenigwyr pwnc, felly mae ganddynt gyfrifoldeb hefyd am safonau cyrsiau UG a Safon Uwch yn eu pynciau. Nid yw colegau’n tueddu i gael rolau penodol ar wahân sy’n gysylltiedig â chyrsiau Safon Uwch, er bod ychydig o golegau wedi cyflwyno rôl arweiniol strategol yn ddiweddar sydd â chyfrifoldeb am gyrsiau Safon Uwch. Mae cyrsiau Safon Uwch mewn colegau yn dod o fewn ‘meysydd’ neu ‘adrannau’ pwnc, sy’n cynnwys ystod o gymwysterau sy’n gysylltiedig â phynciau tebyg fel ‘busnes ac economeg’. Mae arweinyddiaeth yn ehangach mewn colegau gan fod cymwysterau galwedigaethol a chyrsiau Safon Uwch perthnasol yn aml yn cael eu cynnwys yn yr un maes dysgu neu mae arweinydd cyffredinol ar gyfer yr holl gyrsiau Safon Uwch.

## Hunanarfarnu a chynllunio gwelliant

106 Mae’r cyfyngiadau o ran data ôl-16 wedi ei gwneud yn anodd i ysgolion a cholegau arfarnu eu perfformiad eu hunain mewn Safon Uwch yn gywir. Mae gan leiafrif o ysgolion a cholegau brosesau hunanarfarnu a chynllunio gwelliant dynodedig addas ar gyfer y chweched dosbarth neu Safon Uwch.

107 Mae gan lawer o arweinwyr colegau drefniadau effeithiol ar waith i gydnabod a dwyn arweinwyr canol ac athrawon i gyfrif am gyfraddau llwyddiant ar gyrsiau UG a Safon Uwch. Gallant nodi cyrsiau lle mae cyfraddau rhoi’r gorau a methu yn rhy uchel ac maent yn rhoi mesurau ymyrraeth amserol ar waith. Yn gyffredinol, mae mwyafrif barnau hunanasesu colegau ar gyfer deilliannau mewn Safon Uwch yn dibynnu gormod ar raddio cyfraddau llwyddiant ac nid ydynt yn canolbwyntio ddigon ar y graddau y mae dysgwyr yn eu cyflawni nac ar y data ansoddol o arsylwi gwersi a chraffu ar waith dysgwyr.

108 Mae lleiafrif o arweinwyr canol colegau yn rhy gadarnhaol wrth farnu’r safonau y mae dysgwyr UG a Safon Uwch yn eu cyflawni. Mae hyn oherwydd:

- nid oes ganddynt ddarlun cywir o’r safonau a gyflawnir gan ddysgwyr mewn gwersi a safon y gwaith yn eu ffolderi/llyfrau
- nid ydynt yn cynnwys arfarniad trylwyr a chywir o’r graddau a gyflawnir gan ddysgwyr yn eu gweithgareddau hunanasesu Safon Uwch

109 O ganlyniad, mae cynllunio gwelliant yn aneffeithiol mewn lleiafrif o achosion.

110 Mewn mwyafrif o ysgolion, nid yw perfformiad mewn Safon Uwch yn amlwg mewn prosesau ar gyfer hunanarfarnu neu gynllunio ar gyfer gwelliant. Mewn llawer o ysgolion, prin yw'r ffocws ar ddeilliannau UG. Mae prosesau hunanarfarnu a chynllunio gwelliant ysgolion yn tueddu i ganolbwyntio'n helaeth ar berfformiad yng nghyfnod allweddol 4. Mewn mwyafrif o ysgolion, maent yn cynnwys myfyrdodau brysiog ar ychydig iawn o ddangosyddion yn y chweched dosbarth, neu ddim o gwbl. Nid yw'r ysgolion hyn yn dadansoddi perfformiad grwpiau o ddysgwyr yn y chweched dosbarth ac nid ydynt yn rhoi rhyw lawer o sylw i gyrhaeddiad mewn Safon Uwch mewn pynciau unigol. Mae adroddiadau awdurdodau lleol ac ymweliadau ag ysgolion yn tueddu i adlewyrchu'r patrwm hwn. Pan fu ysgolion yn defnyddio pecyn masnachol i ddadansoddi deilliannau Safon Uwch ers tro, mae lefel yr ymgysylltu â pherfformiad mewn Safon Uwch yn tueddu i fod yn well.

111 Mae'r rhan fwyaf o arweinwyr mewn colegau a mwyafrif o ysgolion yn arsylwi gwersi Safon Uwch ac yn craffu ar waith dysgwyr. Nid yw lleiafrif o ysgolion yn gwneud hynny neu dim ond yn ddiweddar y maent wedi dechrau. Ar y cyfan, nid yw lleiafrif o ysgolion a cholegau yn gwneud digon o ddefnydd o'r canfyddiadau o'r gweithgareddau hyn. Wrth arsylwi gwersi a chraffu ar waith Safon Uwch, mae llawer o ganolfannau wedi sylweddoli pwysigrwydd defnyddio arbenigwyr pwnc er mwyn cael golwg cywir ar safonau a chynnydd dysgwyr ac ansawdd yr addysgu. Pan fu hyn yn broblemus, mae ychydig o ysgolion wedi gweithio gyda darparwyr eraill i sicrhau bod arbenigwyr pwnc yn arsylwi gwersi.

**Astudiaeth achos 5: Ysgol Eirias – hunanarfarnu a chynllunio gwelliant**

Ysgol gyfun gymysg cyfrwng Saesneg 11 i 18 oed ym Mae Colwyn, Conwy, yw Ysgol Eirias. Mae 1,360 o ddisgyblion ar y gofrestr, gan gynnwys 270 yn y chweched dosbarth. Mae tua 13% o ddisgyblion yn gymwys am brydau ysgol am ddim.

Mae'r ysgol yn gweld bod y chweched dosbarth yn gryfder mawr, a rhoddir llawer o bwyslais arno o fewn prosesau hunanarfarnu a chynllunio gwelliant ysgol gyfan. Mae'r holl brosesau cynllunio gwelliant a hunanarfarnu cyfadrannau yn canolbwyntio ar gynnydd mewn Safon Uwch tuag at dargedau data cyfadrannau, ochr yn ochr â phedwar targed trosfwaol yr ysgol.

Mae'r ysgol yn defnyddio ystod o ddata mewnol ac allanol trylwyr i arfarnu perfformiad a ffurfio cynlluniau gweithredu strategol ar gyfer perfformiad mewn Safon Uwch ar lefel ysgol gyfan a chyfadran. Hefyd, mae arweinwyr yn gwneud defnydd effeithiol o ganfyddiadau o arsylwadau gwersi, craffu ar waith, a sgyrsiau gyda dysgwyr chweched dosbarth i arfarnu eu perfformiad a darpariaeth ar gyrsiau Safon Uwch.

Mae'n ofynnol i Benaethiaid Cyfadrannau gwblhau adroddiadau dadansoddi data UG a Safon Uwch adrannol bob blwyddyn. Mae'r grŵp arweinyddiaeth yn cymharu targedau a deilliannau ac yn adolygu perfformiad ym mhob pwnc Safon Uwch, ac fe gaiff hyn ei adolygu gan y corff llywodraethol yn ddiweddarach. Mae'r Pennaeth yn cyflwyno'n flynyddol i'r corff

llywodraethol ar atebion cyfadrannau i ymholiadau gan y llywodraethwyr. Caiff cynnydd tuag at gynlluniau gweithredu cyfadrannau a thargedau UG a Safon Uwch ei adolygu a'i herio trwy gyfarfodydd rheolwyr llinell. Mae cynnydd chweched dosbarth yn eitem reolaidd ar yr agenda yng nghyfarfodydd rheolwyr llinell y grŵp arwain.

Dros gyfnod, mae'r ysgol wedi cynnal deilliannau cryf dysgwyr mewn Safon Uwch ar draws y rhan fwyaf o ddangosyddion perfformiad.

## Partneriaethau

112 Mae mwyafrif o ysgolion a cholegau yn gweithio mewn partneriaeth ag un darparwr Safon Uwch neu fwy i ddarparu ystod ehangach o ddewisiadau pwnc ar gyfer dysgwyr a sicrhau bod cyrsiau'n hyfyw yn ariannol. Mae llawer o ganolfannau cyfrwng Cymraeg yn cydweithio i gynnig pynciau trwy gyfrwng y Gymraeg, ond mewn rhai achosion, mae gormod o bellter rhwng canolfannau i alluogi cydweithio o'r fath ac nid yw pob cwrs ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg. Mewn ychydig o achosion, mae ysgolion a cholegau yn gweithio gyda phrifysgolion Cymru i gyflwyno cyrsiau mathemateg bellach.

113 Mae llai o ysgolion cyfrwng Saesneg yn gweithio mewn partneriaethau nag yn y gorffennol, ac mae lleiafrif o ganolfannau wedi rhoi'r gorau i bartneriaethau blaenorol. Mae hyn fel arfer o ganlyniad i broblemau cyfathrebu a chydweithrediad neu ddiffyg cyllid, sy'n gysylltiedig â chludiant yn arbennig. Bu gostyngiad cyffredinol mewn partneriaethau ers cael gwared ar gyllid llwybrau dysgu 14-19 a oedd yn annog cydweithio a phartneriaethau er mwyn darparu ystod ehangach o lwybrau ac opsiynau dysgu ar gyfer dysgwyr.

114 Caiff cyrsiau Safon Uwch eu cyflwyno'n fwyaf llwyddiannus yn yr achosion canlynol:

- pan fydd perthnasoedd cryf a systemau cyfathrebu da rhwng canolfannau
- pan fydd canolfannau'n cyflwyno'r cyrsiau sy'n gweddu i'w harbenigedd a'u deilliannau gorau ac nid ydynt yn newid y pynciau y maent yn eu cynnig bob blwyddyn
- pan fydd canolfannau'n trefnu eu hamserlenni i sicrhau bod dysgwyr yn gallu symud yn hawdd, gyda chyn lleied o drosglwyddiadau ag y bo modd
- pan fydd cludiant yn hygyrch ac nid yw amseroedd teithio yn rhy hir
- pan fydd trefniadau sicrhau ansawdd trylwyr ar waith

115 Mae trefniadau sicrhau ansawdd ar gyfer cyrsiau a gyflwynir mewn partneriaeth yn amrywiol iawn. Ychydig o bartneriaethau yn unig sydd â threfniadau sicrhau ansawdd trylwyr, sy'n cynnwys arsylwadau gwersi a rhannu data ar y cyd. Mae hyn yn ddirywiad o ran arfer gan y bu hyn yn llawer mwy cyffredin yn y gorffennol. Mewn llawer o achosion, gadewir sicrhau ansawdd i'r ganolfan gyflwyno, sy'n golygu bod canolfannau sy'n anfon eu dysgwyr i'r ganolfan gyflwyno yn gwbl ddibynnol ar eu barn.

**Astudiaeth achos 6: Partneriaethau LINC Conwy ac Arfon**

Sefydlwyd LINC Conwy yn 2011 ac mae'n cynnwys saith ysgol uwchradd ac un coleg addysg bellach yn ardal Conwy. Mae partneriaeth Arfon yn cynnwys chwech o ysgolion uwchradd a dau goleg addysg bellach yn Arfon a'r ardal gyfagos.

Sefydlwyd y ddwy bartneriaeth i gynyddu cyfleoedd ar gyfer darpariaeth ddwyieithog a chyfrwng Cymraeg a chynyddu ystod yr opsiynau sydd ar gael i ddysgwyr ôl-16 yn yr ardaloedd lleol yng Ngogledd Cymru. Maent yn galluogi dysgwyr i astudio o blith ystod o gyrsiau UG, Safon Uwch a chyrsiau galwedigaethol yn unrhyw un o'r canolfannau dan sylw. Sefydlwyd y partneriaethau hefyd i ymateb i'r ffaith fod gormod o gyrsiau a oedd yn anhyfyw yn ariannol mewn llawer o'r ysgolion. Yn ychwanegol, roedd ysgolion yn ei chael yn anodd recriwtio arbenigwyr pwnc a darparu cyrsiau mewn ystod briodol eang o bynciau.

Yn y ddwy bartneriaeth, mae'r canolfannau wedi alinio eu hamserlenni, a darperir cludiant am ddim ar gyfer dysgwyr sy'n dilyn cyrsiau trwy'r bartneriaeth. Ym mhartneriaeth LINC Conwy, mae cyrsiau a gyflwynir trwy'r bartneriaeth ar gael ar un diwrnod llawn penodol bob wythnos. Mae hyn yn lleihau'r teithio ac yn galluogi dysgwyr i ganolbwyntio'n llawn ar eu cwrs LINC ar y diwrnod hwnnw. Mae'r trefniadau hwn yn golygu hefyd y gall athrawon drefnu teithiau a gwahodd ymwelwyr heb effeithio ar eu hastudiaethau eraill.

Ym mhartneriaeth Arfon, mae pob adran yn llunio adroddiad hunanarfarnu sy'n darparu gwybodaeth am ddangosyddion ansawdd penodol. Mae arweinwyr y bartneriaeth yn ystyried yr adroddiadau hyn ac yn eu defnyddio i benderfynu ble mae'r arfer orau a ph'un a oes yna unrhyw feysydd sy'n tanberfformio. Caiff cyrsiau sy'n tanberfformio eu newid neu'u hatal.

Caiff partneriaeth LINC Conwy ei chydlynu'n ganolog gan gydlynydd LINC. Caiff effeithiolrwydd y bartneriaeth ei fonitro'n rheolaidd trwy gyfres o gyfarfodydd adolygu sy'n cynnwys cyfarfodydd tymhorol lle mae pob canolfan yn adrodd ar gynnydd yn y cyrsiau y maent yn eu cynnig. Ymdrinnir â darpariaeth a deilliannau LINC Conwy yn rheolaidd fel eitemau sy'n bodloni'r agenda mewn cyfarfodydd cynllunio'r cwricwlwm 14-19. Hefyd, mae yna fwrdd partneriaeth strategol sy'n cynllunio datblygiadau ar gyfer y dyfodol. Caiff presenoldeb a chynnydd dysgwyr ei fonitro trwy safle diogel sy'n hygyrch i bob canolfan. Caiff adroddiadau hunanasesu eu llunio ar bob un o'r cyrsiau a gynigir. Mae'n ofynnol i unrhyw bynciau sy'n destun pryder lunio cynllun gwella. Wedyn, caiff y rhain eu trafod a'u hadolygu'n rheolaidd gan arweinwyr partneriaeth. Caiff arolwg dysgwyr ei gwblhau bob blwyddyn hefyd.

Bu'r ddwy bartneriaeth yn llwyddiannus o ran ehangu ystod y dewisiadau sydd ar gael i ddysgwyr trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. Mae ganddynt drefniadau sicrhau ansawdd cadarn hefyd.

116 Nid yw'r system bresennol ar gyfer priodoli canlyniadau trwy drefniadau partneriaeth yn darparu model atebolrwydd digon cadarn. Ni chaiff canlyniadau dysgwyr eu cyfrif yng nghanlyniadau'r ysgol na'r coleg os byddant yn dod o ganolfannau eraill. Caiff y canlyniadau eu cyfrif gyda chanlyniadau'r ganolfan 'gartref', er gwaethaf y ffaith nad ydynt wedi cyflwyno'r cwrs. Mae hyn yn gwneud arfarnu ansawdd yn heriol ac nid yw'n rhoi clod priodol am lwyddo.

117 Ar y cyfan, nid yw dysgwyr sy'n teithio i safleoedd eraill ar gyfer un cwrs yn hoffi'r ffaith fod rhaid iddynt deithio. Mewn lleiafrif o achosion, mae dysgwyr yn gwerthfawrogi'r cyfle i gyfarfod â phobl newydd a chael eu haddysgu mewn lle gwahanol. Yn y rhan fwyaf o ganolfannau, ychydig o ddysgwyr yn unig sy'n teithio i safleoedd eraill i astudio eu cyrsiau Safon Uwch.

### Dysgu proffesiynol

118 Mae diffyg cyffredinol o ran cyfleoedd dysgu proffesiynol sy'n canolbwyntio ar addysgu Safon Uwch ac arbenigedd pwnc. Prin yw'r rhwydweithiau lleol a chenedlaethol sydd wedi'u trefnu'n ffurfiol o arfer broffesiynol i gefnogi addysgu Safon Uwch. Mewn ychydig o gonsortia rhanbarthol ac ar draws llawer o ddarparwyr cyfrwng Cymraeg, mae gweithgorau ymarferwyr sydd i gyd yn addysgu'r un cyrsiau Safon Uwch, ond nid yw hyn yn arfer gyffredin ledled Cymru, ac mae'r ymdriniaeth â phynciau yn anghyson. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae unrhyw gydweithio yn anffurfiol ac wedi cael ei sefydlu trwy gyfeillgarwch.

119 Er gwaethaf nifer gymharol fach o athrawon Safon Uwch arbenigol, yn gyffredinol, nid yw ysgolion a cholegau yn gweithio gyda'i gilydd ar agweddau fel datblygiad proffesiynol ar y cyd neu rannu adnoddau. Mae hyn hyd yn oed yn wir pan fydd cydweithredu ynglŷn â chyflwyno cyrsiau trwy bartneriaethau. Mae cystadleuaeth am fyfyrwyr wedi gwneud ysgolion a cholegau yn amharod i weithio gyda'i gilydd, ac felly, ychydig iawn o systemau sydd ar waith i hwyluso cydweithredu. Yn y gorffennol, roedd trefniadau cyllido 14-19 yn galluogi mwy o gydweithio rhwng ysgolion a cholegau, er bod hyn yn tueddu i ganolbwyntio ar gyflwyno cyrsiau yn hytrach na datblygiad proffesiynol ar y cyd.

**Astudiaeth achos 7: Coleg Cambria – dysgu proffesiynol**

Coleg addysg bellach yw Coleg Cambria sy'n cynnig ystod o gyrsiau amser llawn a rhan-amser dros chwe safle yng Ngogledd Ddwyrain Cymru. Mae ganddo dros 6,000 o ddysgwyr amser llawn, a thros 10,000 o ddysgwyr rhan-amser. Mae tua 1,000 o ddysgwyr yn astudio cyrsiau Safon Uwch. Mae'n cynnig tua 35 o gyrsiau Safon Uwch mewn dwy ganolfan – Coleg Chweched Dosbarth Iâl yn Wrecsam a Choleg Chweched Dosbarth Glannau Dyfrdwy yng Nghei Connah. Mae'r ddwy ganolfan chweched dosbarth hyn yn cyflwyno darpariaeth drydyddol yn yr ardal gan fod y rhan fwyaf o'r ysgolion uwchradd lleol ar gyfer dysgwyr rhwng 11 ac 16 oed.

Mae'r coleg yn neilltuo cryn dipyn o amser ac adnoddau ar gyfer dysgu proffesiynol. Mae athrawon Safon Uwch yn cymryd rhan mewn ystod helaeth o gyfleoedd hyfforddi. Mae'r hyfforddiant yn cwmpasu ystod o agweddau sy'n cynnwys addysgu a dysgu, defnyddio technoleg ddigidol,

materion bugeiliol a hyfforddiant arweinyddiaeth. Roedd hyfforddiant diweddar ar addysgu a dysgu a thechnoleg ddigidol yn cynnwys:

- Dosbarthiadau meistr Safon Uwch ar strategaethau adolygu effeithiol
- Strategaethau llythrennedd effeithiol ar gyfer addysgu Safon Uwch
- Ymgorffori Mathemateg – dulliau ymarferol
- Cynhadledd Asesu Ffurfiannol
- Cymell dysgwyr
- Technegau holi
- Cyflymdra, ymestyn a her
- Cynllunio dysgu effeithiol
- Llythrennedd digidol
- Defnyddio technolegau newydd, gan gynnwys cyfrifiaduron llechen

Gall athrawon Safon Uwch fanteisio'n rheolaidd ar hyfforddiant pwnc cyrff dyfarnu. Hefyd, mae'r coleg yn cefnogi athrawon yn ariannol i ddilyn cymwysterau Meistr.

Mae cyfleoedd rheolaidd i staff rannu arfer dda a'u profiadau dysgu proffesiynol trwy gyfarfodydd tîm. Hefyd, mae staff yn rhannu arfer dda ar draws disgyblaethau pwnc a champysau trwy amrywiaeth o ddigwyddiadau 'Rhoi a Rhannu' a diwrnodau tîm staff ar draws safleoedd. Yn ychwanegol, cynhelir digwyddiadau safonau a thraws-farcio mewnol. Bob haf, neilltuir amser ar gyfer hyfforddiant a chynadleddau ac i dimau ddod at ei gilydd i fyfyrio a chynllunio. Mae'r cyfleoedd hyn yn cynnwys yr holl athrawon Safon Uwch.

Mae rhwydweithiau proffesiynol ar waith gyda cholegau addysg bellach eraill a gyda chyrff proffesiynol fel y Gymdeithas Ddaearyddol Frenhinol, y Gymdeithas Gemeg Frenhinol, a Phrifysgol y Gyfraith. Mae gan lawer o feysydd pwnc gysylltiadau ag adrannau prifysgol a cheir cysylltiadau â chyflogwyr rhanbarthol, gan gynnwys Chetwood (Gwasanaethau Technoleg Ariannol) a Theatr Clwyd.

Mae arweinwyr y coleg yn cynllunio'r rhaglen dysgu proffesiynol yn ofalus i sicrhau ei bod yn canolbwyntio ar wella ansawdd ac yn cyflwyno'r gwerth gorau posibl am arian. Mae teithiau dysgu yn cyd-fynd â'r rhaglen dysgu proffesiynol ac yn helpu cefnogi tystiolaeth o effaith ac arfer well.

120 Mae'r brif ffurf o ddysgu proffesiynol sy'n gysylltiedig ag addysgu Safon Uwch yn canolbwyntio ar ofynion arholi ac fe'i cyflwynir gan y bwrdd arholi. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion a cholegau wedi blaenoriaethu gan alluogi i'w staff fynychu cyrsiau byrddau arholi ar y manylebau Safon Uwch newydd, er y gall cost gyfunol mynychu'r cyrsiau, teithio a chostau staff cyflenwi fod yn afresymol.

121 Mae gan lawer o ganolfannau ychydig o arholwyr Safon Uwch ar draws ystod o bynciau, ac mae gan leiafrif ohonynt brif arholwyr. Mae hyn yn brofiad dysgu proffesiynol gwerthfawr i athrawon, sy'n cyfoethogi eu haddysgu ac yn gwella eu harbenigedd.

122 Mae dryswch cyffredinol ymhlith athrawon ac arweinwyr ysgol a choleg ynghylch argaeledd amserol adnoddau a deunyddiau ym mhob pwnc Safon uwch a phwy sydd â chyfrifoldeb am hyn yn y pen draw. Mae llawer ohonynt wedi mynegi pryderon ynglŷn â'r ffaith fod cyrsiau a deunyddiau CBAC ar gael yn hwyr i gefnogi eu haddysgu, fel manylebau arholiadau a phapurau enghreifftiol. Mae hyn yn arbennig o wir mewn pynciau fel astudiaethau crefyddol, hanes, Ffrangeg ac addysg gorfforol ac ar gyfer deunyddiau cyfrwng Cymraeg. Mae cwynion hefyd am brinder deunyddiau cymorth a natur amwys cynlluniau marcio mewn ychydig o bynciau. Mae'r problemau hyn yn bennaf o ganlyniad i gyflymdra cyflym y newid a'r oedi yn y system achredu/cymeradwyo ar gyfer cyrsiau Safon Uwch, ond mae diffyg dealltwriaeth gyffredinol o'r prosesau hyn a'r effaith ddilynol ar baratoi a chyhoeddi adnoddau.

123 O ganlyniad i ddiffyg gwybodaeth glir, nid yw athrawon ac arweinwyr yn gwbl ymwybodol o wahanol gyfrifoldebau Llywodraeth Cymru, Cymwysterau Cymru a CBAC o ran cyrsiau Safon Uwch. Er enghraifft, nid yw CBAC yn cyhoeddi gwerslyfrau ond mae'n gweithio gyda chyhoeddwyr masnachol i gynhyrchu gwerslyfrau i gefnogi eu manylebau. Er bod llawer o athrawon yn canfod bod oedi sy'n effeithio ar gyhoeddi gwerslyfrau yn fethiant gan y bwrdd arholi, mae unrhyw oedi yn bennaf o ganlyniad i broblemau masnachol gan y cyhoeddwyr. Gan fod gan Gymru ei manylebau Safon Uwch ei hun erbyn hyn, sy'n cael eu haddysgu yng Nghymru yn unig, mae'r farchnad ar gyfer adnoddau a gynhyrchir yn fasnachol yn llai nag ydoedd ar un adeg.

124 Mewn mwyafrif o ysgolion ac ychydig o golegau, gall arbenigedd mewn addysgu pwnc i safon cyrsiau Safon Uwch gael ei gyfyngu i ychydig o athrawon, yn aml y rheiny sy'n benaethiaid adran. Mewn ysgolion bach, mae diffyg cyfle i'r holl athrawon addysgu Safon Uwch, ac mewn llawer o ysgolion, un dosbarth Safon Uwch yn unig sydd ym mhob pwnc. Mewn mwyafrif o achosion, mae athrawon unigol yn addysgu rhai agweddau ar y cwrs neu bapurau penodol ac nid yw hyn yn dueddol o newid oni bai fod y fanyleb yn newid neu fod y pennaeth adran yn ystyried bod hyn yn briodol. Gall hyn arwain at broblemau pan fydd athrawon yn absennol am gyfnodau hir am nad oes profiad gan unrhyw un o'r athrawon eraill yn yr adran o addysgu papurau penodol neu agweddau ar y cwrs. Felly, mae'r garfan o athrawon sydd ag arbenigedd mewn Safon Uwch yn gymharol fach, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig ac mewn pynciau llai poblogaidd.

## Recriwtio a staffio

125 Nid yw llawer o ysgolion yn ei chael yn anodd recriwtio athrawon Safon Uwch mewn llawer o bynciau ac mae'r cyfle i addysgu cyrsiau Safon Uwch yn aml yn denu ymgeiswyr. Mae ychydig iawn o ysgolion yn gofyn i ymgeiswyr ateb cwestiynau Safon Uwch fel rhan o'u proses recriwtio. Fodd bynnag, gall fod yn anodd recriwtio mewn pynciau fel y gwyddorau, mathemateg, cyfrifiadura a TGCh, yn enwedig mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg ac ardaloedd gwledig.

126 Mae llawer o ysgolion a cholegau yn ei chael yn anodd dod o hyd i staff cyflenwi sy'n meddu ar gymwysterau addas i gyflenwi yn ystod cyfnodau wedi'u cynllunio a heb eu cynllunio o absenoldebau athrawon. Mae hyn wedi dod yn fwy heriol ers cyflwyno'r

manylebau newydd mewn Safon Uwch gan nad yw athrawon cyflenwi yn gyfarwydd â'r manylebau newydd ac nid ydynt yn teimlo'n ddigon hyderus i'w haddysgu.

127 Mewn llawer o ysgolion a cholegau, ni ddarperir gwersi Safon Uwch os bydd athro'n absennol am gyfnodau byr ond darperir gwaith ar gyfer dysgwyr, yn aml trwy'r e-bost neu lwyfan dysgu digidol. Mewn ychydig o achosion, mae hyn yn golygu y gall dysgwyr brofi diwrnodau heb gael eu haddysgu.

### Adnoddau a chyllid

128 Yn 2014, gofynnodd Llywodraeth Cymru i awdurdodau lleol ystyried methodoleg gyson ar gyfer ariannu dosbarthiadau chwech, gan gynnwys cyrsiau Safon Uwch. Dyrennir cyllid ar gyfer ysgolion i awdurdodau lleol bob blwyddyn i ddechrau, ac wedyn, byddan nhw'n ei ddirprwyo i ysgolion. Er bod Llywodraeth Cymru eisiau methodoleg gyson, mae'r ffordd y mae awdurdodau lleol yn dyrannu cyllid i ysgolion ar gyfer cyrsiau Safon Uwch a dosbarthiadau chwech yn amrywio ledled Cymru ac o fewn awdurdodau lleol o un flwyddyn i'r llall. Mae rhai awdurdodau yn ariannu niferoedd y disgyblion, mae awdurdodau eraill yn ariannu cyrsiau, ac mae awdurdodau eraill yn ariannu rhaglenni astudio. Mae rhesymau amrywiol pam mae fformiwlâu cyllido yn amrywio fel hyn. Er enghraifft, mewn rhai ardaloedd gwledig, mae awdurdodau lleol wedi dewis ariannu fesul cwrs oherwydd y pellterau daearyddol rhwng canolfannau ac mae'r prinder o ran y boblogaeth yn golygu na fyddai modd sicrhau'r niferoedd gofynnol o gwbl a byddai cyflwyno partneriaethau yn anymarferol. Mae fformiwlâu cyllido ar gyfer colegau yn wahanol i'r rhai mewn ysgolion. Mae colegau'n derbyn cyllid yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru ac fe'i dyrennir fesul blwyddyn academaidd, tra bod ysgolion yn derbyn cyllid fesul blwyddyn ariannol.

129 Mewn ysgolion a cholegau, mae fformiwlâu cyllido yn aml yn ysgogi ymddygiadau ac mae iddynt ganlyniadau anfwriadol. Er enghraifft, os caiff ysgol ei hariannu yn ôl nifer y cyrsiau sy'n cael eu hastudio gan bob dysgwr, yna bydd rhai arweinwyr yn annog dysgwyr i ddilyn mwy o gyrsiau, p'un a yw hyn yn briodol ar gyfer pob unigolyn ai peidio. Yn yr un modd, mae arweinwyr wedi cael eu drysu ynglŷn â'r cyllid ar gyfer Bagloriaeth Cymru, gyda rhai arweinwyr yn gwneud y cymhwyster hwn yn orfodol gan eu bod yn credu ei fod yn gysylltiedig â chyllid. Mewn rhai achosion ac mewn rhai blynyddoedd, roedd hyn yn wir, ond nid mewn rhai eraill.

130 Dros y blynyddoedd diwethaf, bu ysgolion a cholegau dan bwysau cynyddol i sicrhau hyfywedd ariannol cyrsiau Safon Uwch. Mae nifer yr oriau addysgu sy'n cael eu neilltuo ar gyfer cyrsiau Safon Uwch yn amrywio rhwng saith a 10 awr bob pythefnos, er bod y rhan fwyaf o ganolfannau'n neilltuo wyth neu naw awr bob pythefnos. Mae meintiau dosbarthiadau yn amrywio'n sylweddol ar draws canolfannau, o un dysgwr yn unig i ryw 30 o ddysgwyr. Bu ysgolion dan bwysau ychwanegol i sicrhau nad yw cyllid chweched dosbarth yn cynnal y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion iau. Yn sgil hyn, mae darparwyr yn chwilio am atebion fel sicrhau'r niferoedd gofynnol mewn dosbarthiadau Safon Uwch cyn caniatáu iddynt gael eu cynnal, cyfuno dosbarthiadau Blwyddyn 12 a Blwyddyn 13, a lleihau nifer yr oriau addysgu. Gallai'r atebion hyn effeithio ar y ddarpariaeth neu effeithio ar ehangder y dewis.

## Adrodd a dadansoddi data Safon Uwch

131 Mae'r ffaith fod data Safon Uwch yn cael ei gasglu, ei adrodd a'i ddadansoddi'n wahanol mewn ysgolion a cholegau ar hyn o bryd (yn unol â'r manylion yn Atodiad 1) yn ddryslyd ac yn ei gwneud yn anodd i ysgolion a cholegau ddadansoddi eu perfformiad eu hunain yn erbyn perfformiad ysgolion a cholegau eraill ac i rieni a dysgwyr gymharu darparwyr. Mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod nad yw'r dangosyddion perfformiad presennol yn y sector ôl-16, mewn ysgolion a cholegau, yn addas at eu diben, ac nid ydynt yn rhoi darlun clir o berfformiad. Mae'r set newydd o fesurau cyson, sydd wedi'u cynllunio i fynd i'r afael â'r diffygion hyn, bron â gorffen cael eu datblygu.

132 Mae data ar gael am ganran y dysgwyr sy'n cyflawni gwahanol raddau ar draws yr holl gyrsiau Safon Uwch ac mewn pynciau ar wahân ledled Cymru. Fodd bynnag, nid yw cymharu perfformiad ysgolion neu golegau â chyfartaleddau cenedlaethol yn rhoi ystyriaeth ddigonol i ffactorau cyd-destunol. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion a cholegau wedi prynu adroddiadau data a gynhyrchwyd yn fasnachol, sydd yn gyffredinol yn cynnwys data gwerth ychwanegol. Mae'r data hwn yn rhoi syniad o ba mor dda y mae dysgwyr wedi symud ymlaen o'u mannau cychwyn. Fodd bynnag, nid yw pob canolfan yn defnyddio'r un pecynnau ac mae'n ddatblygiad eithaf diweddar mewn mwyafrif o ganolfannau. Yn ychwanegol, ni chaiff y data ei wirio'n allanol ac nid yw'n gynhwysfawr gan fod canolfannau yn gallu dewis pa ddysgwyr i'w cynnwys yn y set data a pha ddysgwyr i'w hepgor, sydd â'r potensial i wyro'r data a'r deilliannau. Mae arweinwyr yn dechrau gwneud defnydd effeithiol o'r data hwn i osod targedau, monitro cynnydd a dadansoddi perfformiad.

133 Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n cyflwyno eu data gwerth ychwanegol eu hunain ar gyfer darpariaeth ôl-16 trwy'r mesurau cyson ôl-16. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, nid oes cysondeb ar draws canolfannau o ran data gwerth ychwanegol, sy'n ei gwneud yn anodd i ganolfannau wybod pa mor dda y mae dysgwyr yn symud ymlaen o'u mannau cychwyn o gymharu â dysgwyr tebyg mewn canolfannau eraill.

134 Mae cyfraddau cwblhau a llwyddiant ar lefel pwnc ar gael ar gyfer pob coleg unigol, ynghyd â chymaryddion cenedlaethol cyfatebol. Mae mwyafrif y colegau yn defnyddio'r wybodaeth hon yn dda i helpu arfarnu deilliannau'n gywir ar lefel cwrs a chynllunio ar gyfer gwelliannau.

135 Mae byrddau arholi yn darparu data manwl gwerthfawr ar berfformiad dysgwyr a chanolfannau unigol ym mhob cwestiwn arholiad Safon Uwch. Mae'r data hwn, sy'n cael ei adnabod fel 'data lefel eitem', yn rhoi darlun manwl o gryfderau a gwendidau pob unigolyn a phob dosbarth o ran perfformiad mewn arholiadau. Fe'i defnyddir yn dda yn y mwyafrif o ganolfannau ac mae'n darparu gwybodaeth hynod werthfawr ar gyfer athrawon dosbarth ac arweinwyr pwnc. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o ddarparwyr yn defnyddio'r wybodaeth hon yn ddigon da i nodi gwendidau a chynllunio ar gyfer gwelliant.

## Atebolrwydd

136 Mae'r cefndir o ddiwygio sylweddol, ynghyd â setiau data annibynadwy a chyfyngedig a diffyg mesurau cyson neu ddata gwerth ychwanegol ar draws ysgolion a cholegau, wedi ei gwneud yn anodd i gyrff cenedlaethol, arweinwyr ysgolion a cholegau, a dysgwyr a rhieni, farnu pa mor dda y mae sefydliadau unigol yn

perfformio yn y sector ôl-16, gan gynnwys Safon Uwch. Hefyd, mae wedi ei gwneud yn anodd cael system atebolrwydd fewnol ac allanol drylwyr sy'n gysylltiedig â pherfformiad mewn Safon Uwch. Mewn ysgolion, bu'r prif ffocws ar ddeilliannau cyfnod allweddol 4, lle mae data mwy dibynadwy, ac mewn colegau, bu'r ffocws ar gyfraddau llwyddiant cyffredinol a llai o lawer am gyrsiau Safon Uwch neu UG. O ganlyniad, bach fu'r pwyslais ar berfformiad mewn Safon Uwch yn yr 'agenda atebolrwydd' genedlaethol yng Nghymru, ac mae hyn wedi cael ei ailadrodd gan awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol ac mewn ysgolion a cholegau.

137 Bu ffocws cynyddol ar ddarpariaeth Safon Uwch o ran atebolrwydd allanol gan Lywodraeth Cymru, consortia rhanbarthol ac Estyn er mis Medi 2017 yn arbennig, a chynyddodd Estyn ei ffocws ar ddarpariaeth Safon Uwch mewn arolygiadau colegau yn 2016. Croesawyd hyn gan lawer o benaethiaid ac arweinwyr colegau. Dywed llawer o benaethiaid fod ymgynghorwyr her awdurdodau lleol bellach yn mynd i'r afael â deilliannau a darpariaeth chweched dosbarth yn eu hymweliadau a'u hadroddiadau, ond nid felly yr oedd hi yn y gorffennol. Mae llawer o golegau wedi bod yn talu am becynnau data gwerth ychwanegol masnachol ers sawl blwyddyn. Yn y blynyddoedd diwethaf, bu'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn prynu pecynnau masnachol i ddadansoddi perfformiad Safon Uwch mewn ysgolion. Er ei bod yn rhy gynnar i farnu pa mor dda y defnyddir y wybodaeth hon i gefnogi a herio ysgolion, mae'n dangos ffocws o'r newydd ar yr agwedd hon.

138 Mae adroddiadau arolygiadau ysgolion uwchradd Estyn bob amser wedi rhoi sylwadau ar ddeilliannau ar gyfer myfyrwyr chweched dosbarth ac agweddau ar y ddarpariaeth, ond mae'r diffyg mesurau cyson a data dibynadwy wedi gwneud dadansoddi manylach yn heriol. Yn ychwanegol, nid oes gan bob ysgol ddosbarthiadau chwech. Mae arolygiadau Estyn o golegau wedi ystyried deilliannau ar gyrsiau Safon Uwch hefyd, ac er mis Medi 2016, maent wedi adrodd ar wahân ar ddarpariaeth Safon Uwch. Ers cyflwyno'r trefniadau arolygu newydd ym mis Medi 2017, mae Estyn wedi cynyddu ei ffocws ar arolygu darpariaeth chweched dosbarth mewn arolygiadau ysgolion uwchradd ac ysgolion pob oed.

139 Er gwaethaf prinder cymharol atebolrwydd allanol ffurfiol, mae mwyafrif o ysgolion a cholegau bob amser wedi profi lefelau uchel o bwysau o ran deilliannau a darpariaeth Safon Uwch. Ffynonellau mwyaf cyffredin y pwysau hyn yw diddordeb rhieni, systemau sicrhau ansawdd partneriaethau neu gystadleuaeth gan ysgolion neu golegau eraill.

140 Adlewyrchwyd diffyg cymharol yr her sy'n gysylltiedig â deilliannau Safon Uwch gan ddiffyg cymorth. Er bod ystod eang o raglenni a strwythurau i gefnogi gwelliant yng nghyfnod allweddol 4, nid oes unrhyw raglenni cenedlaethol, ar wahân i rwydwaith Seren, ac ychydig iawn o raglenni rhanbarthol a geir i gefnogi gwelliant yn y sector ôl-16. Mae nifer o grwpiau ledled Cymru lle mae penaethiaid chweched dosbarth yn cyfarfod i drafod materion perthnasol. Erbyn hyn, mae gan bob consortiwm rhanbarthol swyddog sy'n cael ei neilltuo ar gyfer y chweched dosbarth neu'r sector ôl-16. Fodd bynnag, mae ychydig o'r penodiadau hyn yn rhai diweddar iawn ac nid yw cyfrifoldebau yn gysylltiedig â'r swyddi hyn yn glir. Mae'r berthynas rhwng consortia rhanbarthol ac ysgolion wedi hen ennill ei phlwyf, ond nid yw'r berthynas gyda cholegau yn statudol, ac felly nid yw'n glir p'un a fydd colegau'n elwa ar y rôl hon ai peidio.

# Atodiad 1 – Casglu a dadansoddi data

## Data chweched dosbarth ysgolion

Mewn ysgolion, adroddir am ddeilliannau chweched dosbarth o ran:

- faint o ddysgwyr sy'n cyflawni trothwy lefel 3 (2 gymhwyster Safon Uwch neu gyfwerth ar raddau A*-E)
- faint sy'n ennill 3 chymhwyster Safon Uwch neu gyfwerth ar raddau A*-A
- faint sy'n ennill 3 chymhwyster Safon Uwch neu gyfwerth ar raddau A*-C
- y sgôr pwyntiau cyfartalog

Mae cyfyngiadau i'r mesurau perfformiad hyn. Nid yw dangosydd lefel 3 yn ddefnyddiol iawn gan ei fod yn cynnwys 2 gymhwyster Safon Uwch neu raddau cyfwerth A*-E yn unig, ac mae'r mesur 3 A*-A yn fesur cyfyng hefyd. Mae'r 3 chymhwyster Safon Uwch neu fwy neu raddau cyfwerth ar ddangosydd A*-C wedi cael ei gyfrifo'n wahanol o un flwyddyn i'r llall ac felly mae'r data hwn yn annibynadwy. Mae diffyg eglurder cyffredinol ymhlith arweinwyr ysgolion uwchradd ynglŷn â'r dangosyddion perfformiad. Maent yn ansicr ynglŷn â pha gymwysterau sy'n cyfrif a'r rhai nad ydynt yn cyfrif, y pwys a roddir i wahanol gymwysterau a sut caiff y data ei gyfrifo. Mae hyn yn bennaf o ganlyniad i'r ffaith nad oes canllawiau clir ar sut caiff y mesurau perfformiad eu cyfrifo.

Ychwanegwyd data chweched dosbarth at Setiau Data Craidd Cymru (SDCCG) Llywodraeth Cymru ar gyfer ysgolion yn 2012. Mae'r mesurau perfformiad chweched dosbarth yn cynnwys cyrsiau Safon Uwch a chymwysterau eraill sydd â gwerth cyfatebol, fel Bagloriaeth Cymru a chymwysterau galwedigaethol, gan gynnwys BTEC. Yn 2007, cyflwynwyd Bagloriaeth Cymru fel cymhwyster chweched dosbarth. Ar lefel uwch, roedd hyn gyfwerth ag un cymhwyster Safon Uwch, gradd A. Diwygiwyd y cymhwyster yn dilyn argymhellion o'r Adolygiad o Gymwysterau 2012 ac mae Bagloriaeth Cymru ar ei newydd wedd wedi cael ei haddysgu er mis Medi 2015. Caiff elfen Tystysgrif Her Sgiliau Uwch y fagloriaeth newydd ei graddio yn A*-E ac mae ganddi werth cyfatebol i'r un graddau â Safon Uwch. Mae gan gymwysterau BTEC a chymwysterau galwedigaethol eraill werthoedd cyfatebol hefyd. Mae'r ffaith fod ystod o gymwysterau sy'n wahanol iawn i'w gilydd o ran cynnwys ac asesu yn cyfrannu at fesurau perfformiad yn ei gwneud yn anodd cael darlun clir o berfformiad mewn Safon Uwch yn unig. Yn ychwanegol, ni adroddir am berfformiad ar lefel UG o gwbl.

Mae mesurau perfformiad mewn dosbarthiadau chwech ysgolion yn canolbwyntio ar ddysgwyr sy'n 17 oed ym mis Medi ym mhob blwyddyn academaidd. Mae hyn yn golygu os yw dysgwr yn ailsefyll Blwyddyn 12 ac felly'n sefyll arholiadau UG ac nid Safon Uwch, bod ei ganlyniadau'n cael eu cynnwys yn y deilliannau ar gyfer cyrsiau Safon Uwch gan eu bod yn 17 oed ym mis Medi. Fodd bynnag, pan na fydd dysgwyr a ail-safodd Flwyddyn 12 ac yn sefyll eu harholiadau Safon Uwch, ni chaiff eu canlyniadau eu cynnwys gan eu bod yn 18 oed ym mis Medi. Mae'r data yn seiliedig

ar ddysgwyr sy’n cwblhau cyrsiau, ond nid yw’n ystyried y rheiny a ddechreuodd ddilyn cyrsiau ond na wnaethant eu gorffen.

Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi ffigurau cenedlaethol cyfartalog ar gyfer y mesurau perfformiad chweched dosbarth. Mae’r rhain yn darparu meincnod o fath ar gyfer ysgolion, ond nid oes setiau data sy’n ystyried ystod o ffactorau cyd-destunol, a fyddai’n darparu cymhariaeth fwy ystyrlon ar gyfer ysgolion, ar gael ar hyn o bryd. Mae CBAC yn cyhoeddi ffigurau cyrhaeddiad graddau cyfartalog cenedlaethol ar gyfer pynciau ar wahân.

Mae Set Data Craidd Cymru Gyfan Llywodraeth Cymru yn cymharu perfformiad pob ysgol â grŵp o naw neu ddeg ysgol arall sydd â chyd-destunau eithaf tebyg, sy’n cael eu hadnabod fel y ‘teulu o ysgolion’. Mae pob ysgol sydd â chweched dosbarth mewn teulu lle mae gan bedair neu bump o’r ysgolion eraill yn y teulu chweched dosbarth hefyd, er y gall maint pob chweched dosbarth amrywio’n fawr ac mae nifer yr ysgolion y gallant gymharu eu hunain â nhw yn fach.

## Data addysg bellach

Yn y sector addysg bellach, bu darparwyr yn defnyddio adroddiadau data CDGOC (Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru). Mewn colegau, mae mesurau perfformiad yn seiliedig ar ddysgwyr sy’n dechrau ac yn cwblhau cyrsiau. Adroddir am ddeilliannau mewn colegau o ran:

- ‘cyfraddau cwblhau’ (faint o ddysgwyr sy’n dechrau cyrsiau UG a Safon Uwch sy’n aros tan ddiwedd y flwyddyn academaidd)
- ‘cyfraddau llwyddiant’ (faint o ddysgwyr sy’n dechrau ar gwrs Safon Uwch sy’n eu cwblhau’n llwyddiannus ac yn cyflawni graddau A*-E)

Mae setiau data colegau yn fwy cywir o ran ystyried y rheiny sy’n dechrau ac yn cwblhau cyrsiau, ond yn llawer mwy cyfyngedig o ran cwmpas na’r rheiny mewn ysgolion.

Mae cymaryddion cenedlaethol ar gyfer y mesurau perfformiad hyn, ar sail perfformiad cyfartalog ledled Cymru, ar gael i golegau eu defnyddio i gymharu eu perfformiad â’r sector yng Nghymru. Gall pob coleg weld ei safle cyfradd lwyddo ymhlith y deg coleg arall yng Nghymru sy’n cynnig darpariaeth Safon Uwch. Fodd bynnag, mae’r mesurau perfformiad sefydledig hyn yn adlewyrchu’n unig p’un a yw dysgwyr yn cyflawni, yn methu neu’n rhoi’r gorau i’w cyrsiau. Nid ydynt yn adlewyrchu cryfder cyrhaeddiad graddau neu gyrhaeddiad cyfunol mewn mwy nag un cwrs Safon Uwch. Hefyd, nid ydynt yn adlewyrchu cyfran y dysgwyr sy’n parhau o gyrsiau UG i Safon Uwch. Nid ydynt ychwaith yn cofnodi cyfran y dysgwyr sy’n rhoi’r gorau i’w cyrsiau yn ystod wyth wythnos gyntaf eu hastudiaethau.

O ganlyniad i’r mesurau perfformiad, yn hanesyddol, bu llai o ffocws ar raddau a mwy o bwyslais ar gwblhau. I’r gwrthwyneb, mae ysgolion wedi canolbwyntio ar raddau ac nid ydynt wedi rhoi pwyslais ar gwblhau.

Mae’r ffordd y caiff data ei gasglu a’i ddadansoddi yn wahanol rhwng adroddiadau CDGOC a SDCCG. Mae hyn wedi golygu na fu’n bosibl cymharu deilliannau ar gyfer cyrsiau Safon Uwch ar draws ysgolion a cholegau.

## Datblygu dull ar y cyd ar gyfer data mewn ysgolion a cholegau

Yn 2016, gan na fu cynnydd mewn canlyniadau Safon Uwch ar raddau A*-A, A*-C ac A*-E dros dair blynedd, fe wnaeth dwy adran Llywodraeth Cymru, sef yr Adran Addysg a Sgiliau, Addysg Uwch a Dysgu Gydol Oes, ganolbwyntio eu gwaith yn agosach ar ddeilliannau Safon Uwch. Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys gweithio gyda chonsortia rhanbarthol, colegau, adolygu mesurau perfformiad a chynnal dau gyfarfod uwchgynhadledd Safon Uwch.

Ym mis Mehefin 2014, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y byddai'n cyflwyno cyfres o fesurau cyson ar draws yr holl ddarparwyr ôl-16, a gwnaeth y datganiad canlynol ym mis Chwefror 2016 (Llywodraeth Cymru, 2016, tud.1):

> *Mae'r mesurau presennol ar gyfer deilliannau dysgwyr mewn AB a dosbarthiadau chwech yn gyfan gwbl ar wahân:*
>
> - *Mewn AB, y prif fesur yw 'llwyddiant gweithgarwch dysgu' sydd wedi'i seilio ar yr holl weithgareddau dysgu a derfynir, ac felly'n cyfuno cyfraddau cwblhau a chyrhaeddiad dysgwyr ond heb ystyried unrhyw raddau neu sgorau pwyntiau cymhwyster.*
> - *Mewn dosbarthiadau chwech, mae mesurau wedi'u seilio'n unig ar ddisgyblion sy'n cael eu cofrestru ar gyfer arholiadau; felly, nid ydynt yn cynnwys cyfraddau cadw/cwblhau, ond maent yn ystyried graddau a sgorau pwyntiau.*
>
> *Mae'r diffyg cysondeb hwn yn golygu na ellir dwyn colegau ac ysgolion i gyfrif am ddeilliannau yn yr un ffordd, na chymharu ar sail 'amodau teg', hyd yn oed lle mae dysgwyr yn gwneud yr un cymwysterau mewn gwahanol leoliadau. Mae hefyd yn golygu na all dysgwyr wneud dewis gwybodus am astudio mewn ysgol neu goleg.*

Er mwyn mynd i'r afael â'r materion hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno cyfres o fesurau cyson ôl-16 ar draws ysgolion a cholegau (Llywodraeth Cymru, 2018e). Mae'r mesurau newydd yn cynnwys y canlynol:

- cyflawniad dysgwyr – sy'n dangos p'un a wnaeth dysgwyr aros tan ddiwedd eu cyrsiau a chyflawni nod eu cymhwyster
- gwerth ychwanegol ôl-16 – sy'n dangos y cynnydd a wnaeth dysgwyr ar sail eu cyrhaeddiad blaenorol
- cyrchfannau dysgwyr – sy'n dangos a wnaeth dysgwyr symud ymlaen yn llwyddiannus i ddysgu pellach neu gyflogaeth ar ôl gadael dysgu

Mae'r gyfres hon o fesurau yn y camau datblygu terfynol a chyhoeddwyd y datganiad ystadegol cyntaf o ddata arbrofol ar gyfer y tri mesur newydd (nad yw'n cynnwys yr holl ddarparwyr) ym mis Medi 2018 (Llywodraeth Cymru 2018c, 2018d). Cyflwynwyd data cyflawniad heb ei gyhoeddi i ysgolion a cholegau, er y bu problemau â chywirdeb a dibynadwyedd y data a ddarparwyd gan ysgolion a cholegau. Bydd y set data gwerth ychwanegol ôl-16 newydd yn darparu gwybodaeth am ba mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni o ran eu cyrhaeddiad blaenorol. Ni fu'r wybodaeth hon ar gael yn y gorffennol trwy Set Data Craidd Cymru Gyfan neu CDGOC. Yn dilyn ymarfer caffael, rhoddodd Llywodraeth Cymru gontract i Fischer Family Trust Education Ltd ddatblygu, treialu a gweithredu model gwerth ychwanegol

ôl-16 yng Nghymru, fel rhan o'r mesurau perfformiad cyson newydd. Treialwyd y model hwn yn 2016-2017 a chyflwynwyd set lawn gyntaf o adroddiadau gwerth ychwanegol i ysgolion a cholegau yn hydref 2017. Nid yw'r adroddiadau hyn wedi'u cyhoeddi ac maent wrthi'n cael eu datblygu o hyd. Mae'r data cyrchfannau dysgwyr yn cael eu datblygu hefyd, a chyhoeddwyd y datganiad cyntaf o ddata arbrofol ar gyfer cyrchfannau dysgwyr ym mis Medi 2018 (Llywodraeth Cymru, 2018d).

## Sail y dystiolaeth

Mae'r canfyddiadau a'r argymhellion yn yr adroddiad hwn yn defnyddio:

- tystiolaeth o'r arolygiadau o'r holl ysgolion uwchradd a cholegau addysg bellach er 2010
- ymweliadau â 20 ysgol uwchradd a thri choleg addysg bellach
- tystiolaeth a gasglwyd o weithgareddau ffocysedig yn ystod saith arolygiad craidd o ysgolion uwchradd yng Ngwanwyn 2018 a phedwar arolygiad craidd o golegau addysg bellach er mis Medi 2016:
    - Ysgol Gymunedol Aberdâr, Rhondda Cynon Taf
    - Ysgol Uwchradd yr Eglwys yng Nghymru Esgob Llandaf, Caerdydd
    - Ysgol Esgob Vaughan, Abertawe
    - Ysgol Croesyceiliog, Torfaen
    - Ysgol Lewis Pengam, Caerffili
    - Ysgol Olchfa, Abertawe
    - Ysgol Uwchradd Gatholig Rufeinig Sant Joseph, Casnewydd
    - Grŵp Llandrillo Menai
    - Y Coleg, Merthyr Tudful
    - Coleg y Cymoedd
    - Coleg Gŵyr Abertawe
- cyfweliadau gyda swyddogion CBAC
- cyfweliadau gyda swyddogion Cymwysterau Cymru
- deilliannau arholiadau ar gyrsiau Safon Uwch ac UG
- adolygu llenyddiaeth berthnasol, gan gynnwys polisïau a diweddariadau Llywodraeth Cymru, papurau ymchwil, arfarniadau o raglenni'r llywodraeth.
- Dadansoddi data o'r ffynonellau canlynol:
    - Setiau Data Craidd Cymru Gyfan (SDCCG) Llywodraeth Cymru ar gyfer dosbarthiadau chwech
    - Data Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (CDGOC)
    - Data'r Cyd-gyngor Cymwysterau
    - Cronfa Ddata Arholiadau Cymru (WED)
    - Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD)

Dewiswyd ysgolion a cholegau ar ôl dadansoddi data, ystyried canfyddiadau arolygiadau ac adborth gan AEM. Mae'r detholiad mor amrywiol ag y bo modd, ac wedi'i seilio ar nifer gymesur o ysgolion cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg, lleoliad daearyddol a ffactorau economaidd gymdeithasol.

Roedd yr ymweliadau'n cynnwys:

- cyfweliadau gydag uwch arweinwyr ac arweinwyr chweched dosbarth/Safon Uwch
- arsylwadau gwersi i arfarnu ansawdd yr addysgu a'r dysgu mewn amrywiaeth eang o bynciau
- cyfarfodydd gyda dysgwyr i drafod eu gwaith a chasglu eu safbwyntiau ar ansawdd y ddarpariaeth yn eu hysgol neu'u coleg
- craffu ar waith dysgwyr

- craffu ar ddogfennau ysgolion neu golegau, gan gynnwys adroddiadau hunanarfarnu a chynlluniau gwella diweddaraf ysgolion, colegau a rhai adrannol

Hoffai Estyn ddiolch i'r ysgolion a'r colegau canlynol a gefnogodd yr adolygiad thematig hwn:

- Coleg Cambria, Sir y Fflint
- Coleg Dewi Sant, Caerdydd
- Coleg Sir Gâr, Sir Gaerfyrddin
- Ysgol Bro Teifi, Ceredigion
- Ysgol Brynrefail, Gwynedd
- Ysgol Dyffryn Conwy, Conwy
- Ysgol Gyfun Bryntirion, Pen-y-bont ar Ogwr
- Ysgol Gyfun Caerllion, Casnewydd
- Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf, Caerdydd
- Ysgol Gyfun Lewis i Ferched, Caerffili
- Ysgol Gyfun Maesteg, Pen-y-bont ar Ogwr
- Ysgol Gyfun Trefynwy, Sir Fynwy
- Ysgol Gyfun Y Strade, Sir Gaerfyrddin
- Ysgol Llanilltud Fawr, Bro Morgannwg
- Ysgol Maes Garmon, Sir y Fflint
- Ysgol Stanwell, Bro Morgannwg
- Ysgol Uwchradd Crucywel, Powys
- Ysgol Uwchradd Eirias, Conwy
- Ysgol Uwchradd Gatholig Rufeinig Cardinal Newman, Rhondda Cynon Taf
- Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Alban, Torfaen
- Ysgol Uwchradd Prestatyn, Sir Ddinbych
- Ysgol Uwchradd Y Ddraenen Wen, Rhondda Cynon Taf
- Ysgol Y Creuddyn, Conwy

## Geirfa

| | |
|---|---|
| **BTEC** | Cymwysterau galwedigaethol a gynigir ar amrywiaeth o lefelau yw cymwysterau BTEC.  Mae cymwysterau cenedlaethol BTEC ar gael o lefel 3 ac mae eu 'gwerth pwyntiau' yn debyg i'r hyn a geir mewn cymwysterau Safon Uwch. |
| **CDGOC** | Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru |
| **Cyfraddau cwblhau** | Faint o ddysgwyr sy'n dechrau cyrsiau UG a Safon Uwch sy'n aros tan ddiwedd y flwyddyn academaidd |
| **Cyfraddau llwyddiant** | Cyfran y gweithgareddau dysgu Safon Uwch a gwblhawyd yn llwyddiannus ac a gyflawnodd raddau A*-E |
| **Cyrsiau TAG Safon Uwch** | Tystysgrif Gyffredinol Addysg Safon Uwch |
| **Cyrsiau TAG UG** | Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwch Gyfrannol |
| **Data gwerth ychwanegol** | Defnyddir data gwerth ychwanegol i amcangyfrif faint o effaith gadarnhaol (neu negyddol) y mae addysgu a darpariaeth wedi'i chael ar ddysgwyr unigol trwy ddangos faint o gynnydd y maent wedi'i wneud o'u mannau cychwyn, ar sail cyrhaeddiad blaenorol a ffactorau cyd-destunol eraill. Er enghraifft, os rhagwelir y bydd dysgwr yn cyflawni gradd C mewn TGAU ond mae'n cyflawni gradd A, yna'r gwerth ychwanegol ar gyfer y dysgwr hwnnw yw 2 radd. |
| **SDCCG** | Setiau Data Craidd Cymru Gyfan |
| **Sgôr pwyntiau cyfartalog** | Mae pob gradd UG, Safon Uwch a Bagloriaeth Cymru gyfwerth â nifer benodol o bwyntiau.  Caiff cyfanswm nifer y pwyntiau ar gyfer pob dysgwr mewn canolfan ei adio a'i rannu â nifer y dysgwyr i roi'r sgôr pwyntiau cyfartalog. |
| **Trothwy lefel 2, gan gynnwys Saesneg neu Gymraeg a mathemateg** | Pum cymhwyster TGAU neu gyfwerth, graddau A*-C, gan gynnwys Saesneg neu Gymraeg a mathemateg |
| **Trothwy lefel 3** | Dau gymhwyster Safon Uwch neu gyfwerth, graddau A*-E |
| **UCAS** | Sefydliad yn y DU yw'r Gwasanaeth Mynediad i Brifysgolion a Cholegau (UCAS) a'i brif rôl yw gweithredu'r broses ymgeisio i brifysgolion ym Mhrydain. |

## Niferoedd – meintiau a chyfrannau

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Cyfeiriadau

Bryer, N.; Davies, R.; Ynus, S. (2018) *Gwerthusiad o Rwydwaith Seren.* Adroddiad GSR, rhif 08/2018. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://gov.wales/docs/caecd/research/2018/180205-seren-network-evaluation-summary-cy.pdf [Defnyddiwyd 14 Mai 2018]

Cyd-gyngor Cymwysterau (2015) *A, AS and AEA Results summer 2015.* [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.jcq.org.uk/examination-results/a-levels/2015/a-as-and-aea-results-summer-2015 [Defnyddiwyd 05 Medi 2017]

Cyd-gyngor Cymwysterau (2017a) *Improvement in A level results in Wales.* [Datganiad i'r wasg]. 17 Awst 2017. Ar gael o: https://www.jcq.org.uk/media-centre/news-releases/ce-press-notice-wales-summer-2017 [Defnyddiwyd 05 Medi 2017]

Cyd-gyngor Cymwysterau (2017b) *A, AS and AEA Results summer 2017.* [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.jcq.org.uk/examination-results/a-levels/2017/main-results-tables [Defnyddiwyd 05 Medi 2017]

Cyd-gyngor Cymwysterau (2018a) *GCE 2018: Notes for users of the results tables.* [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.jcq.org.uk/examination-results/a-levels/2018/summer-gce-results-important-information-2018 [Defnyddiwyd 23 Awst 2018]

Cyd-gyngor Cymwysterau (2018b) *GCE A Level & GCE AS Level Results Summer 2018 Thursday 16 August 2018.* [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.jcq.org.uk/examination-results/a-levels/2018/main-results-tables/a-level-and-as-results-summer-2018 [Defnyddiwyd 23 Awst 2018]

Cymwysterau Cymru (2016) *Ynglŷn â Cymwysterau Cymru*. Casnewydd: Cymwysterau Cymru. [Ar-lein]. http://www.qualificationswales.org/media/1850/about-qualification-wales-may-2016.pdf [Defnyddiwyd 14 Mai 2018]

Cymwysterau Cymru (2018) *Cofrestriadau dros dro ar gyfer arholiadau Haf 2018 yng Nghymru: TGAU, UG, Safon Uwch, Tystysgrif Her Sgiliau, a thystysgrifau Lefel 1/Lefel 2, Datganiad Ystadegol Cymwysterau Cymru, 24 Mai 2018.* [Ar-lein]. Ar gael o: http://qualificationswales.org/cymraeg/cyhoeddiadau/cofrestriadau-dros-dro-haf.pdf [Defnyddiwyd 31 Mai 2018]

Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2015) *Deddf Cymwysterau Cymru 2015.* Llundain: Y Llyfrfa. [Ar-lein]. Ar gael o: http://www.legislation.gov.uk/anaw/2015/5/contents/enacted [Defnyddiwyd 14 Mai 2018]

Donaldson, G. (2015) *Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: http://gov.wales/docs/dcells/publications/150225-successful-futures-cy.pdf [Defnyddiwyd 18 Ebrill 2017]

Estyn (2017) *Gyrfaoedd: Gweithredu'r fframwaith gyrfaoedd a'r byd gwaith mewn ysgolion uwchradd.* Caerdydd*:* Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/adroddiadau-thematig/gyrfaoedd-gweithredu'r-fframwaith-gyrfaoedd-a'r-byd-gwaith-mewn-ysgolion-uwchradd [Defnyddiwyd 14 Mai 2018]

Gyrfa Cymru (2018) *Hynt Disgyblion o Ysgolion yng Nghymru 2017*. Caerdydd: Gyrfa Cymru [Ar-lein]. Ar gael o: http://cyrchfannau.gyrfacymru.com/index.html [Defnyddiwyd 26 Medi 2018]

Hazelkorn, E. (2016) *Tuag at 2030: Fframwaith ar gyfer datblygu system addysg ôl-orfodol o'r radd flaenaf i Gymru.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://gov.wales/docs/dcells/publications/160310-hazelkorn-report-cy.pdf [Defnyddiwyd 14 Mai 2018]

Llywodraeth Cymru (2012) *Adolygiad o Gymwysterau ar gyfer pobl ifanc 14 i 19 oed yng Nghymru: Adroddiad terfynol ac argymhellion*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://gov.wales/docs/dcells/publications/121127reviewofqualificationscy.pdf [Defnyddiwyd 14 Mai 2018]

Llywodraeth Cymru (2014a) *Cymwys am Oes: Cynllun gwella addysg ar gyfer dysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru'*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://gov.wales/docs/dcells/publications/141001-qualified-for-life-cy.pdf [Defnyddiwyd 14 Mai 2018]

Llywodraeth Cymru (2014b) *Egwyddorion cymhwyster TAG UG a Safon Uwch.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: http://qualificationswales.org/cymraeg/cyhoeddiadau/gce-as-and-a-level-principles.pdf. [Defnyddiwyd 14 Mai 2018]

Llywodraeth Cymru (2016) *Mesurau perfformiad cyson ar gyfer dysgu ôl-16. Adroddiad cynnydd. Cylchlythyr 141110, Chwefror 2016*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: http://dera.ioe.ac.uk/25746/1/141110-consistent-performance-measures-for-post-16-en-v2.pdf [Defnyddiwyd 14 Mai 2018]

Llywodraeth Cymru (2017a) *Budd y Cyhoedd a Chymru Ffyniannus – Datblygu system addysg a hyfforddiant ôl-orfodol ddiwygiedig.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru [Ar-lein]. Ar gael o: https://beta.gov.wales/sites/default/files/consultations/2018-02/170620_consultation-en.pdf [Defnyddiwyd 14 Mai 2018]

Llywodraeth Cymru (2017b) *Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein cenedl. Cynllun gweithredu 2017-21.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://gov.wales/docs/dcells/publications/170926-education-in-wales-cy.pdf [Defnyddiwyd 14 Mai 2018]

Llywodraeth Cymru (2017c) *Dysgwyr sy'n gadael y Chweched Dosbarth cyn Blwyddyn 13: Nodweddion a Chofrestriadau ar gyfer Addysg Bellach,* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: http://gov.wales/docs/caecd/research/2017/170301-learners-leaving-sixth-form-before-year13-characteristics-enrolment-cy.pdf [Defnyddiwyd 30 Mawrth 2017]

Llywodraeth Cymru (2018a) *Budd y Cyhoedd a Chymru Ffyniannus – y camau nesaf*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru [Ar-lein]. Ar gael o: https://beta.gov.wales/sites/default/files/consultations/2018-04/180423-tertiary-education-and-research-commission-for-wales-consultation-document.pdf [Defnyddiwyd 14 Mai 2018]

Llywodraeth Cymru (2018b) *Cyrchfannau addysg ar gyfer dysgwyr Cyfnod Allweddol ac ôl-16, 2014/15*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru [Ar-lein]. Ar gael o: https://gov.wales/docs/statistics/2017/171214-educational-destinations-key-stage-4-post-16-learners-2014-15-en.pdf [Defnyddiwyd 14 Mai 2018]

Llywodraeth Cymru (2018c) *Datganiad Ystadegol Cyntaf: Mesurau perfformiad cyson ar gyfer dysgu ôl-16: cyflawniad a gwerth ychwanegol, 2016/17 (ystadegau arbrofol).* Caerdydd: Llywodraeth Cymru [Ar-lein]. Ar gael o: https://gov.wales/statistics-and-research/consistent-performance-measures-post-16-learning-achievement-value-added/?lang=cy [Defnyddiwyd 05 Hydref 2018]

Llywodraeth Cymru (2018d) *Mesurau perfformiad cyson ar gyfer dysgu ôl-16: cyrchfannau dysgwyr, 2015/16 (ystadegau arbrofol).* Caerdydd: Llywodraeth Cymru [Ar-lein]. Ar gael o: https://gov.wales/statistics-and-research/consistent-performance-measures-post-16-learning-achievement-learner-destinations/?lang=cy [Defnyddiwyd 05 Hydref 2018]

Llywodraeth Cymru (2018e) *Trosolwg o fesurau perfformiad cyson ar gyfer dysgu ôl-16*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru [Ar-lein]. Ar gael o: https://beta.gov.wales/consistent-post-16-performance-measures-overview [Defnyddiwyd 11 Hydref 2018]

Llywodraeth Cymru (2018f) *Budd y Cyhoedd a Chymru Ffyniannus – y camau nesaf*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru [Ar-lein]. Ar gael o: https://beta.gov.wales/sites/default/files/consultations/2018-10/tertiary-education-research-commission-wales-summary-of-responses.pdf [Defnyddiwyd 15 Hydref 2018]